

**Trafodaeth feirniadol a sript wreiddiol
(Gêm, set...)**



MPhil

2014

Mari Deiniol

Cynnwys

	Tudalen
Rhagair	2
Crynodeb	3
Rhan 1 – Trafodaeth Feirniadol	6
1.1 Cyd-destun y sgrïpt	7
1.2 Gofynion sgrïpt deledu	13
1.3 Llunio'r sgrïpt	22
1.4 Llyfryddiaeth	45
Rhan 2 – Y sgrïpt: Gêm, set ...	48

Rhagair

Cyn mynd ati i wneud MPhil mewn ysgrifennu creadigol, bûm yn astudio'r Gymraeg am dair blynedd ym Mhrifysgol Caerdydd gan raddio yn 2011 gyda BA yn y Gymraeg. Roeddwn yn ffodus y flwyddyn ganlynol i gael gwireddu fy mreuddwyd o ysgrifennu sgript wreiddiol, a hynny o dan gyfarwyddyd nifer o diwtoriaid yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Rwyf wedi bod â diddordeb ym myd y ddrama er pan oeddwn i'n blentyn ac wedi cael cyfleoedd di-ri, yn ymarferol ac yn ysgrifenedig. Bûm yn ddisgybl yn Ysgol Glanaethwy am dros ddeng mlynedd, yno y dechreuodd fy niddordeb ym myd y ddrama. Cefais y cyfle yno drwy wneud TGAU a Lefel A drama i greu sgriptiau gwreiddiol gyda grŵp, ac yna eu perfformio i gynulleidfa eang, ac wrth gwrs yr arholwyr. Unwaith eto cefais y cyfle yn y brifysgol i wneud modiwl sgriptio pan oeddwn yn fyfyrwraig israddedig ac ysgrifennais sgript am fywyd yr Iddewon yn ystod yr holocost. Wedi ysgrifennu'r sgript hon, roeddwn yn awyddus i ysgrifennu ymhellach.

Hoffwn ddiolch i'm rhieni a'm teulu oll am fod mor gefnogol ymhob ystyr. Diolchaf yn arbennig i staff Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Yr Athro Sioned M. Davies, Dr Llion Pryderi Roberts a Dr Siwan Rosser am eu harweiniad. Ac yn olaf diolchaf i Manon Eames am ei chyfarwyddyd, ei holl gymorth a'i chefnogaeth ar hyd y daith.

Crynodeb

Mae'r portffolio yn cynnwys sgript ffilm wreiddiol (drama deledu ar ffurf ffilm gyflawn) a thraethawd beirniadol sy'n cynnig sylwebaeth adfyfyriol ar y broses greadigol.

Ym mhennod gyntaf y traethawd ceir trafodaeth am gyd-destun y traethawd. Yma trafodir camau cyntaf yr ymchwil. Mae'n sôn am y diffyg amrywiaeth a dramâu yn gyffredinol sydd ar S4C. Ceir ffigyrau amrywiol yn y bennod agoriadol yn ymwneud â nifer y gwylwyr ac amrywiaeth y rhaglenni ar S4C. Bwriad y drafodaeth yw dangos sut yr aethpwyd ati i lenwi bwlch yn narpariaeth S4C gyda'r sgript hon.

Mae'r ail bennod yn canolbwyntio ar ofynion y sgript deledu. Ceir trafodaeth am yr hyn sydd ei angen ar gyfer sgript dda sef cymeriadau, stori a phlot a fydd yn cynnig rhywbeth newydd i wylwyr S4C.

Yn y bennod olaf ceir trafodaeth am y gwaith ymchwil a oedd yn angenrheidiol er mwyn archwilio cyflwr anorecsig y prif gymeriad. Ceir yma drafodaeth am y salwch ei hun, yr effaith, y symptomau, gwellhad, hanes pobl sydd yn dioddef o'r salwch a'r diffyg cymorth sydd yma yng Nghymru.

Mae'r sgript ei hun am ferch sydd yn dioddef o'r salwch anorecsia, ond nid hyn yw'r unig boen sydd ganddi. Nid yw'r salwch yn ei amlygu ei hun nes diwedd y sgript. Mae ôl-fflachiadau drwyddi draw o wahanol adegau o fywyd y prif gymeriad, sy'n amlygu'r tristwch,

hwyl, diniweidrwydd, hapusrwydd a bodlonrwydd yma a fu'n rhan o'i bywyd. Awgrymir felly pa mor gymhleth yw'r ffactorau a all arwain at y cyflwr hwn.

Rhan 1

Trafodaeth Feirniadol

Rhan 1: Trafodaeth Feirniadol

Bwriad y drafodaeth hon yw bwrw golwg adfyfyriol a beirniadol ar y broses o lunio sgript wreiddiol ar gyfer drama deledu (drama ffurf ffilm gyflawn). Proses bersonol iawn oedd hon a chefais y cyfle i dynnu ar brofiadau personol yn ogystal ag ymchwil gwrthrychol. Yn yr adrannau nesaf byddaf yn cofnodi prif gamau'r broses: yr ymchwil cefndirol a wnaethpwyd er mwyn pennu pa fath o sgript yr oeddwn am ei hysgrifennu, sut aethpwyd ati i ddatblygu fy syniadau creadigol, a'r ymchwil i brif thema'r sgript sef anorecsia. Wrth ddisgrifio'r broses hon byddaf yn gwerthuso'r profiad ac yn dangos sut y deuthum i benderfyniad ynghylch cynnwys ac arddull y sgript. Mae'r drafodaeth yma felly yn dangos y ddolen gyswllt rhwng syniadau, ymchwil, profiadau personol ac ysgrifennu creadigol.

1.1 Cyd-destun y Sgript

Ar gyfer fy mhortffolio penderfynais gynhyrchu sgript wreiddiol ar gyfer y teledu. Fy nod ac amcan oedd creu sgript afaelgar a fyddai'n apelio yn bennaf at gynulleidfa o Gymry ifanc, ond a fyddai hefyd yn apelio at gynulleidfa hŷn. Credaf fod y diffyg dramâu cyfoes, apelgar ar S4C ac yn bersonol credaf nad oes llawer o bobl ifanc Cymru yn gwyllo'r rhaglenni sydd ar gael ar y sianel. Maent yn hytrach yn troi at sianeli Americanaidd a Saesneg a chanddynt amrywiaeth eang o ddramâu diddorol, cyffrous sydd yn delio â phynciau y gall pobl ifanc uniaethu â hwy. Wedi dweud hynny, mae ffigyrau blynyddol S4C ar gyfer 2011 yn dangos bod cynnydd wedi bod yn nifer y gwylwyr o gymharu â'r flwyddyn 2010. Yn wir, mae'r ffigyrau yn dangos bod S4C wedi atal cwmp yn nifer y gwylwyr ers bron i ddegawd.

Blwyddyn	Nifer o bobl yn gwyllo o leiaf dair munud o S4C yr wythnos
2003	1,141,000
2004	1,040,000
2005	919,000
2006	864,000
2007	731,000
2008	664,000
2009	549,000
2010	616,000
2011	618,000

Tabl 1: Adroddiad Blynyddol S4C, 2011

Gwelwn o'r tabl uchod fod y nifer a fu'n gwyllo S4C am o leiaf dair munud yr wythnos wedi haneru rhwng 2003 a 2009. Mae'n amlwg erbyn 2010 a 2011 fod peth cynnydd yn y niferoedd, ond gellid dadlau mai ers dyfodiad Cyw yn 2010 a gyfer oed 3 i 6 y gwelwyd y cynnydd hwn. Dengys y tabl isod, o adroddiad blynyddol S4C (2011), y nifer o bobl a oedd yn

gwylio amrywiaeth o raglenni S4C yn 2010 a 2011. Gwelwn yma'r cynnydd yn y gwylwyr o 2010 i 2011. Mae'r 'Cyrhaeddiad 15 munud misol' yn cyfeirio at y nifer o wylwyr unigol sy'n gwylio rhaglenni'r sianel am o leiaf 15 munud.

Cyrhaeddiad 15 munud misol	2011	2010
Ar draws y DU	803,000	797,000
Yng Nghymru	635,000	607,000
Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru	276,000	241,000

Tabl 2: Adroddiad Blynyddol S4C, 2011, t.46

Ceir clod yn Adroddiad Blynyddol S4C fod y sianel yn parhau i gael ei hadnabod gan wylwyr Cymraeg S4C fel *Y Sianel i Gymru*. Dywedir yn yr adroddiad blynyddol fod gan y sianel ei chryfderau, er enghraifft raglenni ffermio o safon, rhaglenni'n dangos cerddoriaeth wych o Gymru, chwaraeon o safon uchel a rhaglenni dogfen perthnasol i bobl Cymru yn unig:

Mae S4C, fel yn y blynyddoedd a fu, ymhell uwchlaw sianeli eraill o ran adlewyrchu Cymru gyfoes a Chymru wledig a dangos 'rhaglenni am fy rhan i o Gymru' a 'dangos sut beth yw hi i fyw yng Nghymru'. (Adroddiad Blynyddol, 2011, t. 52)

Mae'n bwysig cofio nad oes gan GYmru ond un sianel annibynnol Gymraeg sydd gan Gymru, ac nid proses hawdd oedd sicrhau'r sianel annibynnol i'r wlad. Bu dadlau mawr a phrotestio er mwyn sicrhau bodolaeth sianel Gymraeg, fel yr eglura Jamie Medhurst yn ei lyfr *A History of Independent Television in Wales*:

It is difficult to see how any account of the history and development of the media in Wales can be given without recourse to the idea of a struggle. The veracity of this observation is evident in the widely supported, lengthy and sometimes vitriolic campaigns to establish the BBC radio Welsh region and S4C. (2010, t. 30)

Mae S4C yn ceisio creu amrywiaeth o raglenni i'w gwylwyr. Cafwyd clod am y ddarpariaeth o safbwynt dramâu yn Adroddiad Blynyddol 2011 S4C, a dywedwyd bod y ffigyrau yn uchel iawn o ran y gwylwyr, ond yn anffodus nid oedd y ffigyrau yma ar gael ganddynt i gadarnhau'r honiad. Cafwyd amrywiaeth o ddramâu yn 2011-2012, ond rwyf yn parhau i ddadlau'n gryf nad oedd digon o ddramâu o safon. Wrth edrych ar amserlen S4C, gwelaf gryfderau mewn rhai mannau, ond eto wendidau mawr mewn mannau eraill. Wedi imi edrych yn fanwl ar bob categori sydd ar gael yn ystod 2011-2012 ar wefan S4C Clic, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes llawer o ddewis ar gael i'r gwylwyr o dan yr adran Ddrama. Gwelir isod beth oedd ar gael ar S4C yn ystod tymor y Gaeaf 2011:

ADLONIAENT – Ffermio; Mamwlad; Dweud pethe; Cofio; Cefn Gwlad;
Bro: Papurau Bro; Ddoe am Ddeg; Portreadau; Prosiect: Rhys Ifans; Wedi 7;
Wedi 3; Jonathan.

CERDDORIAETH - Clasuron Hel Straeon; Rhydian; Blwyddyn o Sioe/11; Noson Lawen; Llais i Gymru; Dechrau Canu Dechrau Canmol; Y Lle.

CHWARAEON - Cwpan; Amlin; Cwpan LV =; Ras yn erbyn amser; Y clwb Rygbi; Sgorio; Y Clwb Rygbi Rhyngwladol: Pencampwriaeth y Chwe gwlad 2012; Rygbi: Cross Keys v Llanelli.

CYW - 24 o Raglenni ar gael.

STWNSH - 16 o Raglenni ar gael.

FFEITHIOL A'R CELFYDDYDAU – Pawb a'i farn; Darn bach o Hanes; Straeon Tafarn; CF99; Dudley ar Daith; Y Byd ar Bedwar; Tocyn Diwrnod; Mike Philips 009.

DRAMA – Pobol y Cwm; Teulu; Rownd a Rownd.
[S4C Clic, 10fed o Hydref 2011]

Gwelwn isod beth oedd ar gael yn ystod tymor yr Haf 2012:

ADLONIAENT – Heno; Prynawn da; Sam ar y Sgrin; Codi hwyl; Ffermio; Dim byd; Hwb;

Perfffaith Hapus; Gyrwyr Gwaetha'r Byd; Castell Howell; Gwefreiddiol; Y Sipsiwn.

CALON – Calon: Y Llyfr Mwyaf Poenus yn y Byd; Calon: Y Gwarchodwyr; Calon.

CERDDORIAETH – Dechrau Canu Dechrau Canmol; Y Lle; Pen8nos; Y Sioe/12; Llangollen/12; Tafwyl/12: Digwyddiadau; Yn Fyw o Acapela; Gig 50; Sbariwns; Bryn Terfel: Gwyl y Byd.

CHWARAEON – Rasmus; Criced; Treiathlon y Llechi; Sgorio: Helsingborgs IF v Y Seintiau Newydd; Ras yr Wyddfa; Gemau Cymru Urdd 2012.

CYW – 31 o raglenni ar gael.

STWNSH – 10 o raglenni ar gael.

FFEITHIOL A'R CELFYDDYDAU – Cymdeithas yr Iaith yn 50; Dudley: Cymru ar Blât; CF99; Only Kids Aloud o'r Fro; Hacio; Pethe; Byw yn yr Ardd; Calon; Pethe: Y Babell Len; Dudley yn Gwledda.

DRAMA – Rownd a Rownd; Pobol y Cwm; Eldra.
[S4C Clic, Awst, 2012]

Dim ond tair rhaglen ddrama a oedd ar gael ar wefan *Clic* yn ystod tymor yr Haf a'r Gaeaf 2011-2012 sydd yn codi'r cwestiwn pam yr holl glod a gafwyd yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r defnydd o'r we yn boblogaidd iawn y dyddiau hyn, ac felly yn amlwg mae S4C *Clic* yn bwysig iawn i S4C. Mae hi'n braf gweld bod cynnydd wedi digwydd yn nifer gwylwr S4C *Clic*. Yn 2011, bu 2.5 miliwn o sesiynau gwyllo, sef 58% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Dywedir yn Adroddiad Blynyddol S4C:

Mae gwaith ymchwil, gan gwmnïau megis Kantar Media (2010) yn dangos fod cynulleidfa ar-lein S4C yn tueddu i fod yn iau na'r gynulleidfa ar gyfer y gwasanaeth teledu. (Adroddiad Blynyddol 2011 S4C, t. 46)

Wedi dweud hynny, fel y gwelir, dim ond tair drama oedd ar gael ar S4C *Clic*. Does dim rhyfedd felly fod pobl ifanc yn troi at wefannau eraill i wyllo dramâu. Ym mis Hydref 2011 roedd 110 o ddramâu a'r gael ar *Channel 4od*, deunaw ar gael ar *BBC iplayer* a phump ar hugain ar gael ar *itv player*. Mae'n rhaid cofio wrth gwrs mai cyfuniad o sianeli yw'r

gwefannau Saesneg, ac mai dim ond un sianel Gymraeg sydd ar gael, felly mae hi'n anodd cystadlu â'r sianeli eraill. Dyma dabl isod sydd yn dangos pryd yr ymddangosodd y dramâu ar S4C:

Drama	Tymor/Blwyddyn
PenTalar	Hydref 2010
Porthpenwaig	Gwanwyn 2011
Zanzibar	Hydref 2011
Gwaith cartref (Cyfres 1)	Hydref 2011
Alys	Gaeaf 2011
Sombreros	Gaeaf 2011
Gwaith Cartref(Cyfres 2)	Gwanwyn 2012
Pobol Y Cwm	Drwy gydol 2011 a 2012
Rownd a Rownd	Drwy gydol 2011 a 2012

Ar wahân i'r operâu sebon dyddiol *Pobol y Cwm* a *Rownd a Rownd*, sy'n cael eu darlledu deirgwaith yr wythnos, dim ond un ddrama gyfres wythnosol sydd, a hynny yn y slot naw o'r gloch ar nos Sul. Yn draddodiadol, mae'r dramâu hyn wedi eu hanelu at gynulleidfa eang, ond mae'r ymateb cymysg a fu i nifer o'r dramâu yn amlygu pa mor anodd yw plesio pawb. Cyfres ddrama newydd, er enghraifft, oedd *Alys* gan yr awdur Siwan Jones, drama dywyll a oedd yn dangos y problemau a'r caledi mewn bywyd cyfoes, yn ogystal â phroblemau'r bobl barchys tu ôl i ddrysau caeëdig. Roedd y gyfres *Alys* yn un newydd, wahanol ac yn wreiddiol i S4C, ond roedd llawer o gwyno gan y cyhoedd ei bod hi'n gymhleth ac yn anodd ei dilyn ar adegau. Roedd *Gwaith Cartref* yn ddrama boblogaidd iawn ymysg pobl ifanc, yn canolbwyntio ar bortreadu bywydau athrawon yn yr ysgol a thu hwnt. Drama arall oedd *Porthpenwaig* a leolwyd ym Mhen Llŷn. Drama fwy traddodiadol oedd hon, a gellid dadlau nad oedd yn ddrama heriol ac nid yn gwthio'r ffiniau. Cafwyd drama oedd yn llawn hiwmor a chomedi sef *Sombreros* (2011) a leolwyd yn Sbaen. Drama a oedd yn hawdd i'w dilyn oedd hon a gellid dadlau ei bod hi yn rhy hawdd wrth gwrs, ac nad oedd yn ddigon heriol i

gynulleidfa na chwaith yn 'real'. Drama a lwyddodd mewn amryw o ffurf oedd *Pen Talar*, drama a oedd yn dilyn bywyd dau deulu yng Ngorllewin Cymru dros gyfnod o 50 mlynedd. Yn wir, heriol iawn yw creu rhaglen sydd yn addas i bawb. Ond yn 2011 am y tro cyntaf ers cyfnod *Pam fi Duw?* (1997-2002) cafwyd drama a oedd wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc, a oedd yn cael ei darlledu am ddeg o'r gloch ar nos lau, sef *Zanzibar*. Yn anffodus ni chafwyd llawer o ganmoliaeth i'r ddrama, o'i gymharu â'r ymateb gwych a gafodd *Pam fi Duw?* yn ei ddydd. Byddaf yn manylu ar *Zanzibar* (2011) a *Gwaith Cartref* (2011- 2013) yn yr adran nesaf.

Wrth gasglu fy nhystiolaeth am fyd y ddrama ar S4C, gwelir mai tenau iawn fu'r cynnyrch drwy gydol y flwyddyn. Roeddwn felly yn teimlo fod angen drama gyfoes a fyddai'n apelio, gyda neges gref, a fyddai'n denu sylw pobl ifanc Cymru. Rwyf felly wedi canolbwyntio ar un salwch penodol a gysylltir â phobl ifanc heddiw, sef anorecsia. Wrth ysgrifennu ffilm am ferch yn dioddef o anorecsia, rwy'n gobeithio amlygu'r salwch hwn, nid yn unig i bobl ifanc ond hefyd i rieni a phobl hŷn. Rwyf wedi creu sgript sydd yn dilyn bywyd bob dydd merch, o'r adeg pan oedd hi'n blentyn bach hyd nes y cyrhaeddodd ei hugeiniau. Mae llawer o rwystrau yn wynebu'r ferch, ond erbyn y diwedd darganfyddwn mai ei phrif elyn yw anorecsia.

1.2 - Gofynion sgript deledu

Wrth imi fynd ati i ysgrifennu fy nrama wreiddiol ar gyfer y teledu yng Nghymru, roedd yn rhaid imi roi sylw i'r camau amlwg, sef sut i strwythuro fy nrama, a sut i fynd ati i gynhyrchu plot grymus a fyddai'n dal sylw a diddordeb y gynulleidfa. Yn ogystal â darllen ffynonellau eilaidd ynglŷn â strwythur dramâu, roedd hi'n bwysig iawn imi allu datblygu fy syniadau fy hun ar sut i fynd ati i strwythuro drama. Er mwyn llwyddo yn hyn bwm yn datblygu fy sgiliau beirniadol a dadansoddol drwy wyllo amrywiaeth o ffilmiau, cyfresi teledu a dramâu sebon, e.e. *Pobl Y Cwm*, *One Day*, *Slumdog Millionaire*, *Eastenders*, *The Sopranos*, *Zanzibar*, hynny yw nid yn unig ddramâu drwy gyfrwng y Gymraeg ond dramâu o Loegr a rhai Americanaidd hefyd. Roedd yn bwysig imi sylwi ar gryfderau a gwendidau'r dramâu hyn, a'u dadansoddi yn feirniadol. Roedd yn angenrheidiol imi weld y gwahaniaeth rhwng dramâu a ffilmiau o wahanol wledydd fel fy mod yn dysgu dulliau a strwythurau gwahanol, e.e. yn wahanol i ddramâu Cymraeg roedd *Sopranos* yn gryf gan awgrymu'n gynnil yn hytrach na dweud yn uniongyrchol ac yn fy nghadw ar flaen fy sedd yn pendroni beth fyddai yn digwydd nesaf yn y ddrama.


Mae gofynion saernïol a thechnegol amrywiol wrth ysgrifennu ar gyfer y sgrîn. Mae cymaint o ddulliau gwahanol a thechnegau unigryw, a phob awdur â'i ddull ei hunan. Mae gwreiddioldeb yn hynod bwysig ac angenrheidiol wrth gynhyrchu sgript lwyddiannus – cymeriadau, stori a phlot a fydd yn newydd ac yn ddiddorol er mwyn creu cynnwrf ac a fydd yn dal dychymyg y gynulleidfa. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig fod yr awdur yn credu'r hyn y mae'n ei ysgrifennu. Os nad yw'r ysgrifennwr yn gwir gredu yn yr hyn y mae wedi ei greu, yn sicr ni fydd y gynulleidfa yn credu yn y sgript:

Each tale you create says to the audience: 'I believe life is like this'. Every moment must be filled with your passionate conviction or we smell a phony. (McKee 1999, t.65)

Credaf mai un o'r prif gamau cyn dechrau ysgrifennu yw sicrhau plot grymus a gafaelgar ar gyfer y ddrama. Rwyf o'r farn mai plot yw'r peth pwysicaf yn y ddrama – heb blot nid oes stori a heb stori ni fydd drama. Mae strwythur a phlot yn cyd-fynd â'i gilydd:

... good plot structure mean that the right thing is happening at the right time. If the events of your story lack interest, excitement, humor, logic, or relevance, or if they occur in an order that fails to create suspense, surprise, anticipation, curiosity, or a clear resolution, then the structure is weak. (Hauge 1989, t. 83)

Y strwythur mwyaf cyffredin, a'r enwocaf, a ddefnyddir ym myd y ddrama yw strwythur Tair Act sef dechrau, canol a diwedd cryf. Gellid dadlau bod pob ffilm neu stori yn cael ei rhannu yn dair act. Y bwriad ar ddechrau'r pob drama yw gosod y cefndir, dangos a chyflwyno i'r gynulleidfa pwy yw'r prif gymeriadau a'r problemau sydd yn wynebu'r cymeriadau hynny. Swyddogaeth y rhan ganol yw canolbwyntio ar effaith y problem, a sut mae'r cymeriadau yn ymdopi â'r problem. Erbyn diwedd y ddrama, mae'n rhaid dangos sut i fynd ati i ddatrys y problem, ac a oes datrysiad i'r problem. Dyma ddiagram o strwythur dair act:



Pwrpas y strwythur yw creu pwysau a thyndra ar gyfer y cymeriad(au). Bydd y strwythur yn dablygu mwy o bwysau yn ystod taith y cymeriadau ac mae'n bwysig bod gwrthdaro rhwng cymeriadau yn creu tyndra er mwyn creu ffilm gredadwy a diddorol.

O fewn y strwythur tair act mae'n bosibl cael mwy nag un digwyddiad o fewn act unigol. Mae'n bosibl ychwanegu dau ddigwyddiad o fewn yr ail act a fydd yn cyfoethogi'r act, e.e.

ACT 1 - 1. Cyflwyno'r byd a'i broblem.

ACT 2 - 1. Datblygu (mymryn) ar y sefyllfa, ac adeiladu arno.

2. Cymhlethdod sydd yn creu newid yn y sefyllfa.

3. Wedi'r cymhlethdod, cyrraedd uchafbwynt.

ACT 3 - Penderfyniad y cymeriadau, ac eglurdeb.

Yn ogystal â phlot a strwythur mewn drama, mae'n bwysig fod yr awdur yn cofio mai awgrymu sydd yn angenrheidiol ar gyfer drama dda, awgrymu'r plot a'r cymhelliant, yn hytrach na datgelu'r cwbl wrth y gynulleidfa. Awgrymusedd a chynildeb yw'r dull sydd yn sicrhau drama afaelgar. Wrth wneud hyn gall y gynulleidfa gwestiynu sefyllfaoedd, gweld y plot a'r stori o'u persbectif hwy eu hunain. Drwy wneud hyn gall y gynulleidfa geisio dyfalu beth all ddigwydd nesaf, a chreu eu stori eu hunain. Cred y gynulleidfa, felly, eu bod yn gwybod beth sydd i ddod yn y ddrama. Golyga hyn fod rhaid i'r awdur fod gam ar y blaen gan anwybyddu'r amlwg drwy geisio rhoi sioc a chynnwrf i'r gynulleidfa. Drwy anwybyddu'r amlwg, bydd hyn yn eu gorfodi i wyllo'n ofalus, er mwyn gweld beth fydd yn digwydd nesaf. Mae'n rhaid i'r ysgrifennwr greu'r disgwyliadau, ond gall fynd yn hollol groes i'r disgwyliadau hynny:

To quote Sir Basil Barlett again, 'What writing for television really means is that the author is trying to tell a story to a single individual, who is not obliged to listen to who has not paid for his seat, whose attention must be well and firmly held if he is not going to switch off his set'. (Kelsey 1995, t.87)

Er bod y cyngor sydd mewn llyfrau fel *Writing for Television* (Kelsey 1995), *Writing Screenplays that Sell* (Hauge 1989) a *Storytelling in Film and Television* (Thomson 2003) wedi bod yn hanfodol ac o gymorth imi, fel rhywun sydd yn ysgrifennu drama wreiddiol, teimlaf yn gryf mai drwy wyllo'r dramâu ar y teledu a'u dadansoddi yn fanwl y sylweddolais bwysigrwydd strwythur a phlot cryf. Nid proses o wyllo er mwyn pleser yn unig oedd gwyllo'r dramâu. Roedd yn rhaid eu gwyllo ar eu hyd yn gyntaf; y cam nesaf oedd dadansoddi'n fanwl fesul golygfa neu ddigwyddiad penodol. Roedd yn rhaid cofnodi popeth a oedd yn berthnasol ac er mwyn gwneud hyn mewn modd trefnus, ysgrifennais bopeth ar ffurf tabl:

Munudau/amser	Prif ddigwyddiad	Cymeriadau	Nodiadau pwysig i mi fy hun
---------------	------------------	------------	-----------------------------

Wrth wyllo'r rhaglenni roedd hi'n haws eu dadansoddi yn gryno wrth ddefnyddio'r tabl uchod. Yn y golofn gyntaf roeddwn yn cofnodi'r munudau pwysig yr oedd angen imi eu cofio a fyddai'n galluogi imi fynd yn ôl at y munudau hyn. Yn yr ail golofn, roeddwn yn cofnodi'r prif ddigwyddiadau yn y munudau dan sylw, ac yna yn y drydedd nodwn pwy oedd y cymeriadau a oedd yn yr olygfa ar y pryd. Roeddwn wedyn yn cofnodi unrhyw beth ychwanegol a oedd yn bwysig yn y golofn olaf, e.e. os oedd rhyw gymeriad yn perthyn i rywun arall a oedd yn yr olygfa.

Gwyliais amryw o raglenni gwahanol. *Casualty* oedd un ohonynt. Mae'n cael ei ddarlledu yn wythnosol ar *BBC1* ar nos Sadwrn. Daeth i'r amlwg fod y munudau cyntaf yn hanfodol iawn i weddill y bennod. Yn ystod y munudau cyntaf, cyflwynir y rhan helaeth o'r wybodaeth bwysig: cyflwynir pwy fydd y cymeriadau yn y bennod. Mewn un bennod cofnodais fod wyth stori wahanol ar gyfer amrywiaeth o gymeriadau wedi eu cyflwyno yn y munudau agoriadol. Wrth i'r bennod fynd yn ei blaen, sylweddolais fod yr wyth stori wahanol yn gysylltiedig â rhyw gnewyllyn penodol. Gall y cnewyllyn fod yn ddigwyddiad neu'n gymeriad. Ond dadleuwn mai'r gwendid a geir yn *Casualty* yw llwytho gormodedd o blot a gormod o gymeriadau mewn ychydig amser. Er mwyn cryfhau'r ddrama, byddai'n well canolbwyntio ar lai o blot yn y strwythur.

Dadansoddais operâu sebon o dan gyfarwyddyd y sgriptwraig Manon Eames a fu'n cyfarwyddo fy ngwaith creadigol. Y tair opera sebon y canolbwyntiais arnynt oedd *Eastenders* sydd yn cael ei darlledu ar sianel *BBC1*, *Coronation Street* ar *ITV 1* a *Pobol Y Cwm* ar *S4C*. Treuliais gryn amser yn eu trafod a'u dadansoddi. Deuthum i'r canlyniad fod operâu sebon yn defnyddio dull crefftus iawn o ddechrau stori benodol ar gyfer un teulu un wythnos, ac yna yn symud ymlaen at stori benodol i deulu arall yr wythnos ganlydol. Defnyddir hyn er mwyn ysgogi'r gynulleidfa i ddilyn yr operau Sebon yn wythnosol. Diddorol oedd sylwi ar y tebygrwydd a welwyd rhwng y tair operau Sebon. Sylwais mai'r un oedd y ddwy thema bwysig drwy'r tair opera Sebon, sef teulu a chyfeillgarwch. Mae strwythur *Eastenders* yn wahanol i *Coronation Street* a *Pobol Y Cwm*. Nid oes toriad yng nghanol penodau o *Eastenders* ar *BBC1* gan nad oes hysbysebion yn digwydd ar y sianel hon; felly, mae mwy o amser darlledu, tua 29 munud. Dim ond 20 munud i bob pennod a geir yn *Coronation Street* a *Pobol y Cwm* oherwydd bod oddeutu pedwar munud o hysbysebion yn y

canol a phum munud ar y diwedd cyn symud ymlaen at y rhaglen a fydd nesaf. Er mwyn cynnal diddordeb y gynulleidfa, mae'n rhaid i *Coronation Street* a *Pobol y Cwm* sicrhau bachyn cyn yr hysbyseb, ac yna fachyn gwell a chryfach ar ddiwedd y bennod. Caiff hynny effaith anorfod ar strwythur ac arddull y ddrama.

Cynhyrchiad arall a ddylanwadodd arnaf oedd y ffilm enwog *Slumdog Millionaire*, addasiad o'r nofel *Q&A* gan Vikas Swarup a ysgrifennodd yn 2005. Cyfarwyddwr y ffilm oedd Danny Boyle. Ceir adolygiad canmoladwy yn y *Telegraph* gan Sukhdev Sandhu:

Danny Boyle's *Slumdog Millionaire* is the film equivalent of Usain Bolt's performance at the Olympics: funny, shocking, spectacularly turbo-charged. It takes your breath away at the same time as it makes you want to holler with joy or to grab the person next to you: "YES!" (2009)

Cytunaf yn llwyr â'r adolygwr; roeddwn yn llawn cynnwrf wrth wyllo'r ffilm. Roedd yn ddrama garu wahanol ond yn ddrama a oedd yn dilyn y thema oesol yn effeithiol. Stori yn llawn helyntion a gawn yn y ddrama wrth i Jamal y prif gymeriad wynebu taith hir drwy fynd ar y rhaglen *Who Wants To Be A Millionaire* yn yr India. Defnyddir ôl-fflachiadau yn y ffilm er mwyn dangos digwyddiadau penodol ym mywyd y prif gymeriad; yr atgofion a'r digwyddiadau hyn sydd yn sicrhau ateb i'r cwestiynau. Drwy'r ffilm roeddwn yn dod i adnabod y cymeriad a'r cymeriadau eraill yn well, ac yn dod i ddeall sut fagwraeth a gafodd, a'r trychinebau a wynebai Jamal pan oedd yn blentyn ifanc. Drwy ddefnyddio'r dechneg yma, roeddwn yn teimlo fel pe bawn yn ei adnabod yn dda. Roedd hyn yn glyfar ac yn afaelgar. Roedd y cyfan yn y pen draw yn fodd i ddarganfod ac achub y ferch a garai. Daeth yn amlwg wrth imi wyllo'r ffilm mai'r strwythur dair act a ddefnyddiwyd. Gosodir y brif broblem a'r sefyllfa ar y dechrau gan Jamal, sef y bwriad i ddod o hyd i'w frawd a'r ferch a garai. Yn y

rhan ganol mae'n darganfod ei frawd ond mae gwrthdaro yno oherwydd bod ei frawd yn gweithio i ddyn drwg ac yn gwneud amryw o bethau sydd yn anghyfreithlon, ac i gymhlethu pethau mae'r ferch a garai yn gariad i'r dyn drwg yn erbyn ei hewyllys. Datrysiaid a gawn ar y diwedd wrth i Jamal ennill *Who want to be a Millionaire?*, ac mae'r ferch yn dod yn ôl ato.

Cefais fudd o ddadansoddi dwy ddrama gyfoes yn y Gymraeg, eto dan oruchwyliaeth Manon Eames, a ddarllledwyd ar S4C yn yr hydref yn 2011 ac a oedd wedi eu hanelu at y math o gynulleidfa yr oeddwn i am ysgrifennu ar ei chyfer. Y ddwy ddrama oedd *Gwaith Cartref* (Roger Williams) gan Fiction Factory, a ddarllledwyd am naw o'r gloch ar nos Sul, sef y prif slot drama ar S4C, a *Zanzibar*(Kristy Jones) gan Rondo ar nos lau am ddeg o'r gloch y nos. Roedd y ddwy ddrama gyfoes hyn yn gwbl wahanol i'w gilydd: roedd *Gwaith Cartref* yn dilyn bywyd athrawon yn yr ysgol, a'u bywydau y tu allan i'r ysgol. *Roedd Zanzibar* ar y llaw arall yn seiliedig ar fywyd myfyrwyr y brifysgol a'u drygioni yn ystod eu hamser hamdden. Credaf fod y ddwy ddrama yn efelychu rhai o'r dramâu cyfoes sydd yn boblogaidd yn y Saesneg. Gellid dadlau bod y ddrama *Gwaith Cartref* yn debyg i *Waterloo Road* ar BBC1, a *Zanzibar* yn ceisio bod yn debyg i *Skins* sydd ar E4.

Llwyddodd *Gwaith Cartref* i greu drama gyfoes ddiddorol, gynhyrfus a real o fywyd athrawon a oedd yn apelio i garfan fawr o gynulleidfa S4C. Teimlaf yn bersonol wrth wyllo *Gwaith Cartref* y gall plant yn eu harddegau uniaethu â'r disgyblion ysgol, y trafferthion a wynebant o ddydd i ddydd yn yr ysgol: bwlio, syrthio mewn cariad a'r boen wrth wneud gwaith ysgol. Mae'n ddrama sy'n galluogi'r gwylwyr i uniaethu â'r athrawon, gan fod digon o arlliw o realaeth a hygredded i'r sefyllfaoedd a gyflwynir.

Fy marn bersonol yw mai'r prif wendid yn y bennod gyntaf oedd bod gormod o gymeriadau wedi cael eu cyflwyno. Roedd hyn yn fy nrysu, ac yn codi'r cwestiwn ynglŷn â phwy oedd y prif gymeriadau, ac oherwydd hyn roeddwn yn methu'n glir â bachu ar strwythur a phlot y bennod gyntaf. Roedd Joanna Davies o'r un farn fel y noda yn ei hadolygiad ar wefan y BBC:

Un feirniadaeth fach, roeddwn yn teimlo bod yna lawer o gymeriadau i ni ddod i'w hadnabod yn y bennod gyntaf ac o'r herwydd ychydig yn ddryslyd pwy oedd pwy o ran y gwagedd ifanc fel cymeriadau Beca a Grug er enghraifft. (Hydref 2011)
<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/ffilm/cymru/gwaith-cartref.shtml> [Gwelwyd: 12 Mehefin 2012]

Ond wrth i'r gyfres fynd yn ei blaen, daeth y strwythur a'r plot yn gliriach, gyda phob cymeriad â'i stori ei hun a oedd yn gwau yn daclus i'w gilydd. Roedd *Gwaith Cartref* yn defnyddio techneg debyg iawn i'r hyn a ddefnyddir yn yr operâu sebon drwy ddechrau un stori un wythnos am un cymeriad, ac yna fynd nôl at y stori ymhen dwy bennod. Credaf fod y dechneg yn glyfar ar gyfer drama gyfres; roedd yn eich gorfodi i wyllo yn wythnosol er mwyn gweld pryd y byddai uchafbwynt taith annibynnol y cymeriadau.

Roedd *Zanzibar* yn ddrama gwbl wahanol a oedd wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc yn unig, fel y dengys amseriad y darlledu, oedran y prif gymeriadau a'r themâu a drafodir. Yn anffodus, credaf yn bersonol fod *Zanzibar* wedi methu fel drama gyfoes. Ceisia *Zanzibar* efelychu'r ddrama gyfoes *Skins* sydd ar E4. Drama yw *Skins* sydd yn dilyn bywyd bob dydd criw o bobl ifanc a'r rheini yn wynebu trafferthion bob dydd: mynd yn erbyn gofynion rhieni, cymryd cyffuriau, rhyw, twyllo, ffraeo gyda ffrindiau, cenfigen, yfed yn wirion ac aros allan hyd berfeddion y nos yn codi twrw. Defnyddir techneg glyfar yn *Skins* sef bod un bennod yn seiliedig ar fywyd un cymeriad bob wythnos; cawn hanes hynt a helyntion sydd yn poeni'r

cymeriad hwn drwy ganolbwyntio yn unig ar y cymeriad sydd dan sylw ym mhob pennod. Ceisiodd *Zanzibar* efelychu'r dechneg, ond nid oedd yr awduron wedi glynu at un cymeriad yn unig, gan symud nôl a blaen rhwng cymeriadau.

Cafwyd gormod o bwyslais ar gyffuriau, rhyw a meddwi'n wirion yn *Zanzibar*, ond nid hynny'n unig a ddifethodd y ddrama imi. Doeddwn i yn bersonol ddim yn hoff iawn o agoriad pob pennod, sef defnyddio'r gair "Fuck". Egyr pob pennod gyda'r cymeriad dan sylw yn gweiddi'r rheg "Fuck". Nid oedd angen cymaint o bwyslais ar regi er mwyn denu gwylwyr ifanc i wyllo'r rhaglen. Roedd popeth yn rhy amlwg er enghraifft drwy gydol y ddrama; roedd y gynulleidfa'n gallu dyfalu'n union beth fyddai'n digwydd nesaf. Dylai'r awduron fod wedi awgrymu, yn hytrach na dweud. Roedd goregluro sefyllfaoedd yn *Zanzibar*, e.e. yn y bennod gyntaf roedd y cymeriad Tom yn cyfeirio nôl at ei gyfnod yn Thailand dro ar ôl tro hyd syrffed.

Fy nod, felly, oedd cynhyrchu drama a chanddi neges glir yn apelio at y to ifanc. Roeddwn am iddynt allu uniaethu â'r cymeriadau heb ddibynnu ar ystrydebau am bobl ifanc fel a geid yn *Zanzibar* a oedd, yn fy marn i, yn dibrisio'r gymdeithas ifanc. Y cam nesaf ar gyfer fy nrama, felly, oedd ymchwilio i'r pwnc a oedd gennyf dan sylw.

1.3 - Llunio'r Sgript

Soniwyd eisoes mai'r bwriad oedd creu sgript ar gyfer ffilm fer a fyddai'n apelio at gynulleidfa ifanc yng Nghymru. Wrth fynd ati i ysgrifennu, sylweddolais ar unwaith y byddai'n dasg anos na'r hyn yr oeddwn wedi ei ragweld. Daeth syniad yn syth i'm meddwl am ddrama gyfres, drama a fyddai'n canolbwyntio ar fywyd merch yn mynd i'r brifysgol, gan ddilyn hynt a helyntion criw ifanc, gwaith coleg, y problemau a fyddai'n eu hwynebu, y newid mawr a fyddai'n digwydd yn eu bywydau. Wrth feddwl a thrafod mwy am y syniad cychwynol yma, ac yn sgil y profiad o ddadansoddi *Zanzibar* deuthum i'r casgliad na fyddai'r plot hwn yn rhoi fawr o gyfle imi gynnig rhywbeth newydd i'r gynulleidfa.

Penderfynais felly anghofio'n llwyr am y syniad hwn, a mynd yn ôl i'r dechrau ac ailfeddwl. Un peth a oedd yn saff ac yn sicr gennyf oedd fy mod am ddarlunio bywyd plant yn eu harddegau. Roedd yn rhaid imi ar y dechrau ganolbwyntio ar y rhan bwysicaf yn y ddrama, sef sefydlu cymeriadau; wedi hynny symud ymlaen i'r elfennau eraill sef plot, stori a'r sefyllfaoedd yn y ddrama. Y cam cyntaf er mwyn creu prif gymeriad oedd gwneud ymarferion ar gyfer cymeriadu. Dechreuais drwy greu amrywiaeth o gymeriadau. Roedd yn rhaid creu disgrifiad manwl o gymeriadau a oedd yn cynnwys creu llun a'i labelu – pa fath o arogl, osgo a chredoau a fyddai gan y cymeriadau. Drwy gynhyrchu amrywiaeth o gymeriadau gwahanol, fe dynnodd un cymeriad fy sylw yn fwy na'r gweddill. Er mwyn darganfod mwy am y cymeriad penodol hwn, roedd yn rhaid imi wneud ymarfer a oedd yn fwy trylwyr. Roedd yn rhaid imi, o dan gyfarwyddyd Manon Eames, gyflawni'r dasg hon:

Dychmygu deg cerdyn post gwag, eu rhifo o un i ddeg. Byddai'r rhain yn cynrychioli taith bywyd y cymeriad, o'r adeg pan gafodd y cymeriad ei eni hyd at heddiw, dangos amcanion, teimlad a meddwl y cymeriad ar y pryd.

Beth oedd y sefyllfa?
Â phwy yr oedd y cymeriad mewn cysylltiad ar y pryd?
Pa ddewisiadau a oedd ar gael ar y pryd.
Pa benderfyniadau a wnaeth y cymeriad ar y pryd?

Y cymeriad a luniwyd yn ystod y broses hon oedd merch ifanc a oedd yn dioddef o anorecsia. Ond dyna'r unig beth yr oeddwn wedi ei greu o safbwynt y cymeriad, sef mai anorecsia oedd ei gelyn pennaf. Doedd gennyf ddim rheswm penodol ar y pryd dros ddewis y salwch hwn, dim ond fod y syniad yn un diddorol a bod yma botensial i ddatblygu'r cymeriad. Roedd yn rhaid imi felly ddatblygu personoliaeth y cymeriad hwn, a hynny drwy gadw'r salwch mewn cof. Er mwyn gwneud hyn, roedd yn rhaid gwneud mwy o ymarferion creadigol. Eto, o dan gyfarwyddyd Manon Eames, yr ymarferiad a gefais oedd:

Ysgrifennu llythyr at rywun, mewn amryw o ddulliau gwahanol. Ar ffurf neges destun, llythyr, neges MSN, Facebook, dyddiadur, darn o waith ysgol, stori mewn arholiad.

Wrth imi wneud yr ymarfer hwn, roedd hi'n ddiddorol darganfod amrywiaeth o nodweddion unigryw a chymhleth am y cymeriad. Er mwyn gallu creu cymeriad credadwy darganfûm fod angen defnyddio rhai digwyddiadau sydd wedi effeithio arnaf i yn bersonol yn fy mywyd. Ar y dechrau, cyn imi wneud unrhyw waith ymchwil am y salwch anorecsia, roeddwn yn ymwybodol fod pobl a phlant ifanc sydd yn dioddef o'r cyflwr hwn yn dueddol o fod yn gwneud ymarfer corff i'r eithaf. Penderfynais felly fod fy mhrif gymeriad yn chwaraewraig tennis. O'm profiad personol gyda thennis, o chwarae ers yn bump oed hyd nes yn ddeunaw oed, gan fynychu llawer o dwrnameintiau tennis ac ymarfer hyd at bedair i bum gwaith yr wythnos, rwy'n ymwybodol o'r gwaith caled a'r pethau sydd yn rhaid eu haberthu pan yn berson ifanc, a gall rhywun fod yn ymarfer am oriau ar y cyrtiau er mwyn llwyddo fel chwaraewr. Penderfynais hefyd nad tennis yn unig fyddai'r broblem, ond pwysau'r rhieni,

a'r ffaith bod yn rhaid i'r ferch lwyddo. I ryw raddau gall rhywun ddadlau fod tennis yn drosiad am bopeth sydd yn digwydd ym mywyd y ferch.

Wedi imi greu ychydig o nodweddion am y cymeriad, dechreuais feddwl am ffurf a strwythur y sgript. Penderfynais er mwyn cyfathrebu thema y ddrama, sef problemau merch yn dioddef o anorecsia, mai cyfrwng y ffilm deledu fyddai orau yn hytrach na chyfres deledu. Roeddwn yn teimlo wrth ddefnyddio cyfres deledu na fyddai'r neges mor glir a chryf, a byddai'r neges yn colli ei chryfder o wythnos i wythnos. Dyna pam mai ffilm oedd y cyfrwng y penderfynais ei ddefnyddio, a hynny oherwydd y byddai llif a phwrpas fy nrama yn well mewn un darllediad. Penderfynais felly y byddai golygfeydd tennis yn rhan o'r ôl-fflachiadau, a hynny yn rhai o'r ferch yn fach hyd nes yn ei hugeiniau, ambell atgof yn hapusach na'i gilydd. Ond roeddwn yn cael cryn drafferth i lenwi'r bylchau rhwng yr ôl-fflachiadau.

Yn drasig, collais ffrind agos mewn damwain car ddechrau 2012; roedd yn un ar hugain oed. Bu'n gyfnod anodd iawn imi; prin yr oeddwn yn meddwl am ddim arall. Ond wrth golli fy ffrind fe sbardunodd y digwyddiad erchyll rywbeth ynof i ysgrifennu, ac o'r dŵch penderfynais ymgorffori'r digwyddiad hwn yn fy sgript drwy ysgrifennu am fy ffrind. Drwy wneud hyn byddai fy atgofion amdani ar bapur am byth, a gallai eraill ddod i'w hadnabod a'i chofio. Ond nid yn unig hyn; fy mwriad oedd dangos i'r gynulleidfa'r holl emosiynau gwahanol, sut mae merch yn ymdopi gyda digwyddiad fel hyn mor ifanc, yr euogrwydd a'r cwestiynau am fywyd a marwolaeth y mae merch yn eu gofyn iddi hi ei hun. Dyma fyddai yn gwthio fy mhrif gymeriad yn ddyfnach i'r salwch. Ond dyma hefyd fyddai yn ei hachub yn y diwedd wrth iddi feddwl pa mor hunanol y mae hi a'i bywyd.

Er mwyn deall anorecsia'r prif gymeriad, euthum ati i ymchwilio i'r salwch. Yn y Deyrnas Unedig, ceir diffyg data o safbwynt cofnodi'r holl unigolion sydd yn dioddef o anhwylderau bwyta. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn darparu ystadegau parhaus am anhwylderau bwyta, ond nid yw'r rhain yn cynnwys cleifion mewn ysbytai preifat, cleifion allanol, na'r cleifion eraill sydd heb ddod i'w sylw. Y broblem felly yw nad yw'r ystadegau yn ddibynadwy, nac yn wirioneddol gywir. Yn ôl *Beat (Beating Eating Disorders)* dim ond gan y *National Institute of Health and Clinical Excellence* y ceir ffigyrau sy'n agos at roi darlun cyflawni inni:

These suggest that 1.6 million people in the UK are affected by an eating disorder, of which around 11% are male. (Fact and figures 2010) <http://www.b-eat.co.uk/about-beat/media-centre/facts-and-figures/> [Gwelwyd:19 Gorffennaf 2012]

Yn ôl *Beat*:

- 10% of sufferers are anorexic
 - 40% are bulimic, and
- the rest fall into the EDNOS category, including those with binge eating disorder. (Fact and figures 2010) <http://www.b-eat.co.uk/about-beat/media-centre/facts-and-figures/> [Gwelwyd:19 Gorffennaf 2012]

Wrth ymchwilio i'r salwch, darganfûm nad oes llawer o ddata o gwbl wedi ei gasglu mewn perthynas â Chymru. Yr unig ystadegau o bwys a ddarganfûm oedd rhai yn 2008 gan *Lywodraeth Cynulliad Cymru*, mewn dogfen *Eating Disorders – A Framework for Wales June 2009*:

Table 1: Estimated rates of clinically significant eating disorders					
Estimated rates of clinically significant eating disorders, all-Wales and individual Local Health Boards (LHBs).					
Local Health Board	Total new cases per year (incidence)	Estimated caseload within each tier (prevalence)			
		Tier 1:	Tier 2:	Tier 3:	Tier 4:
North Wales (Pop 745k)	234	712	162	101	17
Powys (Pop 132k)	46	117	27	17	3
Hywel Dda (Pop 375k)	130	426	97	61	10
Abertawe Bro Morgannwg (Pop 600k)	173	595	136	85	15
Cwm Taf (Pop 330k)	100	349	80	50	9
Cardiff (Pop 500k)	154	695	158	99	17
Gwent (Pop 550k)	194	637	145	91	16
Wales	1029	3532	805	502	86

Tabl 3: (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2009) [Gwelwyd: Gorffennaf 2012 - llyfryddiaeth]

Yr hyn a olygir wrth y term *Tier* yw'r gofal meddygol y mae'r cleifion yn ei dderbyn. Ystyr *Tier 1* felly yw'r gofal y mae'r cleifion yn ei gael gan staff proffesiynol nad ydynt wedi arbenigo ym maes anhwylderau bwyta. Yn *Tier 2*, mae'r staff wedi cael hyfforddiant perthnasol, i asesu a gweithio gyda chleifion sydd ag anhwylder bwyta. Yn *Tier 3*, maent yn cael gwasanaeth gan dîm o bobl sydd yn arbenigo mewn gweithio gyda phobl a chanddynt anhwylder bwyta. Yn *Tier 4*, mae'r cleifion mewn gofal preswyl, ac mae'r gofal yn arbenigol a dwys iawn.

Wrth ddadansoddi'r tabl, gwelwn fod llawer yn dioddef o'r salwch ar hyd a lled Cymru ac nad oes digon o ddarpariaeth ar eu cyfer. Nid oes canolfan arbenigol drwy Gymru gyfan lle gall dioddefwyr fynychu ac aros yno am gyfnod. Mae'n rhaid i ddioddefwyr anorecsia

groesi'r ffin i Loegr am ofal. Darllenais erthygl arbennig ar *Wales Online* am ferch o Sir Gaerfyrddin a oedd yn dioddef o anorecsia. Roedd yn rhaid iddi deithio i Loegr er mwyn derbyn ei thriniaeth gan nad oedd unman iddi yng Nghymru. Ond wrth iddi ddychwelyd yn ôl adref, daeth y salwch yn ei ôl gan nad oedd digon o gefnogaeth leol iddi. Ers ei bod yn dair ar ddeg mae hi wedi bod yn dioddef o'r salwch anorecsia; cafodd driniaeth mewn ward geriatrig ac uned seicolegol nad oedd yn llwyr ddeall y salwch. Cafodd ei thrin yn wael gan gleifion a staff mewn un ward seiciatryddol yng Nghymru lle'r oedd y staff yn rhoi tawelyddion iddi. Dywed Ffion:

People didn't know what the illness was and didn't take it seriously. It was seen as a diet fad, a phase, a teenage thing. (Wales Online 2012)

Darllenais hefyd am ferch o Donyrefail, Rhondda Cynon Taf. Bu'n dioddef o'r cyflwr am chwe blynedd cyn iddi gael help. Bu rhaid i'w mam ddefnyddio ei chynilion i gyd, sef deunaw mil o bunnoedd, i'w hanfon i Dde Affrica am driniaeth gan fod diffyg cymorth gan yr NHS yng Nghymru. Mynegodd Bethan Jenkins, Aelod Cynulliad De Orllewin Cymru sydd wedi ymddiddori'n fawr yn sefyllfa dioddefwyr anorecsia, fod hyn yn annerbyniol mewn erthygl yn 2009.(BBC NEWS 2009).

Pan lanswyd *Beat Cymru* ym mis Chwefror 2010 gan gronfa'r *Big Lottery Fund*, eglurodd Bethan Jenkins hanes a bwriad y corff newydd hwn:

As part of the launch process, the new charity carried out research with the company Beaufort to establish people's view on eating disorders in Wales. Very little research on perceptions of eating disorders in Wales exists, therefore this research is to be welcomed.(The f word blog 2010)

Gwasanaeth sydd yn helpu, yn gymorth ac yn cynnig gwybodaeth ar gyfer teulu a phobl sydd yn dioddef o'r salwch anorecsia yng Nghymru. Roedd casgliad yr ymchwiliad yn ysgytwol. Wedi holi mil o bobl ar draws y wlad, nid oedd un mewn pump o'r mil a holwyd yn credu fod anorecsia yn salwch meddwl. Dim ond traean o'r mil a gredai fod pobl sydd yn dioddef o'r salwch yn debycach o farw yn gynt na phobl sydd yn dioddef o fath arall o salwch. Credai'r rhan fwyaf mai bai'r dioddefwr ei hun oedd y salwch oherwydd y ffordd o fyw sydd ganddynt. Mae'r mudiad yn gobeithio cynnal gwersi mewn ysgolion ac yn y gymuned a fydd yn rhoi hyder i blant yn eu harddegau. Y gobaith mawr sydd ganddynt yw sicrhau canolfan arbenigol yma yng Nghymru a fydd yn rhoi cymorth i'r dioddefwyr heb iddynt orfod mynd i Loegr. Mae Beat Cymru wedi sicrhau grwpiau cymorth ar hyd y wlad, er bod bylchau amlwg mewn rhai ardaloedd. Dim ond tri grŵp sydd yn y gogledd a hynny ym Mangor, Treffynnon a Wrecsam; ceir grwpiau cymorth yn y Canolbarth, sef yn Aberhonddu a Llandrindod, a phum grŵp yn y De sef yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hynny'n gadael nifer o ardaloedd gorllewinol heb gymorth hwylus.

Rhodddwyd sylw mawr yn y cyfryngau i fywyd un ferch ym mis Mehefin 2012. Cyn- fyfyrwraig meddygaeth ydoedd yn dioddef yn ddifrifol o anorecsia. Roedd yn rhaid i'r achos fynd i'r llys er mwyn sicrhau dyfodol y ferch. Cyn hyn roedd gan feddygon hawl i orfodi'r claf i fwyta yn erbyn ei ewyllys, ond yn 1997 newidiodd y rheolau o dan y *Ddeddf Iechyd Meddwl*, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i unrhyw feddyg allu gorfodi unrhyw un a oedd yn dioddef i gymryd bwyd. Bu rhaid i'r barnwr yn y llys yn Llundain fynd yn erbyn ewyllys y ferch er mwyn lles ei hiechyd gan nad oedd hi'n fodlon bwyta unrhyw beth, ac ond yn yfed ychydig o ddŵr. (BBC NEWS WALES, 2012)

Roeddwn yn falch o weld fod hyn wedi cael sylw mawr yn y cyfryngau. Mae anorecsia yn bwnc trafod yn y cyfryngau o hyd, ond yng Nghymru nid oes llawer o sôn am y salwch.

Dywed Bethan Jenkins yn ei blog:

It's clear that an anti-stigma campaign is essential, especially given that more than three quarters agreed in the survey that "talking about eating disorders is often a taboo subject", and that many thought that an eating disorder was brought about by a diet gone wrong. (The f word blog 2010)

Dyma'r agwedd rwyf yn gobeithio ei newid gyda fy ffilm. Rwy'n gobeithio tynnu sylw at y salwch, lleisio barn pobl ifanc a cheisio uniaethu â hwy. Mae'n bwysig i bobl ifanc Cymru a'u rhieni fod yn ymwybodol o'r salwch.

Mae'r salwch wedi derbyn peth sylw mewn ffuglen Gymraeg dros y blynyddoedd. Yn y nofel *Sarah Arall* gan Aled Islwyn (1982), canolbwyntir ar fywyd merch o'r enw Sara Jacob. Roedd Sara Jacob yn ferch ifanc a oedd yn byw yn Llanfihangel, Sir Gaerfyrddin. Bu Sara Jacob yn byw ar ddim am fisoedd, dim bwyd o gwbl, dim ond dŵr. Cafodd sylw mawr yn lleol ac yn genedlaethol gan y cyfryngau oherwydd hyn; yn wir, ymwelai llawer â hi er mwyn ceisio deall sut yr oedd hi'n llwyddo i barhau i fyw. Wrth gwrs, yn y diwedd bu farw Sarah Jacob oherwydd iddi beidio â bwyta. Yn y nofel *Sarah Arall*, gwelwn debygrwydd rhwng merch o Gaerdydd heddiw a Sara Jacob. Mae'r ferch ifanc o Gaerdydd yn mynd i aros am yr haf i Lanfihangel, Sir Gaerfyrddin gyda'i mam oherwydd iddi fod yn dioddef o ryw salwch. Wrth dod i adnabod pobl y pentref, mae hi'n dod i wybod am fywyd Sara Jacob ac yn cymryd diddordeb mawr yn ei bywyd. Mae hi'n ceisio byw ei bywyd yn union fel yr oedd Sara Jacob yn ei fyw. Erbyn y diwedd fe'i gwelir yn peidio â bwyta er ei bod yn llwglyd; gwelwn sut mae

peidio â bwyta yn effeithio ar ei bywyd, yn effeithio ar ei meddwl ac ar ei gweithredoedd. Gwelwn sut mae rhywun yn gallu cymryd mantais o ferch ifanc mewn gwendid. Yr un yw stori'r Sarah arall yn y diwedd, sef marw yn sgîl y salwch. Mae'r nofel hon yn trafod sut mae rhywun yn cael ei ddylanwadu gan berson arall, ac yn efelychu person arall sydd yn dioddef o anorecsia. Dengys i ni pa mor ddylanwadol a chryf yw'r salwch hwn. Nid salwch sy'n perthyn i'r oes fodern yw anorecsia; bodolai yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ond nid oedd pobl yn sylweddoli mai salwch ydoedd – credai pawb mai rhyw wyrth oedd gallu aros yn fyw heb fwyta dim.

Prin, fodd bynnag, yw'r gydnabyddiaeth a roddir i'r salwch gan S4C o gymharu â sianeli Saesneg. Dyma ambell enghraifft o'r hyn sydd ar gael yn y Saesneg:

Rhaglenni dogfen

I'm a child anorexic (2007 – BBC 3)

Super skinny me: The Race to a Size Zero (2007 – BBC 3)

Supersize vs Superskinny (2008 ac yn dal I barhau – Channel 4)

Desperately Hungry Housewives (2009 – BBC 3)

My 22 Stone Dad and skinny me (2009 – BBC 3)

The Truth About Online Anorexia (2009/2010/2011 ar You Tube)

Kate Thornton – Anorexic: My Secret Past (2012 – channel 5)

Ffilm

The best little girl in the world (1981)

The Karen Carpenter Story (1989)

When friendship kills (1996)

Perfect Body (1997)

Sharing the Secret (2000)

Dying to Dance (2001)

Hunger Point (2003)

Dramâu Teledu

Hollyoaks Hannah and Melissa (Channel 4 2007)

Neighbours, Ringo (Channel 5 2008)

Cefais gryn drafferth i ddarganfod unrhyw beth yn y Gymraeg, ac eithro'r ffilm Gymraeg o'r enw *Lois* sydd yn dilyn bywyd merch ifanc a honno'n dioddef o'r salwch ac yn symud i'r brifysgol. Gweler hefyd sgysiau ar y rhaglen ffeithiol *Doctor Doctor* am y pwnc anorecsia. Yn ogystal cafwyd cymeriad yn *Pobol Y Cwm*, sef Kelly, yn dioddef o'r salwch bulimia yn ôl yn 2006.

Cefais fy syfrdanu i ddarganfod cyn lleied o raglenni a dramâu yn y Gymraeg sy'n sôn am y salwch hwn, yn arbennig o gofio ei bod yn broblem fawr iawn yng Nghymru. Oherwydd hyn, penderfynais ar y syniad o gynhyrchu ffilm am ferch a oedd wedi bod yn dioddef o'r salwch anorecsia. Nid yn unig y cyfryngau a'm sbardunodd i ysgrifennu am hyn, ond darganfûm hefyd fod hen ffrind imi yn dioddef o'r salwch. Nid yw hi'n cydnabod y ffaith ei bod hi'n dioddef o anorecsia. Dechreuais sylwi ar luniau ohoni ar ei thudalen gymdeithasol ar y we. Sylwais ei bod wedi colli llawer o bwysau ers y cyfnod pan oeddem yn yr ysgol, a hynny mewn amser byr iawn. Pan euthum adref i'r Gogledd am wyliau'r Nadolig yn 2011, sylwais o ddifrif ar effaith ei salwch. Pan welais hi wyneb yn wyneb, cefais sioc wrth weld ei maint: edrychai fel plentyn bychan. Ers hynny rwyf yn mynd yn gyson i edrych ar ei thudalen gwe; dechreuais sylwi ar bethau bach od yr oedd hi'n eu gwneud. Roedd hi o hyd yn rhoi lluniau o fwyd ar y we, er enghraifft bocsys mawr o siocled. Roedd hi wastad yn ysgrifennu rhywbeth ar ei wal a oedd yn ymwneud â bwyd, neu ag ymarfer corff oherwydd ei bod yn benderfynol o losgi'r calorïau ar ôl yfed gwydr o win, er enghraifft.

Wedi imi wneud fy ngwaith ymchwil am y mathau o raglenni sy'n ymdrin â'r salwch, a'r diffyg dramâu a rhaglenni dogfen yn y Gymraeg, roedd yn rhaid gwneud fy nghymeriad yn gredadwy. Roedd, felly, angen imi ymchwilio i'r ffordd y mae person sydd yn dioddef o

anorecsia yn byw, yn cuddio, yn gwneud ymarfer corff, y celwyddau a'r pethau bychain unigryw sydd yn newid ym mhersonoliaeth yr un sy'n dioddef:

Certainly it is not widely understood that anorexia and bulimia are not just to do with food use but are part of an emotional system that affects every aspect of the sufferer's life. (Buckroyd 1996, t. viiii)

Mae hi'n bwysig fod pobl yn dod i ddeall nad bwyd yw'r brif broblem, ond bod yma broblem seicolegol yn ogystal. Yn ôl Julia Buckroyd yn ei llyfr *Anorexia and Bulimia your questions answered*,

At this point, however, the overwhelming evidence seems to indicate that anorexia is, in the words of the doctors, a 'psychiatric disorder' and has no organic, metabolic or genetic cause. (Buckroyd 1996, t.4)

Yn *Eating disorders: Helping your child recover* a gynhyrchwyd gan yr EDA (yr Eating Disorders Association), dywedir fod profiad pob teulu neu berson sy'n dioddef o anhwylder bwyd yn unigryw. Yn groes i'r hyn a ddywed y meddygon yn y llyfr *Anorexia & Bulimia your questions answered*, dywed yr EDA fod anorecsia yn salwch genetig:

Research shows that for some people there is a genetic reason why they may be prone to developing an eating disorder. Specialists call this a genetic predisposition. This may affect only one family member or occasionally all family members. (Bloomfield 2006, t. 4)

Mae llawer o bethau sy'n arwyddion corfforol. Y nodweddion mwyaf cyffredin y sylwir arnynt wrth edrych ar rywun sydd yn dioddef o anorecsia yw:

- Colli gwallt
- Tyfiant o *lanugo* – sef fod gwallt mân tywyll yn ymddangos ac yn datblygu ar hyd y corff cyfan
- Curiad calon a thymheredd y corff yn isel
- Pwysau gwaed isel
- Teimlo'n oer
- Cylchrediad gwael
- Croen sych

- Ewinedd yn mynd yn frau
- Anhunedd
- Gor-wneud ymarfer corff er mwyn colli pwysau
- Obsesiwn gyda bwyd a chaloriau
- Diffyg canolbwyntio ar unrhyw beth heblaw am fwyd a chaloriau
- Diffyg hunan-barch
- Hunan-gasineb (Buckroyd 1996, tt. 4-5)

Rwyf eisoes wedi sôn am rôl y cyfryngau wrth drafod anorecsia, ond mae'r cyfryngau wedi cael eu cyhuddo droeon om gyfrannu at y problemau sy'n achosi anorecsia yn y lle cyntaf drwy glodfori merched tenau, anorecsig yr olwg. Mae'r *Royal College of Psychiatrists* wedi erfyn ar y cyfryngau a'r diwydiant ffasiwn i ddarlunio amrywiaeth o ferched o wahanol faint, nid y rhai tenau yn unig, ac i beidio â "gwella" a golygu lluniau mewn cylchgronau er mwyn gwneud i berson edrych yn deneuach. (BBC NEWS, 2010) Y farn gyffredin yw bod yn rhaid i ferched enwog fod yn ofalus i beidio â chlodfori bod yn denau gan fod merched ifanc yn eu dynwared.

Ond rwyf o'r farn mai rhan fechan o'r broblem yw hyn; mae rhesymau eraill hefyd. Defnyddio'r cyfryngau fel esgus yn aml y mae rhai pobl. Mae'r salwch yn galluogi merched a bechgyn ifanc sydd yn dioddef o anhwylder bwyd i anwybyddu poen a rheoli'r hyn sydd yn eu poeni, y pethau nad oeddent yn gallu ymdopi â hwy. Mae llawer o ffactorau a all gyfrannu at ddechrau'r salwch, megis marwolaeth a galar. Mae bwlio yn ffactor uchel ymysg plant yn eu harddegau – gall rhywun fod yn bwlio rhywun sydd yn dioddef o anorecsia drwy ei alw'n dew, neu ddweud rhywbeth am siâp, neu bryd a gwedd y person. Gall y dioddefwr fod wedi cael ei gam-drin yn emosiynol, yn gorfforol neu yn rhywiol ac felly ceisia gadw bwyd o dan reolaeth er mwyn ceisio ymdopi â'i deimladau. Gall pwysau rhieni i wneud yn dda yn academiaidd fod yn ormod i rai unigolion ifanc, hyd yn oed bwysau gan y dioddefwr ei hunan os yw'n berffeithydd. Weithiau ceir pwysau i deneuo gan eu rhieni, ffrindiau neu

feddyg, neu anawsterau mewn perthynas, yn enwedig yng nghyd-destun ffrindiau, a'r ymdrech i beidio â ffraeo. Mae elfennau anochel yn cael effaith hefyd fel llencyndod, newidiadau cymdeithasol megis symud o un ysgol i'r llall, neu o'r cartref i'r brifysgol ac ati. Gall rhai fod yn dioddef o'r salwch oherwydd y berthynas a oedd ganddynt gyda bwyd pan oeddynt yn blant bach. Mae pob dioddefwr yn credu bod rheoli bwyd, a'i wrthod, yn lleddfu ei boen a'i broblemau, ac yn gwneud iddo deimlo'n well. Dyma'r math o frawddegau y mae rhywun sy'n dioddef o'r salwch yn eu dweud:

Young people give us some insight in these comment about their eating disorder:

It makes me feel protected and in control.

I like myself better when I have less fat on my body.

I don't have to think about anything else when I'm hungry.

Bingeing blocks everything out for a while, but the I usually feel guilty.

I eat too much food in an attempt to make myself feel better. (Bloomfield 2006,t. 5)

Dyma beth sydd yn gwneud i'r dioddefwyr deimlo'n well, ond y gwirionedd yw, fel y dadleua Julia Buckroyd: "What Started as Control has gone out of control" (Buckroyd 1996, t. 8).

Mae defodau a threfn benodol yn cael eu creu, ac mae'n rhaid dilyn y rhain er mwyn rheoli.

Dyma enghreifftiau o rai o'r defodau a'r drefn sydd gan nifer o'r dioddefwyr:

- Bob tro yn defnyddio'r un plât i fwyta
- Torri bwyd yn ddarnau man
- Bod yn ystyfnig gydag amser bwyta bwyd
- Disgwyl pum munud rhwng bwyta llond ceg o fwyd
- Edrych yn fanwl ar gynnwys caloriau mewn pcedi bwyd
- Glanhau'r ystafell wely yn drylwyr bob diwrnod
- Ymolchi yn y gawod droeon mewn un diwrnod
- Golchi dwylo mewn dŵr berwedig drosodd a thro
- Casglu gwrthrychau di-bwrpas

- Dilyn trefn benodol wrth wneud pethau, ail-ddechrau wrth wneud unrhyw gamgymeriad
- Gwneud yn siwr eu bod wedi cloi y drws drosodd a thro, ac efallai gofyn i rywun arall os yw'r drws wedi ei gloi, fel fod popeth yn iawn. (Bloomfield 2006, t.46)

Mae dweud celwydd yn elfen gref iawn pan yw rhywun yn dioddef o anorecsia. Mae unrhyw fath o anhwylder bwyd yn dinistrio personoliaeth person a oedd gynt yn hapus, person a fyddai byth yn dweud celwydd wrth neb. Nid oes gwahaniaeth faint mae'r dioddefwyr yn caru eu teuluoedd a'u ffrindiau, y salwch sy'n dod gyntaf:

Parents who call the EDA helpline often talk of the excellent open relationship they have always had with their child, who would never lie to them. (Bloomfield 2006, t.48)

Goroesi anorecsia yw'r unig beth sydd yn cadw dioddefwyr i fynd, dyna pam mae cymaint o gelwydd. Mae rhai yn dweud celwydd am beth oedd gan y doctoriaid i'w ddweud, eraill yn dweud eu bod nhw wedi bwyta yn nhŷ ffrind wrth eu rhieni, celwydd am eu ffrindiau, teulu neu gariadon. Pan mae rhywun sy'n dioddef yn cael help, mae rhai yn twyllo'r doctoriaid proffesiynol drwy yfed llawer o ddŵr, rhoi cerrig trwm yn eu dillad, gwisgo dillad trymion a hyn i gyd er mwyn gwneud iddynt bwysu mwy. Wedi dweud hyn, daw'r celwyddau mwyaf i'r amlwg pan ddaw'r dioddefwyr wyneb yn wyneb â bwyd. Mae rhai yn:

- Torri bwyd yn fân fân, ac yn chwarae gyda'u bwyd sydd ar y plât, yn ei wthio i'r ymylon.
- Cuddio bwyd mewn pocedi neu lewys eu dillad.
- Lluchio bwyd i'r llawr fel bod anifeiliaid anwes yn ei fwyta.
- Ychwanegu eu bwyd eu hunain i blât eu chwiorydd neu eu brodyr.

Yn sgil y patrymau cyffredin hyn â berthyn i ddiodyddefwyr anorecsia penderfynais, fod angen i fy mhrif gymeriad rannu rhai o'r nodweddion. O'r dechrau, penderfynais mai tua diwedd y

ddrama y byddai gwir gyflwr y ferch yn cael ei ddatgelu i'r gynulleidfa. Roeddwn felly am geisio gwneud i'r gynulleidfa ddyfalu'r hyn a oedd yn bod ar y cymeriad. Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol penderfynais y byddai fy nghymeriad mewn canolfan arbennig, nid mewn ysbyty. Byddai cwestiynau yn cael eu gofyn, cwestiynau fel beth sydd yn bod ar y ferch? Pam nad yw hi'n siarad â neb a pham nad yw hi eisiau gweld ei theulu? Elfen gref, felly, oedd yr angen i sicrhau yn y cymeriad yr hyn a elwir yn llais mewdol sy'n bygwth a herio'r dioddefwr – 'The voice':

This voice is a common experience for eating disorder sufferers; it is always on the side of the eating disorder. This is an extreme extension of the negative state of mind. (Bloomfield 2006, t.6)

Ma'r llais yn cael ei gydnabod fel bwli yn enwedig wrth i rywun geisio helpu unigolyn sy'n dioddef. Mae'n llais negyddol yn yr ymennydd, yn llym, yn feirniadol, yn berswadiol ac mae yno o hyd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r dioddefwyr ddod yn rhydd o grafangau'r salwch; yn wir, y llais seicolegol hwn sydd yn atgyfnerthu'r salwch. Mae'r dioddefwr yn ofni'r llais:

Many sufferers are afraid to acknowledge or refer to this *voice* for fear that it may be confused with a feature of some other serious mental health problems or psychoses where people experience other personalities talking to them, forcing them to do inappropriate things. (Bloomfield 2006, t.7)

Rwyf eisoes wedi sôn am farwolaeth fy ffrind, a bod ei bywyd hi yn ffactor enfawr yn fy sgript. Dyma fydd yn dinistrio fy mhrif gymeriad sef marwolaeth ei ffrind hi, Sioned. Yn ychwanegol i'r llais a fydd yn ei rhwystro rhag bwyta, bydd ei chydwybod yn ei phigo, o ganlyniad i euogrwydd. Bydd y llais a'i chydwybod yn ymafael â'i gilydd wrth iddi geisio rheoli ei salwch. Bydd y llais yn ei gorchymyn i beidio â bwyta a bydd yn ei chadw dan reolaeth; bydd ei chydwybod hefyd yn ei gwneud hi'n ansefydlog wrth iddi deimlo'n euog

nad oedd hi yno i'w ffrind. Mae marwolaeth yn chwyrlio drwy ei hymennydd sydd yn gwneud iddi boeni – mae hyn yn eironig oherwydd mae anorecsia yn salwch a all ddiweddu mewn marwolaeth. Dyma yn y diwedd a fydd yn ei helpu i wella, y ffaith bod bywyd ei ffrind wedi cael ei gymryd mor hawdd, a bod ganddi hi'r dewis i wella a byw bywyd i'r eithaf.

Soniais ar y dechrau y bydd fy mhrif gymeriad yn chwaraewraig tennis gan fod unigolyn sydd yn dioddef o'r salwch anorecsia yn aml yn tueddu i wthio ei hunan wrth wneud ymarfer corff. Penderfynais ar dennis oherwydd fy mhrofiadau i fy hunan. Roeddwn yn arfer chwarae tennis o'r adeg pan oeddwn yn bump oed hyd nes oeddwn yn ddwy ar bymtheg, a hynny gyda'r "LTA girls". Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith sydd ei angen i chwarae tennis yn dda, yr ymroddiad, y pwysau a'r straen i berfformio a llwyddo. Dyma pam y dewisais y dull hwn o ymarfer corff ar gyfer y prif gymeriad. Bydd y golygfeydd tennis yn ôl-fflachiadau o wahanol adegau o fywyd y prif gymeriadau. Gwelir y berthynas a'i brawd a'i thad yn y golygfeydd hyn, y rhwystrau a'r gwylltio. Mae'r berthynas sydd rhyngddi hi, tennis a'i theulu yn un gymhleth. Mae wedi cael ei gwthio i wneud yn dda gan ei rhieni er pan oedd yn fach, yn enwedig gan ei thad, ac mae arni ofn bod yn fethiant a'u siomi. Ond wrth iddi aeddfedu mae'n well ganddi roi'r gorau i chwarae, yn enwedig ar ôl i'w brawd fynd i'r coleg, ond nid oes ganddi ddewis, dim ond parhau i chwarae yn gystadleuol. Wrth i'r salwch gydio ynddi, mae hi'n ei chael yn anodd i roi'r gorau i'r tennis, gan ei bod hi'n dechrau sylwi cymaint o galoriau mae hi'n eu llosgi wrth ymarfer bob dydd, drwy'r dydd. Dyna sydd yn bwysig i'w gofio am gêm fel tennis, gallwch fod yn ymarfer ar y cyrtiau drwy'r dydd, chwe gwaith yr wythnos. Gall gêm barhau am dair awr, bydd twrnament tennis bob gwyliau hanner tymor, Pasg, yr haf, Nadolig, ar y penwythnosau ac os nad oes twrnament ar y penwythnosau, byddwch yn ymarfer ac yn gwella eich sgiliau. Mae fy mhrif gymeriad yn rheoli unwaith eto, rheoli'r tennis, rheoli'r ymarfer corff, er iddi yn ieuengach gasáu'r ffaith bod tennis yn

cymryd cymaint o'i hamser. Erbyn y diwedd ni all roi'r gorau i'r gêm, ac yma mae hi'n beio ei rhieni am mai nhw a'i gwithiodd, fel ei brawd yn y lle cyntaf.

Er mwyn ceisio dirnad cyflwr fy mhrif gymeriad yn well bûm yn freintiedig i gael cymorth ar y cychwyn cyntaf gan fy meddyg personol gartref. Drwy fy meddyg llwyddais i feithrin cysylltiad â *Beat Cymru*. Galluogai hyn imi gwrdd â seicolegydd sydd yn gweithio i garfan gogledd Cymru o *Beat Cymru*. Trwy'r seicolegydd cefais y cyfle i gyfarfod â merch a oedd wedi bod yn dioddef o anorecsia am ddeuddeng mlynedd, ond a oedd bellach wedi ennill y frwydr yn erbyn y salwch, ers pedair blynedd. Roedd gan y ferch ddiddordeb mawr yn yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei wneud, yn cynhyrchu sgript am y salwch er mwyn amlygu'r salwch yng Nghymru ymysg pobl ifanc a'u rhieni.

Y prif bethau a ddysgais am y salwch o'r profiad hwn ym mis Ionawr 2012 oedd bod cymaint o gymhlethdodau yn gallu bodoli wrth ddioddef, ac yn parhau wedyn wedi i'r dioddefwr wella. Gall y misglwyf stopio yn gyfan gwbl neu fod yn afreolaidd, ceir anghydbwysedd cemegol yn y corff, esgyrn yn gwanhau (Osteoporosis), problemau gyda'r coluddion, anemia, iselder, problemau gyda'r gwallt a'r croen. Un o'r nodweddion a welir gan rywun sy'n dioddef yw eu bod nhw'n yfed llawer o goffi, *diet coke* ac yn ysmegu oherwydd bod y caffeine e.e yn cael gwared o flas ac awch i fwyta. Os oes unrhyw amheuaeth fod rhywun yn dioddef, y cam cyntaf yw mynd at y meddyg ac ateb pum cwestiwn ar holiadur *SCOFF – SICK, CONTROL, ONE STONE, FAT, FOOD –*

Do I have a problem?

The 'SCOFF' questionnaire used by doctors asks:

- do you make yourself **S**ick because you're uncomfortably full?
- do you worry that you've lost **C**ontrol over how much you eat?
- have you recently lost more than 6 kilograms (about **O**ne stone) in three months?
- do you believe you're **F**at when others say you're thin?
- would you say that **F**ood dominates your life?

If you answer "yes" to two or more of these questions, you may have an eating disorder. (Royal collage of Psychiatrists, 2014)

Mae'r claf yn cyfarfod gyda seiciratydd a nyrs bob wythnos, yn cyfarfod gyda dietegydd a seicolegydd bob pythefnos, mae gweithwyr cymdeithasol yn mynd ag ef/hi am fwyd a chyfarfod gyda'r meddyg bob wythnos. Roedd hi'n braf cwrdd â seicolegydd *Beat Cymru* oherwydd bu iddo drafod yr effaith y mae'r salwch yn ei gael ar unigolyn ac fe gysylltodd â merch a oedd yn dioddef o'r salwch yma er mwyn imi gael sgwrsio â hi.

Roeddwn mor ddiolchgar ac yn ffodus i gael cyfarfod gyda merch oedd wedi bod yn dioddef o anorecsia. Roedd siarad gyda rhywun a oedd wedi bod yn dioddef ei hun yn rhyfedd, ac yn ei wneud yn real iawn i mi. Roedd rhai o'r pethau a ddatgelodd imi yn fy ngwneud yn flin ac yn llawn tosturi. Roedd ei chlywed hi'n dweud ei bod hi wedi bod am flwyddyn yn gweld neb heblaw ei chariad, yn aros yn ei gwely a dim ond yn codi i fynd i'r toiled yn dangos imi sut y gall y salwch lwyr reoli bywyd y dioddefwr. Roedd hi'n dweud y byddai yn bwyta weithiau ond dim llawer, rhyw afal neu lymaid o ddŵr ac yn dweud celwydd wrth ei theulu am fwyd. Byddai'n mynd i'r oergell ac yn cymryd llwyaid o amryw o fwydydd, fel ei bod hi'n edrych fel petai hi wedi bwyta rhywbeth. Dechreuodd y salwch oherwydd iddi fynd ar ddiet. Nid oedd yn ferch fawr o gorffolaeth i ddechrau ond cafodd fywyd caled. Drwy golli pwysau, dechreuodd ei ffrindiau a phobl yn y brifysgol ddweud wrthi pa mor dda yr oedd hi'n edrych. Wrth iddi glywed hyn dechreuodd wneud iddi deimlo'n dda ynddi ei hun ond troes y peth

yn y diwedd i fod yn obsesiwn. Teimlai os byddai'n dechrau ail-fwyta, byddai'n magu pwysau, a chredai y byddai hyn yn arwain eto at anorecsia. Darganfu un o'i thiworiaid yn y brifysgol ei bod hi'n dioddef o'r salwch anorecsia, ac felly penderfynodd gael sgwrs â hi. Aeth y ferch i'r ysbyty am help, ond yn y diwedd dywedodd yr NHS na allent ei helpu ddim mwy. Nid oeddent yn gwybod beth i'w wneud gyda hi nesaf gan ei bod hi'n mynd yn waeth. Oherwydd hyn penderfynodd na allai neb ei helpu, a dywedodd wrth ei chariad ei bod hi eisiau marw; gofynnodd iddo adael iddi fynd gan na allai neb ei helpu. Penderfynodd ei chariad dalu'r costau er mwyn iddi gael mynd yn breifat i gael cymorth. Yn y clinig preifat newidiodd pethau; dywedodd un seicolegydd wrthi y gallai ei helpu, ac y byddai hi'n iawn. Roedd y frawddeg yna yn werth popeth i'r ferch ac o'r eiliad honno dechreuodd wella. Nawr mae hi ar ei ffordd i fod yn diwtor i *Beat Cymru*, i helpu ac i sicrhau gwellhad i bobl eraill sy'n dioddef o anorecsia drwy rannu ei phrofiadau ei hunan. Mae hi'n dweud fod y salwch wedi effeithio ar ei chorff, mae hi dal yn oer o hyd. Mae ei hesgyrn yn frau ofnadwy – llynedd fe dorrodd ei chefn wrth iddi ddisgyn. Dywedodd wrthyf fod ganddi ffrind a dorrodd ei phelfis wrth iddi eni babi. Mae hi'n amlwg o stori'r ferch fod y broses o wella yn un galed a phwysig iawn, er mwyn sicrhau bywyd gwell a hir i rywun sydd wedi bod yn dioddef o anorecsia.

O ganlyniad i'r sgwrs hon a gefais â'r ddiodefwraig penderfynais mai Canolfan Gymorth fyddai man canolog fy ffilm. Drwy gydol y ffilm mae fy mhrif gymeriad yn dilyn trefn llym y Ganolfan o ddydd i ddydd, o godi yn y bore hyd nes cysgu'r nos. Ar y dechrau mae hi'n gwrthwynebu'r drefn hon ac yn gwrthod cyfarfod â'i theulu a'i chariad hyd nes y diwedd, oherwydd mai nhw a'i gorfododd a'i thwylo i fynd yno er mwyn cael cymorth.

Darllenais bod tasgau a thargedau angen eu cwblhau cyn i'r claf gael mynd adref. Mae hyn yn cynnwys targed pwysau bob wythnos. Mae therapi yn elfen gref iawn yn y broses o wella a rhai therapiau yn fwy poblogaidd ac yn fwy addas na'i gilydd. Gan fod gan fy nghymeriad amryw o broblemau penderfynais ar nifer o wahanol fathau o therapi a fyddai o help iddi, er enghraifft siarad gyda doctor a seicolegydd er mwyn gallu rhannu ei theimladau â phawb. Mae therapi teulu yn bwysig iawn fel bod pawb yn dod i ddeall problemau'r teulu, ac oherwydd bod gan fy nghymeriad broblemau gyda'i theulu roedd yn bwysig imi gynnwys hyn yn fy ffilm. Gall rhai mathau o therapi ffocysgu ar yr unigolyn, eraill yn digwydd mewn grŵp. Dyma'r math o therapi a ddefnyddais yn fy ffilm:

- **Cognitive Behavioural Therapy (CBT)**
The aim is to help young people establish links between their feelings, thoughts or behaviours and their symptoms. Patients may explore different ways of coping with their symptoms and reducing stress. Thought, feeling or behaviours connected with the symptoms are often monitored.
- **Family Therapy**
This involves the family taking part in sessions with a healthcare professional. This therapy concentrates on the eating disorder, how it affects family relationships and how these relationships may have led to the development of the eating disorder. Sessions may focus on how the family can work together to support each other and work through difficult issues they are facing.
- **Motivational interviewing (MI)**
This is a form of cognitive – behavioural technique that aims to help sufferers to identify and change behaviours that may be preventing their recovery. (Bloomfield 2006, tt. 84-85)

Credaf yn bersonol fod y gwaith ymchwil hwn wedi fy helpu i ysgrifennu am salwch sydd yn digwydd gan amlaf ymysg yr ifanc. Pan ddechreuais feddwl am ysgrifennu am ferch a oedd yn dioddef o anorecsia, roeddwn yn credu fy mod yn gyfarwydd iawn â'r cyflwr, ond yn amlwg roeddwn yn anghywir. Mae'n salwch sydd yn cynnwys llawer o agweddau gwahanol. Rwyf wedi crybwyll sawl agwedd yma ac rwy'n gobeithio adlewyrchu rhai yn fy ffilm. Fel y nodwyd, nid oes llawer o waith ar y pwnc yn y Gymraeg ac rwy'n fodlon, wedi imi wneud fy

ngwaith ymchwil, y bydd fy ffilm am ferch anorecsig yn ffres ac yn unigryw i deledu Cymru. Rwyf wedi ceisio cysylltu ag elfennau newydd fel merch yn chwarae tennis a fydd hefyd yn codi cwestiynau, ac yn rhoi gwaith meddwl i'r gynulleidfa wrth iddynt wyllo'r ffilm. Rwy'n ceisio awgrymu popeth a chadw'r gwirionedd yn agos i ddiwedd y ffilm. Bydd pobl yn ei gwyllo yn credu mai iselder sydd yma oherwydd pwysau'r tennis a'r pwysau gan ei theulu. Y gwirionedd yw mai oherwydd perthynas â bachgen y dechreuodd salwch fy mhrif gymeriad; ychwanegwyd at hyn gan ffactorau eraill fel pwysau'r tennis, rhieni, colli pwysau a'r ffactor fwyaf sef colli ei ffrind. Rwy'n gobeithio y gall pobl ifanc uniaethu â theimladau'r ferch a'i hagwedd tuag at fywyd, ffrindiau, teulu a charwriaeth.

Elfen arall unigryw i'r ffilm yw'r dafodiaith. Penderfynais ysgrifennu fy ffilm yn y dafodiaith yr wyf i yn bersonol yn ei defnyddio, sef acen Caernarfon, neu'r 'Cofi'. Mae hon yn dafodiaith liwgar ac unigryw ac o'm profiad personol i mae'n denu llawer o ddiddordeb. Rwyf wedi rhoi rhai o'r geiriau cyffredin yr ydym yn eu defnyddio fel jaman, ishcri, ia, ac ambell i reg bob hyn a hyn. Rwyf hefyd yn egluro rhai o'r geiriau unigryw yma i'r gynulleidfa drwy gyfrwng cymeriad y Saesnes sef Katy, sydd yn ceisio dysgu'r Gymraeg, ac felly yn egluro ystyr y geiriau iddi. Rwyf yn ymwybodol y gall y dafodiaith beri problem i rai gwylwyr, ond bydd cymeriad y Saesnes yn gymorth i'r sawl nad yw'n gyfarwydd â'r eirfa. Mae llawer o eiriau wedi cael eu creu o'r newydd hefyd gan fy ffrindiau a minnau. Gallwch ddweud ein bod wedi bathu geiriau, er enghraifft mae'r gair 'gwychedrus' i'w glywed yn y sgript sydd yn golygu fod rhywbeth yn well na gwychedrus. Rhaid wrth gwrs oresgyn y broblem o sut i nodi'r iaith lafar ar bapur. Er enghraifft ar gyfer y ferf gyfansawdd 'roeddwn i'n [mynd]' yn yr iaith safonol, a ddylid ysgrifennu 'o'n-ni'n' yn hytrach nag 'o'n i'n', er mwyn adleisio'r 'o' fer yn yr

ynganiad. Ond rhaid oedd dewis un dull cyson ac yn y diwedd penderfynais ar gysoni'r berfau drwy ddilyn confensiynau orgraffyddol cyfarwydd.

Y cam olaf wedi ysgrifennu'r sgript fyddai cael cyfarfod gyda chyfarwyddwr i drafod camau nesaf y sgript. Bydd angen sicrhau'r cyfarwyddwr bod gan y sgript syniadau newydd a phynciau nad ydynt erioed wedi cael eu trafod ar deledu Cymraeg o'r blaen. Roeddwn am sicrhau y gallai pobl ifanc uniaethu gyda'r prif gymeriad ac y gallai'r prif gymeriad fod o help i rieni hefyd.

Roedd ysgrifennu sgript yn brofiad anhygoel a gwahanol i'r hyn yr oeddwn wedi ei ddisgwyl ar y dechrau. Roedd cael y cyfle i dderbyn cyngor gan fentoriaid a oedd wedi gweithio yn y maes hwn am flynyddoedd, ac yn arbenigo yn y dull hwn yn brofiad gwerthfawr. Dysgais dechnegau newydd o sut i fynd ati i ysgrifennu sgript, a'i bod yn broses hir nid cyflym e.e. nid creu'r stori ydi'r rhan gyntaf, y rhan gyntaf yw datblygu'r cymeriadau a'u personoli ac yna o hynny y daw'r stori, ac ar ôl hynny y daw'r sgript. Cefais gyngor gan y mentor i ysgrifennu pob golygfa, unrhyw beth yr hoffwn, heb geisio rhoi trefn arnynt. Ar y pryd roeddwn yn credu fod hyn yn wych, oherwydd roeddwn yn ysgrifennu unrhyw ddarn heb orfod poeni beth oedd yn dod nesaf. Ond yna daeth yn amser dod â'r sgript at ei gilydd; eisteddais ar lawr fy llofft gyda'r holl olygfeydd ar draws yr ystafell, o'r llawr i'r gwely, i'r ddesg, i ben y silffoedd, roedd pob man wedi ei orchuddio gyda thudalennau o'r sgript am ddau ddiwrnod cyfan. Roedd fy mhen wedi ei ddrysu yn llwyr ac roeddwn bron â rhoi'r gorau iddi. Doeddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau, roedd gennyf ormod o ddeunydd i'r hyn yr oedd ei angen arnaf ac mi gymerodd amser hir i ddewis a dethol cynnwys y sgript derfynol. Petawn i yn cael ailwneud hyn byddwn yn siŵr o osod cyfres o olygfeydd at ei

gilydd ac nid disgwyl nes bod popeth wedi ei ysgrifennu cyn rhoi trefn arnynt. Wrth imi ysgrifennu fy sgript rwyf wedi dysgu llawer am y salwch anorecsia. Rwyf wedi cael y cyfle i gyfarfod â rhywun yn bersonol sydd wedi dioddef o'r salwch. Drwy ddarllen a gweld rhywun sydd wedi bod yn dioddef o'r salwch hwn, rwyf wedi dod i ddeall llawer mwy am y salwch a dysgu ambell beth na wyddwn a oedd yn bodoli ynglŷn â'r salwch. Rwy'n ferch benderfynol a chyn gynted ag y mae rhywbeth yn taro fy sylw rwy'n ymchwilio'r pwnc yn syth, a dyna ddigwyddodd gyda'r salwch anorecsia. Roeddwn yn gweld y salwch yn ddiddorol ac yn synnu bod yna gymaint o bobl yn dioddef ohono, gan gynnwys ffrindiau personol imi. Ond wrth imi greu'r sgript sylweddolais ei fod yn bwnc hynod ddwys, ac ar adegau roedd hyn yn fy ngwenud i'n isel. Roedd y profiad o golli fy ffrind pan oeddwn yn meddwl am y cymeriadau a'r stori yn ddylanwadol iawn; mae hyn yn amlwg drwy'r sgript. Drwy'r ffilm a'r sgript gobeithiaf y daw'r ffeithiau yn glir i'r gwylwyr mewn modd cynnil, ac y byddant yn dod i ddeall y salwch, yn dod yn ymwybodol ohono gan fod llawer o ferched a bechgyn yn hen ac yn ifanc, yn dioddef o'r anhwylder hwn. Gobeithiaf, felly, y bydd y ddrama yma o gymorth i eraill os oes amheuan yn eu bywyd, neu i riant os oes arwyddion anorecsia neu iselder o fewn eu teulu, ac yn dangos i riant, ffrindiau a'r dioddefwr ei hunan fod amryw o resymau sut a pham y gall rhywun fod yn dioddef o'r salwch anorecsia.

1.4 Llyfryddiaeth

Dramâu

Coronation Street, 2011, rhaglen deledu, Granada Television, Manchester.

Eeastenders, 2011, rhaglen deledu, BBC, Llundain.

Gwaith Cartref, 2011, rhaglen deledu, Fiction Factory, Caerdydd.

The Sopranos: The Sopranos 1997, rhaglen deledu, Home Box Office, USA.

Zanzibar, 2011, Rhaglen deledu, Rondo Media, Gwynedd.

Erthyglau

Lewis, J. a Thomas, J. 2006. 'Coming out of a mid-life crisis'? : The past, present and future audiences for Welsh Language Broadcasting. *Cyfrwng*. 3, tt. 7 – 40.

Thomas, B. 2010. S4C yn colli dros 100,000. *Golwg* 8 Gorffennaf, t. 4

Erthyglau (gwefannau)

Davies, J 2011. *Gwaith/Cartref – cyfres newydd ar S4C [Ar-lein]*. BBC Cymru/Wales. Ar gael:<http://www.bbc.co.uk/cymru/cylchgrawn/ffilm/cymru/gwaith-cartref.shtml> [Gwelwyd: 14 Mehefin 2012]

BBC NEWS 2009. *Eating disorders treatment plea*. [Ar-lein] Cardiff: BBC NEWS. Ar gael: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/7940676.stm> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

BBC NEWS 2010. *Media is fuelling eating disorders, say, psychiatrists*. [Ar-lein] London: BBC NEWS. Ar gael: <http://news.bbc.co.uk/1/hi/8528443.stm> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

BBC NEWS WALES 2012. *Anorexic woman from Wales to be force fed, judge orders*. [Ar-lein] Cardiff: BBC NEWS WALES. Ar gael: <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-18464254> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

Beat 2010. *Case Studies*. [Ar-lein] Beat. Ar gael: <http://www.b-eat.co.uk/about-beat/media-centre/case-studies/> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

Beat 2010. *Fact and figures*. [Ar-lein] Beat. Ar gael: <http://www.b-eat.co.uk/about-beat/media-centre/facts-and-figures/> [Gwelwyd:19 Gorffennaf 2012]

Beat Cymru 2010. *Beat Cymru self help groups*. [Ar-lein] Beat Cymru. Ar gael: <http://www.beat.co.uk/beat-cymru/beat-cymrubeat-cymru-self-help-groups/> [Gwelwyd:19 Gorffennaf 2012]

Golwg 360 2012. *S4C: mwy yn gwyllo* [Ar-lein] Llanbedr Pont Steffan: Golwg 360. Ar gael:<http://www.golwg360.com/newyddion/cymru/78818-s4c-mwy-yn-gwyllo> [Gwelwyd: 3 Awst 2012]

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009. *Eating Disorders – A Framework for Wales*. [Ar-lein]Caerdydd:LlywodraethCynulliadCymru.ArGael:<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/eatingdisorders/?lang=en> [Gwelwyd: Gorffennaf 2012]

Royal collage of Psychiatrists, 2014. *Anorexia and Bulimia*. [Ar-Lein] London: RC PSYCH.Ar gael:<http://www.rcpsych.ac.uk/healthadvice/problemsdisorders/anorexiaandbulimia.aspx> [Gwelwyd: 17 Chwefror 2014]

S4C 2011. *Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol* [Ar-Lein] Caerdydd: S4C. Ar gael:<http://www.s4c.co.uk/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2011.pdf> [Gwelwyd: 3 Awst 2012]

Sandhu, S 2009. *Slumdog Millionaire, review* [Ar-Lein]. London: The Telegraph. Ar gael:<http://www.telegraph.co.uk/culture/film/filmreviews/4176184/Slumdog-Millionaire-review.html> [Gwelwyd: 12 Mehefin 2012]

The Guardian 2012. *Anorexic woman should be fed against he wishes, judge rules*. [Ar-lein]London:TheGuardian.ArGael:<http://www.guardian.co.uk/society/2012/jun/15/anorexic-woman-fed-judge> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

The F word blog 2010: *Guest post: Eating disorders are not a lifestyle choice* [Ar-lein] <http://www.thefword.org.uk/contact/index> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

Thompson, K. 2003. *Storytelling in Film and Television*. Harvard: University Press.

Wales Online 2012. *Lack of specialist care for eating disorder patients in Wales* [Ar-lein]. Media Wales LTD. Ar gael: <http://www.walesonline.co.uk/showbiz-and-lifestyle/real-life/2012/02/19/lack-of-specialist-care-for-eating-disorder-patients-in-wales-91466-30358025/> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

Wales Online 2012. *New focus on eating disorders in NHS Wales*. [Ar-lein] Media WalesLTD.Ar gael:<http://www.walesonline.co.uk/news/health-news/2012/04/30/new-focus-on-eating-disorders-in-nhs-wales-91466-30865598/> [Gwelwyd: 19 Gorffennaf 2012]

Ffilm

Slumdog Millionaire, 2008, Motion Picture. Fox Searchlight Pictures, USA.

Llyfrau

Barlow, D. a Mitchell, P. a O'Malley, T. 2005. *The Media in Wales Voices of a Small Nation*. Cardiff: University of Wales Press.

Batty, C. a Waldeback, Z. 2008. *Writing for the screen*. Hampshire: Palgrave Macmillan.

Bloomfield, S. gol. 2006. *Eating Disorders: Helping Your Child Recover*. Norwich: Eating Disorders Association.

Buckroyd, J. 1996. *Anorexia & Bulimia*. Dorset: Element.

Claude-Pierre, P. 1997. *The Secret Language of Eating Disorders*. New York: Vintage Books.

Hauge, M. 1989. *Writing Screenplays that sell*. London: Elm Tree Books.

Kelsey, G. 1995. *Writing for Television*. London: A&C Black.

McKee, R. 1999. *STORY – substance, structure, style, and the principles of screenwriting*. Kent: Meuthuen.

Medhurst, J. 2010. *A history of Independent Television in Wales*. Cardiff: University of Wales Press.

Palmer, R. 1980. *Anorexia Nervosa*. Suffolk: Penguin Books.

Shelley, R. gol. 1997. *Anorexics on Anorexia*. London and Brisol: Jessica Kingsley Publishers.

Rhan 2

Sgript wreiddiol

(Gêm, set...)

Prif gymeriadau

Mali – Prif gymeriad, sydd yn wynebu llawer o broblemau yn ei bywyd.

Mam – Mam Mali, mae hi'n athrawes. Mae hi a Mali yn ffrindiau mawr ond yn ffraeo drwy'r adeg, gyda Mali yn trin ei mam yn wael, a'i mam yn cega ar Mali byth a beunydd.

Tad – Tad Mali, dyn tawel, sydd yn hoff iawn o'i waith. Ef sydd yn gwthio Mali i chwarae tennis, mae Mali yn ei ofni.

Osian – Brawd mawr Mali, mae pedair blynedd yn hŷn na Mali. Mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio yn y cyfryngau. Roedd yntau yn arfer chwarae tennis.

Catrin – Chwaer fach Mali, mae hi yn ddeuddeg mlynedd yn iau na Mali. Mae perthynas agos rhwng y ddwy, ond mae'n pellhau pan â Mali yn sâl.

Sioned – Ffrind Mali; perthynas agos iawn, ond yn pellhau pan mae Mali yn mynd i'r brifysgol.

Carwyn – Cyn-gariad Mali, mae ef yr un oed â Mali. Nid oes perthynas dda iawn rhwng y ddau. Mae'r ffaith fod Carwyn yn gorffen gyda Mali yn ei heffeithio yn ofnadwy.

Huw – Cariad presennol Mali, mae flwyddyn yn hŷn na Mali. Mae perthynas agos iawn rhyngddynt. Bu iddynt gwrdd yn y brifysgol.

GOLYGFA 1.

EXT. Glan y môr. Amser: 11 o'r gloch y bore.

MALI – OEDRAN 5, TAID.

**SIOT LYDAN O MALI YN FERCH FACH. MAE HI'N GAFAEL YN LLAW EI THAID WRTH IDDYN
NHW FYND AM DRO. MAE'R FERCH FACH YN GWISGO CÔT DDYFFL GOCH, A
WELLINGTONS GLAS TYWYLL. GWELWN FOD Y DDAU YN CERDDED TUAG AT GLOGWYN.
MAE'R DDAU YN STOPIO, AC YN EDRYCH AR Y TRAETH SYDD ODDI TANYNT. MAE MALI YN
FERCH FACH, YN GWENU'N DDEL AR EI THAID, AC YNA YN EDRYCH AR YR OLYGFA O LAN Y
MÔR.**

POV MALI SEF YR OLYGFA HARDD O'R MÔR A'R TRAETH.

YMDODDI:

EXT. Glan y môr. Amser: 11 o'r gloch y bore.

MALI – OEDRAN 22, HUW – OEDRAN 23.

**WRTH I'R OLYGFA DREMIO'N ÔL I'R CLOGWYN, MAE MALI WEDI NEWID O FOD YN FERCH
FACH, I FERCH IFANC SYDD YN 22AIN OED. MAE MALI YN GWISGO CÔT GOCH A
WELLINGTONS GLAS TYWYLL, YN EDRYCH ALLAN TUA'R MÔR. MAE MALI YN GAFAEL YN
LLAW BACHGEN IFANC GOLYGUS, SEF EI CHARIAD, HUW. SIOT AGOS O MALI YN EDRYCH
AC YN GWENU AR HUW.**

GOLYGFA 2.

DILYNIANNAU/DELWEDDAU.

INT. Twll dan grisiau.

MALI – OEDRAN 6, OSIAN – OEDRAN 10.

MAE DRWS Y TWLL DAN GRISIAU YN AGORED. YNO MAE MALI YN EISTEDD YN Y TWLL DAN GRISIAU AC YN EDRYCH I FYNY. GWELWN LAW YN CAU'R DRWS YN DYNN, AC YN RHOI'R GORIAD YN Y TWLL CLO, AC YN EI GLOI. GWELWN BERSBECTIF MALI, SEF TYWYLLWCH LLWYR, DÜWCH.

YMDODDI: EXT. Car yn teithio ar hyd y lôn.

MALI - OEDRAN 19.

MAE MALI YN EISTEDD YN SEDD Y GYRRWR. GWELWN MALI YN TORRI CADWYN SYDD GANDDI O AMGYLCH EI GWDDF. MAE MALI YN LLUCHIO'R GADWYN ALLAN DRWY FFENESTR Y CAR. GWELWN Y GADWYN YN GORWEDD AR Y LLAWR, A CHAR MALI YN GYRRU I FFWRDD

YMDODDI: EXT. Cwrt Tennis.

MALI- OEDRAN 22.

MAE MALI YN SEFYLL YNG NGHANOL Y CWRT TENNIS. MAE HI'N GWISGO DILLAD TENNIS SEF CRYSTI GWYN, SGERT WEN, SANAU GWYN AC ESGIDIAU TENNIS GWYN. MAE GANDDI RACED DENNIS YN EI LLAW.

**MAE'R TYWYDD YN TROI YN SYDYN O FOD YN BRAF I FOD YN DYWYLL A CHYMYLAU
DUON WEDI LLEDAENU DRWY'R AWYR.**

**SIOT O'R AWYR YN TREMIO TUA'R LLAWR AT MALI, SYDD YN SEFYLL YNO MEWN GWISG
DENNIS DDU. MAE HI'N SEFYLL WRTH YMYL TWLL ANFERTH DU.**

MAE HI'N SGRECHIAN AC YN DECHRAU SYRTHIO.

GOLYGFA 3.

EXT. Cwrt tennis, yn yr awyr agored. Amser – Gwyliau'r Haf, 2 o'r gloch brynhawn lau.

MALI – OEDRAN 17.

MAE MALI YN SEFYLL GER LEIN GEFN Y CWRT TENNIS, YN BAROD I SERFIO. MAE MALI YN SYCHU CHWYS ODDI AR EI THALCEN.

POV MALI, Y BÊL YN BOWNSIO PUM GWAITH O'I BLAEN. MAE'N EI THAFLU I'R AWYR. YR HAUL YN DISGLEIRIO WRTH IDDI EDRYCH I FYNY, AC YNA MAE HI'N TARO'R BÊL.

GOLYGFA 4.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo anorecsia. Amser – Dydd Llun 12 o’r gloch y prynhawn.

MALI – OEDRAN 22,

NYRS.

MAE MALI YN SEFYLL GER Y FFENESTR, YN SYLLU AR YR OLYGFA. POV MALI, AWYR LAS, ADAR YN GWIBIO HEIBIO, YN EDRYCH I LAWYR TUA’R AFON SY’N LLIFO DRWY’R COED. YNA YN EDRYCH TUAG AT YR ADAR, SYDD YN BWYTA CRYSTIAU GER YR AFON. MAE HI’N EDRYCH O AMGYLCH Y LLE NES STOPIO A SYLWI AR NYRS YN RHEDEG AR DRAWS YR ARDD. MAE MALI YN SYMUD O’R FFENESTR, GWELWN ADLEWYRCHIAD OHONI HI EI HUN YN Y DRYCH SYDD AR Y WAL.

GOLYGFA 5.

INT. Twrnamaint Tennis. Amser – Gwyliau’r Pasg, 1 o’r gloch brynhawn Mercher.

MALI – OEDRAN 13, MAM, TAD.

GWELWN GEFN MALI YN CERDDED TUAG AT Y CWRT. MAE BAG TENNIS DWBL ANFERTH AR EI CHEFN. SIOT AGOS O WYNEB MALI YN TROI’N ÔL I EDRYCH AR EI RHIENI. MAE’R FAM YN CODI DAU FAWD AR MALI.

MAM

Go on Mali!

SIOT AGOS O WYNEB MALI YN TROI I EDRYCH AR EI THAD. MAE EI THAD WEDI PLETHU EI FREICHIAU, MAE’N RHOI NÒD AT MALI. SIOT AGOS O WYNEB MALI YN RHOI NÒD YN ÔL IDDO, AC YNA YN TROI’N EI HÔL. MAE MALI A’I GWRTHWYNEBWRAIG YN CERDDED TUAG AT Y CWRT.

GOLYGFA 6.

INT. Ystafell Mali yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22.

**MAE MALI YN EISTEDD AR Y GWELY, MAE GANDDI LUN YN EI LLAW. GWELWN MAI LLUN
O'R TEULU CYFAN SYDD GANDDI.**

**SIOT AGOS O MALI YN RHWYGO LLUN O WYNEB EI CHWAER FACH, AC YN EI OLLWNG AR Y
LLAWR, YNA WYNEB EI BRAWD AC YNA EI THAD. SYDD YN GADAEI WYNEB MALI A'R FAM
AR ÔL.**

GOLYGFA 7. (BARBIES)

INT. Ystafell fyw tŷ Mali. Prynawn Sadwrn ar ôl bod yn chwarae tennis

MAM, MALI – OEDRAN 8.

GWELWN YR YSTAFELL FYW. MAE'R CADEIRIAU ESMWYTH WEDI CAEL EU GWTHIO'N ÔL AT Y WAL. MAE BOCSYS AR FOCYSYS YN LLAWN PETHAU BARBIE E.E. DOLIAU, CEIR, DILLAD A.Y.B. AR Y LLAWR.

MAE MALI YN CERDDED I'R YSTAFELL, MAE'R FAM YN EI DILYN. MAE BOCS YN LLAWN BARBIES YN NWWLO'R FAM. MAE GAN MALI GAR BARBIE YN EI BREICHIAU. GWELWN WYNEB MALI, MAE HI WEDI GWIRIONI. MAE HI'N WÊN O GLUST I GLUST, YN LLAWN CYNNWRF.

MALI

Mae hyn yn mynd i fod mor dda.

MAM

Mi fydd raid i ni frysio cofia. Neu mi fydd hi 'di nosi arnom ni, cyn inni osod y pentra' 'ma.

MALI

Allwch chi fynd i nôl y tŷ plis?

MAE'R FAM YN GWENU, AC YN RHOI NÒD CYN GADAEI.

MAE MALI YN DECHRAU PORI DRWY'R HOLL BETHAU. DECHREUA ROI PETHAU MEWN TREFN. MAE HI'N DECHRAU GOSOD Y LLE SGÏO AT EI GILYDD, SEF BWRDD, BAR A SGÏAU. MAE HI'N MYND YN ÔL AT Y BOCSYS AC YN CHWILIO AM BETHAU YNDDYNT. YNA, MAE

HI'N DECHRAU TYNNU POPETH O'R BOCSYS. MAE HI'N EISTEDD YN EU CANOL, YN EDRYCH
YN DDYSLYD AC YN DDIGALON. DAW'R FAM YN ÔL I'R YSTAFELL. MAE HI'N CARIO TŶ
ANFERTH PLASTIG PINC, SYDD Â DAU LAWR, LIFFT A BALCONI.

MAM

Reit 'ta Mali Ellis ... Lle wyt ti isio hwn?

MAE MALI YN LLUCHIO UN O'R BARBIES YN FLIN I GANOL Y TWMPATH SYDD AR Y LLAWR.

MALI

Dwi'm yn gwbod!

MAE'R FAM YN GOSOD Y TŶ AR Y LLAWR, AC YN MYND I EISTEDD AR Y LLAWR GYFERBYN
Â MALI.

MAM

Hei ... hei be' sy'? O'n i'n meddwl bo' chdi'n edrych 'mlaen?

MALI

Ma' 'na ormod o ddolia. Fedrai i'm rhoi nhw i gyd mewn trefn cyn iddi nosi. Ma'r dillad yn
bob man, di'r dillad iawn 'im ar y dolia iawn. Chai'm amser i chwarae efo nhw felly, na chaf.
Fyddai i'n gorfod eu cadw nhw i gyd. 'Sa'm point.

MAM

Wel dyma pam dwi yma `de, i dy helpu di. Cyfrinach rhwng chdi a fi wan, iawn? **(SIBRWD)** Be
am ... inni gloi'r 'stafell biws heno ... Fydd yn golygu ... na allith neb ddod i mewn, ac ymyrryd
efo dy bentra' 'di, sy'n golygu ... y cei 'di chwarae yn iawn efo nhw, drw' dydd fory?

SIOT AGOS O WÊN YN DOD AR DRAWS WYNEB MALI.

MAM

Be ti'n feddwl o hynna?

MAE MALI YN RHOI COFLAID I'W MAM

MALI

lawn ta, be' gynta'?

MAM

Be' am ... inni ... roi'r siop gwallt yn ... fan hyn?

MAE'R FAM YN GOSOD Y SIOP GWALLT AR Y LLAWR.

MALI

Ia ... A wedyn gawn ni roi'r caffi, gyferbyn â fo ...

YMDODDI O'R DDWY YN GOSOD Y PENTREF, YN GWENU AC YN CHWERTHIN GYDA'I GILYDD.

GOLYGFA 8.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo. Amser - Dydd Llun 1:30 y prynhawn.

MALI – OEDRAN 22.

MAE MALI YN EISTEDD AR EI GWELY, YN DAL I EDRYCH AR Y LLUN OEDD YNG NGOLYGFA 6.

MAE HI'N EDRYCH YN UNIG IAWN. SIOT AGOS O MALI YN RHWYGO WYNEB Y FAM O'R

LLUN, AC YN EI LUCHIO I'R LLAWR. MAE MALI YN PARHAU I EISTEDD AR Y GWELY YN

EDRYCH YN UNIG. MAE HI'N ESTYN DARN O BAPUR, SYDD WEDI EI OSOD AR Y GWELY.

SIOT AGOS OHONI YN RHYTHU AR Y DARN PAPUR, GWELWN RYW FATH O AMSERLEN O'I

BLAEN. GWELWN LYGAID MALI, LLYGAID OERAIDD YN RHYTHU. MAE'N LLUCHIO'R PAPUR

AR Y LLAWR. SIOT AGOS O'R PAPUR YN DISGYN I'R LLAWR.

GWELWN MALI YN CODI ODDI AR Y GWELY, AC YN SEFYLL GER Y FFENESTR, YN SYLLU

ALLAN UNWAITH ETO HEB DDIM EMOSIWN AR EI HWYNEB.

POV MALI - YR ADAR BACH UNWAITH ETO, YN BWYTA EU CRYSTIAU.

GOLYGFA 9.

INT. Ystafell wely Mali yn ei chartref.

MALI - OEDRAN 21.

**GWELWN MALI YN LLUCHIO PETHAU YN WYLLT AR DRAWS EI HYSTAFELL. MAE HI'N
RHWYGO LLUNIAU SYDD GANDDI AR Y WAL. YNA MAE HI'N SYRTHIO YN ARAF I'R LLAWR,
GER EI GWELY. MAE HI'N BEICHIO CRIO AC YN GAFael YN DYNN MEWN UN LLUN
PENODOL.**

GOLYGFA 10.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo. Amser – Dydd Llun 3:30 y prynhawn.

MALI – OEDRAN 22, NYRS.

GWELWN GEFN MALI, MAE HI’N DAL I SYLLU ALLAN DRWY’R FFENEST.

**SIOT LYDAN YN WYNEBU MALI, MAE HI’N FLIN. GWELWN WELY, DESG A BWRDD WRTH
OCHR Y GWELY YN Y CEFNDIR. DAW NYRS I SEFYLL YN Y DRWS SYDD AR AGOR. MAE HI’N
CNOCIO YN YSGAFN AR Y DRWS.**

Nyrs

Mali?

GWELWN WYNEB MALI, DYDY HI DDIM YN ATEB Y NYRS.

NYRS

Ti 'di cael digon o amser i ddadbacio?

GWELIR BAGIAU MALI YN Y GORNEL.

**NID YW MALI YN ATEB Y NYRS ETO. MAE’R NYRS YN CERDDED I’R YSTAFELL. MAE HI’N
SYLWI AR YR AMSERLEN SYDD AR Y LLAWR, AC YN EI GODI. MAE MALI YN TROI AC YN
EDRYCH AR Y NYRS. GWELWN MALI YN DECHRAU CERDDED YN ARAF TUAG AT Y NYRS.
MAE HI’N CIPIO'R AMSERLEN O DDWYLO'R NYRS. SIOT AGOS O DDWYLO MALI YN
RHWYGO’R AMSERLEN YN WYNEB Y NYRS.**

YN SYDYN MAE MALI YN DECHRAU SGRECHIAN YN WYLLT. GWELWN MALI YN EI CHOLLI HI'N LLWYR. MAE MALI YN DECHRAU LLUCHIO PETHAU I BOB MAN, LLUCHIO'R CWILT, EI DILLAD, LAMP UNRHYW BETH. SIOT AGOS O DDWYLO'R NYRS YN GWTHIO'R BOTWM COCH SYDD AR Y WAL. MAE'R YSTAFELL YN FLÊR, GWELWN AMRYW O BOBL A NYRSYS YN RHEDEG I'R YSTAFELL, ER MWYN RHWYSTRO MALI RHAG GWNEUD UNRHYW DDIFROD.

GOLYGFA 11.

DELWEDDAU

INT. Car Sioned.

MALI – OEDRAN 18, SIONED – OEDRAN 18.

**MAE MALI A SIONED YNG NGHAR SIONED. SIONED SYDD YN GYRRU A MALI YN EISTEDD
YN Y SEDD WRTH EI HYMYL.**

MAEN NHW’N CANU, CHWERTHIN A DAWNSIO, YN GWENU WRTH EDRYCH AR EI GILYDD.

MAE CÂN ‘BLACK AND GOLD’ – SAM SPAROO YMLAEN YN UCHEL.

YMDODDI: INT. Noswyl Galan Newydd.

MALI – OEDRAN 21, HUW A FFRINDIAU MALI - OEDRAN 21/28

**MAE PAWB YN CYFRI’R EILIADAU OLAF YN Y DAFARN. MAE MALI YN HAPUS YNG
NGHANOL EI FFRINDIAU.**

YMDODDI: INT. Car.

OSIAN - OEDRAN 25.

SIOT O OSIAN, BRAWD MALI, YN GYRRU AM ADREF YN Y TYWYLLWCH.

GOLYGFA 12.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo. Amser – Nos Lun 10 o’r gloch yr hwyr.

MALI – OEDRAN 22.

**MAE MALI YN GORWEDD YN EI GWELY AC YN GAFAEL MEWN HEN DEDI MINNIE MOUSE.
GWELWN WYNEB MALI. MAE EI LLYGAID YN WAG HEB DDIM EMOSIWN, YN SYLLU I’R
GWAGLE. MAE DEIGRYN YN LLIFO I LAWR EI GRUDD.**

MALI

(DISTAW, CRYNEDIG A RHYFEDD) ‘Sa neb yn nabod fi ... ‘sgynon nhw’ m hawl ...
nagoes ... ‘sgynon nhw’ m hawl gneud dim byd ... **(GAFAEL YN DYNNACH YN MINNIE MOUSE)**
Dwi’n iawn ... does ‘na’ m byd yn bod arna’ i ... dwi’ m yn sâl ... dwi’ m ‘di lladd neb ... Dwi’n
iawn ... Pam bo’ nhw ‘di gneud hyn ... dwi’n iawn.

GWELWN MALI YN GORWEDD YN UNIG AR EI GWELY.

GOLYGFA 13.

INT. Ystafell fyw. Amser – 3 o’r gloch y prynhawn, gwyliau hanner tymor.

MALI – OEDRAN 6, OSIAN – OEDRAN 10, MAM.

MAE OSIAN A MALI YN EISTEDD AR Y CADEIRIAU ESMWYTH, YN GWYLIO’R TELEDU.

MAE’R FAM YN YMDDANGOS YN Y DRWS AC YN GWYLIO’R DDAU, MAE HI’N GWENU

WRTH WYLIO’R DDAU.

MAM

Dwi’n mynd i roi dŵr i’r bloda’ iawn? Rhag ofn ichi banicio bo’ fi ’di’ch gadel chi.

MALI AC OSIAN

lawn!

MAM

A dim cyffwrdd mewn dim byd chi’ch dau, dim cicio pêl. Mi ’dach chi’n gwbod be’

ddigwyddodd tro dwythfa’.

MAE’R FAM YN MYND.

MALI AC OSIAN

lawn.

MAE OSIAN YN EDRYCH I GYFEIRIAD Y DRWS. MAE'N SYLWI BOD EI FAM WEDI MYND. YNA, MAE OSIAN YN NEWID Y RHAGLEN SYDD AR Y TELEDU. MAE MALI YN SYLWI AC YN DECHRAU SWNIAN.

Osian! Newidia fo'n ôl.

MALI

Na.

Osian

Ond Osian, o'n i'n gwatchad hwnna.

MALI

Sooooo...

OSIAN

Plis?

MALI

Mond am 'chydig 'ta.

OSIAN

MAE MALI YN GWENU, AC YNA GWELWN WÊN FAWR SLEI AR DRAWS WYNEB OSIAN. MAE'N EDRYCH YN AMHEUS AR MALI.

'Sho chwarae cwis Wali?

OSIAN

MALI

Dim ond os ga'i dortch cyn mynd mewn tro 'ma?

OSIAN

Na, ti'm yn dalld nagwt. Ti mond yn cal y dortsh, pan ti 'di atab dy ail gwestiwn yn iawn.

MALI

Ond... 'di hynny'm yn deg.

OSIAN

Yndi mae o! Ti am chwarae, 'ta be'?

MALI

Ond...

OSIAN

Gei di gwshin i'r sêt bach melyn 'na tro 'ma ta?

MALI

O... oce 'ta.

OSIAN

Ies ... Mi â'i i nôl fy het, a dos 'di i nôl y cwshin.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 14.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo. Dydd Mercher 8 o'r gloch yr hwyr.

MALI – OEDRAN 22.

MAE MALI YN EISTEDD AR EI GWELY. MAE HI WRTHI'N MYND DRWY ALBWM LLUNIAU SYDD GANDDI OHONI HI A'I FFRINDIAU. GWELWN LUN OHONI HI A SIONED. MAE HI'N MWYTHO'R LLUN Â'I LLAW. MAE'R GÂN *BLACK AND GOLD* – *SAM SPAROO* YN CHWYRLIO YN EI PHEN.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 15.

EXT. Clwb y Rheilffordd. Amser 9:30 o'r gloch nos Sadwrn.

MALI A SIONED - OEDRAN 16.

**MAE MALI A SIONED YN MYND I GIG YNG NGHLWB Y RHEILFFORDD. MAEN NHW'N
POENI NA CHÂN NHW FYNEDIAD, AM EU BOD NHW O DAN OED. MAE GAN SIONED
FRONNAU ANFERTH. DAW MALI A SIONED ALLAN O GAR MAM MALI.**

MAM (MALI)

Mi ddisgwylia' i yn fama tan ewch chi mewn, rhag ofn ... a Mali ... cofia fod dy frawd
yna hefyd, felly bihafia wir.

MALI A SIONED YN CAU DRYSAU'R CAR.

MALI

Sioned dwi'n ca'l ffrîcs yn fama 'sdi. Be os 'dan ni i'm yn ca'l mynd mewn? Gawn ni
gymaint o jaman.

SIONED

Duw, duw, ti'n poeni gormod 'sdi. Bach o glifij a gwên Mali fach, a byddwn ni'n iawn.

MALI

Ti'n siriys? 'Sgin i'm blydi clifij, y twat.

SIONED

(CHWERTHIN) Dangosa bach o dy nicar 'ta wir Dduw. Ty'd yn dy 'laen, 'dan ni'n edrach 'tha dwy het yn sefyll yn fama.

GWELWN SIONED YN GAFAEL YM MRAICH MALI. MAE'R DDWY YN CERDDED TUAG AT RISIAU CLWB Y RHEILFFORDD. MAE'R BOWNSAR YN SEFYLL AR BEN Y GRISIAU.

BOWNSAR

Evening ladies.

SIONED A MALI

Hyia

GWELIR CAR MAM MALI YN DIFLANNU YN Y CEFNDIR. MAE'R DDWY YN GWENU A CHWERTHIN GYDA'I GILYDD WRTH IDDYN NHW FYND I MEWN I'R CLWB.

SIONED

Da 'di mam chdi, ia?

MALI

(CHWERTHIN) Ti'n meddwl? Ti'm yn byw 'fo'i nagw't.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 16.

INT. Ystafell Mali yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22.

PARHA MALI I EDRYCH AR Y LLUN, DIM EMOSIWN AR EI HWYNEB.

GOLYGFA 17.

INT. Car ar y ffordd i dwrnamaint tennis.

MALI –OEDRAN 13, OSIAN – OEDRAN 17, TAD.

MAE'R TAD YN GYRRU'R CAR, OSIAN YN EISTEDD YN Y SEDD FLAEN A MALI YN Y SEDD GEFN. MAE'R DDAU YN GWISGO DILLAD TENNIS. MAE GOLWG BLIN A SÂL AR OSIAN, MAE GANDDO FRATHIAD CARIAD ANFERTH AR EI WDDF.

TAD

Well i chdi sortio'r llanast 'na 'sgin ti ar dy wddw, cyn inni....

OSIAN

Sut dwi am 'neud hynna?

TAD

O'dd isio chdi feddwl am hynna neithiwr doedd! Sortia dy hun allan, ti fatha cadach, a hwnnw 'di ca'l 'i foddi mewn alcohol 'fyd.

GWELWN MALI YN EISTEDD YN Y CEFN YN TROI EI LLYGAID. MAE OSIAN YN EDRYCH AR EI DAD.

OSIAN

Fock off, do'n 'i'm isho 'neud y ffocin twrnament 'ma yn lle cynta'. Dwi 'di deud ers misoedd bo' fi isho rhoid gora' iddi.

MAE LLYGAID MALI YN DISGLEIRIO, AC MAE GWÊN YN DOD AR DRAWS EI HWYNEB.

MALI

Os 'di o'n ca'l rhoid gora' iddi ... dwi'n ca'l 'fyd.

TAD

Does 'na'r un o'r ddau ohonoch chi'n rhoid gora' iddi! Dan ni'm 'di gwario pres arnoch chi i ddim byd.

OSIAN

Fuck sakes, 'de

MAE OSIAN YN CICIO PANEL BLAEN Y CAR, A GWÊN MALI YN DIFLANNU, AC MAE'N EISTEDD YN FLIN YN Y SEDD GEFN.

GOLYGFA 18.

EXT. Tu allan i dŷ Mali.

MALI – OEDRAN 19, MAM, CATRIN – OEDRAN 7.

MAE MALI WEDI MEDDWI, AC YN STRAFFAGLU O GEFN CAR Y BACHGEN SY’N GYRRU. MAE SIONED YN EISTEDD YN Y SEDD FLAEN. MAE MALI YN CHWERTHIN WRTHI IDDI FAGLU O’R CAR.

MALI

Ta ta Sioned ...

MAE’R CAR YN CYCHWYN, AC MAE SIONED YN AGOR Y FFENESTR.

SIONED

Cofia di amdana’ i, pan ti’n ôl yn y coleg’na.

MAE MALI YN GWENU A CHWERTHIN WRTH IDDI FFARWELIO Â’R DDAU. MAE’R CAR YN MYND. YN FFENESTR Y LLOFFT GWELWN CATRIN YN SEFYLL. MAE HI’N GWYLIO MALI YN DOD O’R CAR. MAE HI’N GWENU AR YMDDYGIAD EI CHWAER FAWR. FEL Y MAE MALI YN TROI AC YN ANELU AM Y Tŷ, MAE HI’N GWELD CATRIN YN Y FFENESTR. MAE HI’N GWENU YN ÔL ARNI, AC YN GWNEUD ARWYDD TAWELWCH. SIOT O CATRIN YN CHWERTHIN, AC YNA MALI YN CHWERTHIN.

**GWELWN MALI YN CODI DAU FAWD AR EI CHWAER YN FEDDWOL, AC YNA CATRIN
YN YMATEB GYDA'R UN YSTUM.**

MAM

MALI ELLIS! Lle goblyn 'ti 'di bod?

**POV MALI - DRWS FFRYNT, LLE MAE'R FAM YN SEFYLL YN FLIN. MAE MALI YN
DECHRAU CERDDED TUAG AT Y DRWS, A'R WÊN WEDI DIFLANNU.**

MAM

Ti a'r Sioned 'na yn gneud dim byd ond yfed, meddwi a chwilio am ddynion 'di mynd.
Ma'n hen bryd i chdi gallio wir dduw, a ti dal heb orffen pacio. Ti'n mynd nôl fory 'sdi.

MALI

No shit Sherlock.

MALI YN GWTHIO HEIBIO Y FAM.

MAM

Paid ti a disgwyl i fi bacio i chdi 'de.

MALI YN CERDDED I FYNY'R GRISIAU.

MALI

Dwi'm ishio chdi bacio i fi. Actually, methu aros i ga`l mynd nôl.

MAM

A dwinna methu aros i chdi fynd nôl. Fydd hi'n nôl i normal yma wedyn.

**MAE'R FAM YN SEFYLL YNG NGWAELOD Y GRISIAU. CLYWN MALI YN GWEIDDI O'R
LLOFFT.**

MALI

Wastad yn gorfod ca`l y gair ola' 'dwyt mam.

CLYWN SŴN MALI YN CAU DRWS EI LLOFT YN GLEP.

GOLYGFA 19.

INT. Ystafell fyw yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22.

**GWELWN MALI YN CERDDED O AMGYLCH YR YSTAFELL YN EDRYCH AR BOPETH
SYDD YNO. MAE HI’N MYND I EISTEDD AR GADAIR, AC YN GWYLIO PAWB YN
SYLWGAR.**

Ôl-fflach.

GOLYGFA 20.

INT. Tŷ Mali. 7 o’r gloch y nos.

MALI – OEDRAN 17, MAM, TAD.

**DAW MALI DRWY’R DRWS FFRYNT. MAE HI’N GWISGO DILLAD TENNIS, YN AMLWG
WEDI BOD YN YMARFER, A BAG MAWR TENNIS AR EI CHEFN.**

Hei ... iawn? **MALI**

(LLAIS YN DOD O’R GEGIN) Hei ... **MAM**

iawn? **MALI**

Sut a’th hi heno? **MAM**

iawn ia ... **MALI**

Pam, iawn ia? **MAM**

MALI
iawn ia. Boring ’di syrffio, a taro nôl i ryw beiriant shit am ddwy awr ... amsar ...
gora’ ... ’mywyd i.

MAM
Mi fydd o ’i werth o’n diwadd ’sdi.

MALI

Dyna ma' dad yn ddeud bob tro fyd.

MAM

Fo sy'n gwbod ora'.

MALI

Eniwe, dwi'n mynd i ga'l shower iawn. Dwi angan bod o' 'ma mewn awr.

MAM

Pam, lle 'ti'n mynd?

MAE MALI YN RHEDEG I FYNY'R GRISIAU.

MALI

'Udish i nithiwr do?

MAM

Do 'fyd, o'n i 'di anghofio, sori.

MAE MALI YN GWEIDDI O BEN Y GRISIAU

MALI

Angan 'i nôl o, o bus stop dre mewn awr ... **(MALI YN TARO AR DDRWS YR YSTAFELL**

YMOLCHI) Pwy sy'n y shower?

MAM

Dy dad.

MALI

(CNOCIO AR DDRWS YR YSTAFELL YMOLCHI YN GALED) Sdyria hi!

MAE MAM MALI ERBYN HYN WEDI DOD I FYNY'R GRISIAU, AC YN SEFYLL YN NRWS

LLOFFT MALI.

'Ti angan te? **MAM**

Ga 'i 'wbath o'r siop ar y ffor'. **MALI**

Ti'n siwr? **MAM**

TY'D 'LAEN DAD! **MALI**

Dafiach 'ti'n 'i weld heno ia? **MAM**

Naci. **MALI**

Y peth tal 'na lly' ia? **MAM**

Naci. Dach chi 'di sdopio busnesu 'wan 'ta be'? **MALI**

MAM
O pwy 'ta? Rhaid chdi watchad 'sdi, neu fyddi di'n ca'l enw rownd lle 'ma.

MALI
(DRWS YR YSTAFEL YMOLCHI YN AGOR) Haleliwia, o'n i'n dechra' meddwl bo' chdi 'di syrthio lawr draen.

Be' sy'n bod efo hi?

TAD

Hogyn!

MAM

GOLYGFA 21.

INT. Ystafell Mali yn y ganolfan arbenigo. Amser: 7 o'r gloch yr hwyr.

MALI – Oedran 22.

MALI YN SEFYLL GER Y FFENESTR YN EDRYCH AM ALLAN

Ôl-fflach.

GOLYGFA 22.

EXT. Car Mali. Amser: 8 o'r gloch y hwyr.

MALI – OEDRAN 17, CARWYN – OEDRAN 17.

**GWELWN VAUXHALL CORSA ARIAN YN GYRRU AM Y DREF. SIOT O MALI YN Y
CORSA ARIAN, MAE CÂN 'FEELING GOOD' GAN NINA SIMONE YMLAEN GANDDI.**

MAE MALI YN CYD-GANU Â'R GÂN

MALI

**IT'S A NEW DAWN, IT'S A NEW DAY, IT'S A NEW LIFE, FOR ME, AND I'M FEELING
GOOD.**

**MAE GWÊN LYDAN AR WYNEB MALI, WRTH IDDI GYRRAEDD YR ORSAF FYSIAU
YNG NGHANOL Y DREF. MAE MALI YN CODI EI LLAW AR FACHGEN, YNA MAE'R
BACHGEN YN CERDDED TUAG AT Y CAR.**

MALI

(DAN EI GWYNT) Ow mai god, ow mai god, ow mai god.

MAE'R DRWS SEDD Y TEITHIWR YN AGOR.

CARWYN

Hei, ti'n iawn? 'Di'n iawn i fi roid hwn yn bwt?

CARWYN YN DANGOS EI SACSOFFON.

MALI

Yndi tad.

DAW CARWYN I'R CAR; MAE'N MYND I EISTEDD YN Y SEDD GYFERBYN Â MALI.

MAE'R DDAU YN GWENU AR EI GILYDD YN DDINIWED.

MALI

So, lle tisho mynd?

CARWYN

Chdi sy' in charge.

MAE CARWYN WEDI RHOI ARGRAFF DDA OHONO'I HUN I MALI.

MALI

O... iawn... oce 'ta!

MAE HI'N GWENU WRTH IDDI DANIO'R INJAN.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 23.

INT. Ystafell Mali yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22.

GWELWN WYNEB MALI, MAE HI'N GWENU WRTH IDDI GOFIO'R NOSON HONNO.

MAE HI'N MYND I EISTEDD AR EI GWELY, SIOT AGOS O MALI YN EDRYCH AR Y CLOC.

MAE HI'N CHWERTHIN YN UCHEL WRTH GOFIO'R ATGOF, YN CRÏO CHWERTHIN.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 24.

INT. Tafarn. Amser: 8 o'r gloch y nôs.

MALI – OEDRAN 19, SIONED – OEDRAN 19.

MAE SIONED YN SEFYLL Y TU ÔL I'R BAR, MAE HI WRTHI'N TYNNU PEINT. GWELWN

MALI YN EISTEDD YR OCHR ARALL I'R BAR YN WYNEBU SIONED.

MALI

Hollol 'di ca'l digon ohoni, 'di'n gneud dim byd ond cega arna' i.

SIONED

Ti'm yn gneud dim byd o'i le ddo, nagw't?

MALI

Nadw, yn union. Ma'i'n cega bo' fi byth yn tŷ, a bo' fi byth yna i Catrin.

SIONED

Hi 'di'i mam hi, ia ddim?

MALI

Yn union, dwi'm yn dalld be 'di'i phroblem hi 'de. Glyw'is di am y busnas torri i lawr do?

SIONED

Do **(CHWERTHIN)** Y fuckin idiot. Sud fu's 'di mor fler?

MALI

O paid, cwilidd ia... o'n i'm yn dalld bo' 'na ffasiwn beth â batri mewn car, na! Duw a wr be ddigwyddith efo Carwyn 'wan 'de?

SIONED

Duw paid â poeni siwr, fydd pawb 'di anghofio erbyn wythnos nesa, ac erbyn wythnos nesa mi fy' gin ti ryw hogyn newydd, nabod chdi.

MALI

Na, ma' 'na 'wbath gwahanol am hwn 'sdi... I ddechra' 'ni, mae o yn sdyning... a ..

SIONED

Eniwe, 'dan ni am fynd allan nos fory 'ta be'?

MALI

Ti'n gweithio?

SIONED

Nadw, y lembo, pam 'swn i'n gofyn fel arall.

MALI

Dealltwriaeth! Be 'di'r plan 'ta?

SIONED

Wel, o'n i'n meddwl 'sa ni'n dod i fan hyn gynta' 'de, ac wedyn mynd i pentra'? Ganol wythnos 'di 'de, so 'sa'm point mynd i dre, nagoes

MALI

Smât, heidiâl. Ti 'di gofyn i'r lleill?

SIONED

Naddo.

MALI

Well i chdi 'neud dydy, pwdu 'na nhw, wel un ohonyn nhw.

SIONED

O, ffoc, in, hel 'de, ti angan sdopio poeni am Llinos 'sdi. Ma' gin hi 'i meddwl 'i hun, sa'm angan iddi fod 'atha cynffon i chdi bob cachiad.

SIOT O'R DDWY YN CHWERTHIN.

MALI

Problem arall ... myddyr.

SIONED

Duw ... duw, mi fydd dy fam yn iawn 'sdi, ac eniwe, os ydy hi'n annoying, ty'd i fama bob tro ... 'sa'm signal yn fama nagoes, neu jyst ty'd draw i 'nhŷ i am frêc.

MALI

'Sa hynna'n iawn?

SIONED

Mali Ellis, you are my ffwend ffoweva.

MAE'R DDWY YN GWENU AR EI GILYDD.

MALI

Gaddo?

MALI YN YMESTYN EI BYS BACH AR DRAWS Y BAR. SIONED YN GOSOD EI BYS BACH HI YNGHLWM WRTH FYS BACH MALI.

SIONED

Pinci promus!

GOLYGFA 25.

INT. Canolfan Arbenigo. Amser: 10:30 y bore.

MALI – OEDRAN 22, DR. WILLIAMS (Gwryw).

MAE MALI YN EISTEDD WRTH FWRDD. MAE DR.WILLIAMS YN EISTEDD MEWN SEDD GYFERBYN Â HI.

DR. WILLIAMS

Be' am inni drafod blwyddyn newydd 2011 heddiw?

SIOT O MALI YN EDRYCH AR DR. WILLIAMS MEWN SYNDOD.

MALI

Be amdani hi?

DR. WILLIAMS

Be' fues di'n 'i wneud?

MALI

Dim byd o bwys.

DR. WILLIAMS

Fuesd di'n rhywle?

MALI

Allan.

DR. WILLIAMS

I le?

MALI

Pam yr holl gwestiyna'?

DR. WILLIAMS

Be' am i chdi ailadrodd y noson benodol yna i mi, heddiw?

GWELWN MALI YN EDRYCH AR DR.WILLIAMS AC YN NODIO.

MALI

(YN DDISTAW) Mi ddechreuodd flwyddyn newydd yn sharabang Alaw, chwaer Huw,
am 4 o'r gloch y prynhawn.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 26.

INT. Carafan Alaw. Amser: 4 o'r gloch y prynhawn.

MALI – OEDRAN 21, ALAW - OEDRAN 26.

**SIOT O MALI YN CERDDED AR EI PHEN EI HUN O DŶ HUW AR DRAWS YR IARD I'R
GARAFÁN. MAE LLOND EI DWYLO O BOTELI ALCOHOL. MAE GANDDI DDWY BOTEL
O WIN COCH, POTEL O GOLA A PHOTEL O MALIBU.**

MAE'N CNOCIO AR DDRWS Y GARAFÁN

MALI

Iw hwwwwwww, where?

Alaw

Hei ... drwodd yn fama.

GOLYGFA 27.

INT. Carafàn Alaw. Amser: 4 o'r gloch y prynhawn.

MALI – OEDRAN 21, ALAW – OEDRAN 26.

MAE MALI YN MYND TRWODD I "STAFELL FYW" Y GARAFÁN

MALI

Weeei, iawn?

ALAW

'Ti'n iawn? Barod am sesh?

MALI

Gwychderus yr wyf! Wrth gwrs, wastad yn barod am sesh. Be' 'di'r plans 'ta?

ALAW

O paid â sôn wir. O'dd Katy a Zoe i fod i ddod draw 'doeddau, ar ôl gwaith. Ond mi yrrodd Katy decst mesij gynna' yn deud ... hang on ...**(YN DARLLEN O'R FFÔN)** Hey Alaw what's the plan for tonight? Me and Zoe are working 'til 5, so i'm gunno get myself ready at Zoe's ... then there's no point us going from Abersoch to the Sharabang, so come over to Zoe's by 7ish?

MALI

Naci, ia? Paid â mwydro. O'n i'n meddwl bo' Katy 'di deud, bo' hi'n dod draw 'ma eniwe?

ALAW

Ia dwi'n gw'bod, sharabang ddim digon da ma' rhaid. Ers i Zoe ddod ar y sîn 'de, 'dyn nhw'n gneud dim ond bod yn sdyc i'w gilydd.

MALI

Ar ddiwedd y dydd ma'n nhw'n shit, ella dyliau ni 'u galw nhw'n Zokat

ALAW

Licio honna. Paid â ca'l fi'n rong, dwi'n falch bo' hi'n 'neud ffrindiau newydd yn lle dibynnu arna' fi drw'r adag, ond dwi 'di bod yma iddi am dair blynadd do. Ma' hi angan cofio hynna 'de.

MALI

Hen beth bach bowld 'di 'de, end of.

ALAW

Ti'n iawn. 'Di Huw 'di mynd draw i Criw?

MALI

Do, fo roddodd liffd i Gareth 'de.

ALAW

Ia siŵr. Ma' gin i gêm dda inni wedyn. Wel dwm'bo a weithith o mor dda efo dwy.

MALI

Mi nawn ni 'neud o weithio siŵr. Be' 'dan ni am neud ddo, mynd draw yn hwyr i le Zoe ta be'? 'Chos 'sgin i'm mynadd mynd yna, os 'di ffrindiau' bach stiwpid hi yna 'fyd 'de.

ALAW

'Neshi'm meddwl am hynna, actually. Ti'n gwobod be', ddo, dwi'm yn meddwl fyddan nhw yna 'sdi, 'chos 'dyn nhw'm yn licio Llion nachdi, ac at yr hogia' 'dan ni'n mynd heno 'de, so ...

MAE MALI YN EDRYCH AR Y CLOC, MAE'N 4 O'R GLOCH Y PRYNHAWN.

MALI

Reit ta, awe, diod...

MAE MALI YN CODI AR EI THRAED, AC YN MYND I'R GEGIN FACH. MAE HI'N PORI DRWY'R CYPYRDDAU.

MALI

Lle 'ti'n cadw'r gwydra eto?

ALAW

Cwpwrdd uwchben y sinc **(SAIB)** Newy' ga'l tecsd mesij gin Katy fyd **(YN DARLLEN)**

No, only me and Zoe will be at her house. Zoe's mum has made us a lasagne for tonight by the way, there will be plenty for you and Mali as well.

MALI

O dyna ni welliant, might as well inni fynd lly 'di! Eating is cheating, duda wrthi.

ALAW

Digon gwir Mali.

SIOT O'R DDWY YN CHWERTHIN GYDA'I GILYDD.

ALAW

Be 'ma' ffrindia' chdi'n 'neud heno?

MALI

O, paid â sôn!

ALAW

Sore subject?

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 28.

EXT. Cwrt Tennis.

MALI – OEDRAN 22.

MAE MALI YN SEFYLL YNG NGHANOL CWRT TENNIS. MAE HI YN GWISGO DILLAD TENNIS SEF CRYST GWYN, SGERT WEN, SANAU GWYN AC ESGIDIAU TENNIS GWYN. MAE GANDDI RACED DENNIS YN EI LLAW. MAE'R TYWYDD YN TROI YN SYDYN O FOD YN BRAF I FOD YN DYWYLL A CHYMYLAU DU WEDI LLEDAENU DRWY'R AWYR. SIOT O'R AWYR YN TREMIO TUAG AT MALI SYDD YN SEFYLL YNO MEWN GWISG DENNIS DDU, MAE HI'N SEFYLL WRTH YMYL TWLL ANFERTH DU. MAE HI'N SGRECHIAN AC YN DECHRAU SYRTHIO

YMDODDI : Int. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo. Ganol nos

MALI – OEDRAN 22.

SIOT AGOS O MALI YN CODI AR EI HEISTEDD YN SYDYN YN EI GWELY, MAE HI'N CHWYS DROSTI WEDI'R FREUDDWYD.

GOLYGFA 29.

**INT. Cartref Mali, tu allan i'r twll dan grisiau, mae Mali yn y twll dan grisiau.
MALI – OEDRAN 6, OSIAN – OEDRAN 10.**

OSIAN

Cfoeso bawb, i cwwwwwiiiiis Wali Tomos ... Heddiw yn y blwch mae ganddom ni hogan fach o'f enw Mali Ellis. Mae hi'n ceisio ennill y wbyf enfawf o wych sydd af gael. Duda 'chydig amdana' chdi dy hun wftw bawb Mali ...

SIOT O BERSBECTIF MALI CYN IDDI ATEB, SEF TYWYLLWCH LLWYR, DÛWCH. MAE OSIAN YN SEFYLL TU ALLAN I'R DRWS. MAE'N GWNEUD YSTUMIAU GWIRION GYDA'I WYNEB, YN DEBYG I WALI TOMOS. CLYWN MALI YN GWEIDDI O'R TWLL DAN GRISIAU.

LLAIS MALI

Mali Ellis ydw i, dwi'n byw yn 14 Llys Cerrig efo mam, dad a 'mrawd mawr fi, Osian. Dwi'n mlwyddyn dau Ysgol Gynradd Pantefail, ac athrawes fi ydi Mrs Pritchard. Dwi yn ffrindia efo Llinos a Bethan a Lowri ac Angharad.

OSIAN

Gwych! Be' ydi dy ddiddofdebau 'di Mali?

MALI

Be 'di didd ... diddof ... diddofdebau, Osian?

OSIAN YN EI HATEB YN FLIN, NID YNG NGHYMERIAD WALI TOMOS.

OSIAN

Be' ti'n 'neud yn dy amsar sbâr 'de. Pan ti ddim yn yr ysgol, dyyyy brên.

OSIAN YN MYND YN ÔL I GYMERIADU WALI TOMOS.

MALI

Ooooooooo, oce. **(SAIB)** Dwi'n hoffi chwarae tennis, dwi'n hoffi nofio, dwi'n hoffi chwarae piano, dwi'n hoffi chwarae efo Barbies a dwi hefyd yn hoffi mynd i ysgol Sul.

OSIAN

Fafgol Mali, fwyt ti yn hogan bfysyf iawn yn' dwyt. Feeeeeeeeeit ta gyfeillion, ymlaen â ni gyda cwis Waliiii Tomooooooooooooooooooooos. Cwestiwn 1. Pwy ydi mefch Mistaf Picton, Mali?

MALI

Dwi'n meddwl ma' ... Sandra ydi'r atab Wali.

OSIAN

Wyt ti'n hydefus gyda'f ateb yma, Mali?

MALI

Yndw!

OSIAN

Mali Ellis ... fwyt ti'n ... GYWIF.

OSIAN A MALI YN CLAPIO.

OSIAN

Feit ta Mali Ellis, ymlaen â ni i gwestiwn dau. Gwfaig pwy sydd yn cael 'i nabod fel Jîn flin?

MALI

Hawdd, ... Tecs.

OSIAN

CYWIIIIIIIIIIIIIIF ETO MALI ELLIS. Fydych chi nawf yn cal toftsh, am ateb dau gwestiwn yn gywif.

GWELWN OSIAN YN AGOR Y DRWS, AC YN RHOI TORTSH I MALI. MAE MALI YN EISTEDD

YN DDEL YN Y GADAIR FACH FELEN SYDD AR Y LLAWR.

OSIAN

Fydych chi'n 'neud yn wych Mali Ellis. Ydach chi'n bafod am gwestiwn tfi?

SIOT O MALI TU MEWN I'R TWLL DAN GRISIAU, GYDA'R DORTSH YMLAEN.

MALI

Barod!!

OSIAN

Feit, gfandwch yn astud af y cwestiwn. Pan mae Tecs yn dawnsio gyda mefch sydd efo gwalld pinc, ble mae hi'n dweud mae hi'n byw? Cymfwch eich amsef Mali Ellis.

MALI

O, tydy hyn ddim yn deg. Dwi'm 'di gweld yr un yna.

OSIAN

Wyt ti'n fhoi y give up, Mali Ellis?

MALI

Ond..

OSIAN

Yf atab?

MALI

Dwi'm yn gwbod be' 'di o!

OSIAN

Anghywiiiiiiiiiiiiif. Yf ateb oedd Tfemeifchion!! Felly, dim toftsh i chi ddim mwy Mali Ellis.

GWELWN OSIAN YN AGOR Y DRWS, AC YN CYMRYD Y DORTSH ODDI WRTH MALI. MAE'N CLOI'R DRWS AC YN CADW'R GORIAD YN ÔL YN EI BOCED. MAE GWÊN SLEI AR WYNEB OSIAN. MAE'N RHEDEG YN ÔL I'R YSTAFELL FYW.

GOLYGFA 30.

INT. Ystafell fyw.

OSIAN – OEDRAN 10.

**DAW OSIAN I EISTEDD YN Y GADAIR ESMWYTH SYDD YN YR YSTAFELL FYW, YN WÊN O
GLUST I GLUST. MAE’N CHWERTHIN YN DDISTAW WRTHO’I HUN. MAE’N TROI’N ÔL AT Y
RHAGLEN YR OEDD WEDI BWRIADU EI GWYLIO AR Y TELEDU. MAE’N GWNEUD EI HUN YN
GYFFORDDUS AC YN RHOI EI DRAED I FYNY AR Y BWRDD COFFI SYDD O’I FLAEN.**

GOLYGFA 31.

INT. Tu allan i'r twll dan grisiau.

MALI – OEDRAN 6.

**SIOT O DDRWS Y TWLL DAN GRISIAU. DIM OND LLAIS MALI SYDD I'W GLYWED, NI ALLWN
EI GWELD.**

MALI

Wali, ydw i'n cal y dortsh yn ôl ar ôl i fi atab dau gwestiwn arall yn iawn, 'ta nadw?

DOES DIM ATEB

MALI

Wali? ... Wali Tomos? ... Osian ... OSIAN ... DWI'N DEUD WRTH MAM! MAAAAAAAAM!

GOLYGFA 32.

INT. Ystafell fyw.

OSIAN – OEDRAN 10, MAM.

MAE OSIAN YN CHWERTHIN PAN DDAW'R FAM I MEWN I'R YSTAFELL FYW.

MAM

Mali 'di mynd i chwarae efo'i Barbies? Dos i 'neud dy hun yn barod ar gyfer dy wers dennis 'wan 'ta! Hanner awr 'sgynnon ni!

**MAE OSIAN YN CODI AC YN MYND ALLAN O'R YSTAFELL. MAE'R FAM YN DIFFODD Y
TELEDU.**

GOLYGFA 33.

INT. Cegin.

MAM.

MAE'R FAM YN GWEIDDI O WAELOD Y GRISIAU.

MAM

MALI, cliria'r Barbies 'na 'wan plis. A pan dwi'n deud rwan, dwi'n meddwl rwan. Ma' gin ti wers mewn hanner awr, felly brysha!

MAM YN CERDDED I'R GEGIN.

GOLYGFA 34.

INT. Tu allan i'r twll dan grisiau.

MALI – OEDRAN 6, MAM.

SIOT O DDRWS Y TWLL DAN GRISIAU.

MALI

(SGRECHIAN) MAAAAAAAAAAAAAM!

MALI YN CICIO A THARO DRWS Y TWLL DAN GRISIAU. MAE'R FAM YN RHUTHRO O'R

EGIN, AC YN SEFYLL TU ALLAN I'R DRWS.

MAM

Mali? Ti'n oce?

MALI

Mam!

MAM

Lle mae'r goriad cariad?

MALI

Dwi'n sdyc mam.

MAM

Paid â crio, lle mae'r goriad?

MALI

Osian.

MAM

OSIAN! Ty'd i lawr 'ma y munud 'ma, ti'n clywed? A g'na'n siwr bod y goriad 'na gin ti y cythral bach.

MAE'R GORIAD YN DISGYN I'R LLAWR A'R FAM YN MYND I'W NÔL. GWELWN Y FAM YN AGOR Y DRWS AC YNA MALI YN DOD ALLAN O'R TYWYLLWCH DAN GRIO.

MAM

Be' oeddach chdi'n 'neud yn fana?

MALI

Mi oeddau ni'n chwarae cwis Wali Tomos, a wedyn ar ôl cwestiwn tri, 'nath Osian fynd a 'ngadal i fewn yna.

MAM

Wel wir, mi ga' i air efo Osian yn y munud. Dos i newid 'wan yn hogan dda. 'Sgynnon ni'm llawar o amser.

MAE MALI YN NODIO EI PHEN AC YN MYND I FYNY'R GRISIAU. MAE MAM YN YSGWYD EI PHEN AC YN MYND YN ÔL I DACLUSO PETHAU YN Y GEGIN.

GOLYGFA 35.

INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22, NYRS.

SIOT LYDAN O MALI YN GORWEDD AR EI GWELY, YN SYLLU I'R GWAGLE. WRTH DDRWS YR YSTAFELL, MAE NYRS YN SEFYLL YNO YN SYLLU AR MALI. MAE'R NYRS YN CERDDED AC YN SEFYLL O FLAEN MALI, NID YW MALI YN EDRYCH ARNI.

NYRS

Mae' 'na rywun yma i dy weld di!

GWELWN WYNEB MALI, NID YW'N DWEUD DIM, OND PARHAU I SYLLU.

NYRS

Mali, ma' 'na rywun wedi dod yma, yn un swydd i dy weld di.

LLYGAID MALI YN PARHAU I SYLLU.

MALI

Dwi 'di deud fwy nag unwaith 'mod i'm 'isho gweld neb, dim mam, dim dad, dim Huw a dim Catrin! **(EDRYCH AR Y NYRS)** Dallt?

NYRS

Osian sydd yma.

MAE'R NYRS YN YMADAEL A'R YSTAFELL.

GOLYGFA 36.

INT. Car tad Alaw.

MALI – OEDRAN 21, ALAW- OEDRAN 26, TAD ALAW.

**SIOT FEWNOL O'R TRI YN Y CAR. MAE MALI YN EISTEDD YN Y CEFN. MAE'R CAR YN TROI
MEWN I STAD O DAI YN ABERSOCH. MAE MALI AC ALAW WEDI MEDDWI!**

MALI

Ow mai god, hwn 'di tŷ Zoe yn diwadd?

ALAW

Dwi'n gwbod, tŷ bach 'di o 'de.

MALI

O'n i'n disgwl 'wbath lot mwy na hwn 'de!

TAD ALAW

Fydd Mr a Mrs Allen yna heno?

ALAW

'Udodd Zoe bo' 'nhw mewn rhyw barti.

TAD ALAW

Ti'n lwcus 'lly Mali.

MALI

Pam?

TAD ALAW

'Dy'n nhw'm yn gall, siŵr.

ALAW

Meddwi'n wirion bosd drw'r adag, yn rhoid ryw swsus a rhyw fwydro. Reit awe, diolch dad.

MALI

Diolch.

TAD ALAW

lawn siwr. Sud 'dach chi'n dod adra?

ALAW

Ma' Gareth neu Huw i fod i ffonio am darsi.

TAD ALAW

Os 'dach chi'n sdyc ffoniwch adra, ddo i neu mam i'ch nôl chi, iawn?

**GWELWN Y DDWY, O'R CEFN, YN CERDDED TUAG AT DŶ ZOE. MAE'R DDWY YN
CHWERTHIN WRTH IDDYN NHW FAGLU YN Y TYLLAU SYDD YNG NGHANOL Y LÔN. MAE
KATY YN AGOR Y DRWS.**

KATY

Alright you two?

**MAE ALAW A MALI WEDI MEDDWI AC MAE GAN MALI ACEN GYMRAEG FAWR WRTH IDDI
SIARAD GYDA KATY.**

MALI

Haia Katy, haw âr iw?

KATY

I'm fine thanks! Since when have you two been drinkin'?

ALAW

4 o cloc, ies Mali?

MALI YN NODIO

KATY

You two are well late, we have to go now you know. There's no time for the lasagne!

MALI

We told iw yrliyr îting is chiting!Get iôr âs in gyir Katy fach and blydi drinc.

PAWB YN CHWERTHIN

ALAW

Wêrs Zoe eniwê?

SIOT LYDAN O ZOE YN DOD I'R DRWS

ZOE

Fama, gorffan 'neud 'yn hun yn barod o'n i sori ... dach chi'n ocê?

KATY

Right, let's go.

MALI

Wot, naw?

KATY

Yeah. Dawi txted me before you arrived, saying that the boys are at the Faynol.

MALI

Byt ut's ownli 9 o cloc, wi shwd drinc ffyrst, ie?

ZOE

Ma' Llion 'di tecsdio fi 'fyd, yn deud bo' nhw i gyd yna, ac i ni fynd yna 'wan.

ALAW

O duwcs, Gareth hasynt tecsded mi 'de.

KATY

We've got two bottles of champagne, so we'll drink that on the way down?

MALI

Ut wil têt môr ddan 2 munuts in ddy car tw drinc tw botyls of shampên.

ZOE

(CHWERTHIN) Dan ni'n cerddad

KATY

Wha'? You thought we was gunno go in the car? **(CHWERTHIN)**

MALI

Âr iw siriys? Ai nefyr wôc wel ai dw, byt mai legs ar hyrting twnait iw now!

KATY

(CHWERTHIN) You are something else Mali. If we walk we can drink, plus there's no one to take us in the car anyway.

MALI

lôr blydi lyci aif worn mai wejis, de, ôr dder wÿd of bîn lle yma.

ALAW

Awê then, ie ... Where's ddy drincs?

GWELWN ALAW YN AGOR PÔTEL CHAMPAGNE. MAE ALAW A MALI YN RHANNU PÔTEL, A ZOE A KATY YN RHANNU'R BÔTEL ARALL. MAE ZOE A KATY YN DECHRAU CERDDED.

ALAW

Blydi hel, do'n i'm yn gwobod bo' hi'n noson gwisgo fatha twins, oddach chdi?

MAE'R DDWY YN EDRYCH AR KATY A ZOE, AC YNA YN DECHRAU CHWERTHIN. CYMER MALI SWIG O'R BÔTEL. MAE'R DDWY YN DECHRAU CERDDED YN ARAF, YN SIBRWD WRTH EI GILYDD

ALAW

Mali, g'na'n siŵr bo' nhw'm yn tynnu llunia gwirion ohona' i heno, iawn. Ma'n imbarysing pan ma'r hogia' yn gweld nhw drw'r adag, ac ma'r ddwy jyst yn chwerthin am 'mhen i ... dalld be' 'sgenna'i?

MALI

Dealltwriaeth lwyr Alawrina. Na phoener, g'naf yn siŵr fod popeth yn iawn.

MAE KATY A ZOE WEDI AROS AC YN EDRYCH AR MALI AC ALAW.

KATY

Are you twos coming or wha'?

MAE ALAW YN RHEDAG O FLAEN Y TAIR, MAE MALI YN SEFYLL GYDA KATY A ZOE

ZOE

What is she doing?

KATY

I dunno.

ALAW

C'mon, iôr slow

**MAE ALAW WEDI AROS WRTH YMYL TŶ. MAE HI'N COLLI EI CHYDBWYSEDD WRTH IDDI
CHWIFIO EI BREICHAU YN YR AWYR, AC YN DISGYN DROS WAL FACH Y TŶ. MAE EI
BREICHAU YN MYND GYNTAF FEL PE BAI HI'N DEIFIO I BWLL, AC WEDYN EI CHOESAU, FEL
DARNAU O BREN. MAE'R TAIR YN EDRYCH AR EI GILYDD MEWN SYNDOD, AC YNA YN
CHWERTHIN YN WIRION. MAE'R TAIR YN RHEDEG I'R MAN LLE MAE ALAW WEDI DISGYN.
GWELWN GOES YN HONGIAN YN Y GWRYCH. TREMIO LAWR AT GORFF ALAW YNG
NGHANOL Y GWRYCH. MAE WYNEB ALAW YN EDRYCH YN DDRYSLYD. GWELWN KATY YN
TYNNU EI CHAMERA O'I BAG.**

KATY

I've got to take a picture of this, it's hilarious.

MALI

No don't

MAE MALI YN CEISIO CUDDIO ALAW SYDD YNG NGHANOL Y GWRYCH. YNA MAE MALI YN ESTYN EI LLAW I ALAW ER MWYN CEISIO EI CHODI O'R GWRYCH. NID YW MALI YN AMLWG YN DDIGON CRYF, A CHAIFF GRYN DRAFFERTH DYNNU ALAW O'R GWRYCH, NES EI BOD YN CAEL EI THYNNU AR BEN ALAW. MAE'R DDWY YN CHWERTHIN YN WIRION BOST YNG NGHANOL Y GWRYCH, AC MAE KATY A ZOE YN CHWERTHIN AC YN TYNNU SAWL LLUN.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 37.

INT. Ystafell sgwrsio yn y ganolfan arbenigo.

OSIAN – OEDRAN 26, MALI – OEDRAN 22.

**MAE MALI YN SEFYLL YN Y DRWS. GWÊL OSIAN MALI, MAE'N CODI AC YN CERDDED TUAG
ATI. MAE MALI YN CERDDED TUAG ATO. MAE'R DDAU YN COFLEIDIO YNG NGHANOL YR
YSTAFELL. MAE DEIGRYN MALI YN DISGYN HYD EI HWYNEB.**

GOLYGFA 38.

INT. Cwrt Tennis.

MALI – OEDRAN 9, OSIAN – OEDRAN 13, TAD.

**MAE MALI AC OSIAN YN YMARFER GYDA'I GILYDD, AR GWRT CYNTAF Y GANOLFAN.
MAE'R DDAU YN EDRYCH YN OFNADWY O GOCH. MAE'R DDAU AR GANOL CAEL GÊM
GYDA'I GILYDD.**

TAD

(GWEIDDI) I'w fac-hand o Mali, fan'na 'di'i fan gwan o, ty'd 'laen 'wan.

OSIAN

(GWEIDDI) Cau dy geg dad! Dwi'n well na hi eniwê.

TAD

Gwthia hi i'r net.

**MAE OSIAN YN TARO PÊL FER DROS Y RHWYD AR GYFER MALI. MAE MALI YN TUCHAN AC
YN RHEDEG AT Y RHWYD GAN DARO'R BÊL YN ÔL DROS Y RHWYD. MAE OSIAN YN
RHEDEG YMLAEN AC YN TARO ERGYD HEIBIO I MALI. MAE'R BÊL YN MYND HEIBIO AC
MAE OSIAN YN EDRYCH AR Y TAD.**

OSIAN

Game ... Set ... **(GWÊN SBEITLYD)** Match!

MAE OSIAN YN CERDDED AT Y FAINC SYDD AR OCHR Y CWRT. DAW MALI I SEFYLL GER Y RHWYD ALLAN O WYNT. MAE'R TAD YN CEISIO EGLURO RHYWBETH I'R DDAU, OND NID YW MALI YN GWRANDO ARNO. MAE MALI YN EDRYCH AR EI FFRINDIAU SYDD AR OCHR ARALL Y FFENESTR, MAE PAWB YN CHWERTHIN YR OCHR ARALL I'R FFENESTR. MAENT AR FIN CAEL GWERS NORMAL, SYDD YN LLAWER RHY HAWDD I MALI A'I BRAWD. CHWARAE TENNIS AM HWYL YN UNIG Y MAE EI FFRINDIAU. MAE HI'N CODI EI LLAW ARNYN NHW YN GENFIGENNUS, GYDA GWÊN FACH DRIST AR EI HWYNEB, OND NID YW EI FFRINDIAU YN EI GWELD.

TAD

Dalld Mali?

MAE MALI YN EDRYCH AR EI THAD.

MALI

Hm?

TAD

Ti'n gwranddo dim 'di mynd. Ymarfer syrff bob yn ail iawn, gei di ddeud wrth dy frawd be' mae o yn 'i 'neud yn anghywir, ac mi geith o 'neud yr un peth i chdi. Ond yn gynta' pum lap rownd y cwrt.

MALI

Ond ...

TAD

Sprints.

MAE MALI YN RHOI OCHENAID. GWELIR HI A'I BRAWD YN RHEDEG O AMGYLCH Y CWRT, A'R TAD YN EDRYCH AR Y DDAU.

GOLYGFA 39.

INT. Ystafell sgwrsio yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22, OSIAN – OEDRAN 26.

MAE'R DDAU YN EISTEDD GYFERBYN Â'I GILYDD O AMGYLCH BWRDD CRWN.

MALI

Chdi oedd ... ydy'r ffefryn gynnon nhw.

OSIAN

Naci siŵr.

MALI

Osian hyn, ac Osian llall. Ma' Osian yn gweithio i'r cyfryngau w'chi, ac ma'n priodi flwyddyn nesa (**MALI YN GWNEUD YSTUM O GYFOGI**)

MAE'R DDAU YN CHWERTHIN.

OSIAN

Ironig.

MAE MALI YN PEIDIO Â CHWERTHIN AC YN SYLLU YN FLIN AR OSIAN.

MALI

Be' ti isio Osian?

OSIAN

I chdi wella!

MAE MALI YN TUCHAN, AC YN TROI ODDI WRTH OSIAN.

OSIAN

Ma' raid i chdi wella. 'Ti'm yn ddwl. Ma' gin ti bob dim yn dy fywyd; ffrindia' da, car neis, bywyd sdiwdant, cariad, a theulu sy'n meddwl y byd ohonoch chdi.

MAE MALI YN CODI AR EI THRAED YN FLIN.

MALI

Be ti'n w'bod? 'Ti'n byw ben arall i Gymru, not ei cêr in ddy Wyrld am neb arall. 'Ti byth yn ffonio, 'ti byth yn dod i fyny ... ond eto, do'ddach chdi byth yn ffonio pan o'n i lawr yn Gaerdydd so ... **(YN WYNEB OSIAN)** Piss off Osian.

MAE MALI YN DECHRAU CERDDED TUAG AT Y DRWS

OSIAN

'Di hynna ddim yn deg. 'Ti'n un da i siarad, 'ti'm yn gadel i neb ddod i dy weld di.

MAE MALI YN AROS AC EDRYCH ARNO, YNA MAE'N TROI AC YN PARHAU I GERDDED O'R YSTAFELL.

OSIAN

(GWEIDDI) Dwi'm yn mynd nes 'ti'n gwella ... 'ti'n cl'wad!

GOLYGFA 40.

INT. Cwrt dan do, twrnamaint Tennis.

MALI – OEDRAN 8, GWRTHWYNEBWRAIG – OEDRAN 8/9.

**GWELWN MALI A'I GWRTHWYNEBWRAIG. NID YW MALI PRIN YN GALLU GWELD DROS Y
RHWYD. MAE MALI YN GAFAEL MEWN RACED DENNIS ANFERTH. MAE CAWR O FERCH Y
PEN ARALL I'R RHWYD.**

GOLYGFA 41.

EXT. Gardd y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22.

**MAE MALI YN CERDDED YN ARAF YN YR ARDD. MAE HI'N AMLWG YN MEDDWL YN
DDWYS AM RYWBETH. MAE HI'N AROS YN EI HUNFAN AC YN GWRANDO AR SŴN CAR.**

Ôl-fflach.

GOLYGFA 42.

INT. Car Mali. Amser: 9 o'r gloch yr hwyr.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19, MAM.

SIOT LYDAN O MINI COOPER DU TO CLWT YN GYRRU MEWN I'R STAD O DAI LLE MAE MALI'N BYW. MAE MALI YN CAMU O'R MINI DU. GWELWN HEN GAR CARWYN WEDI EI BARCIO Y TU ALLAN I DŶ MALI. MAE'N DOD ALLAN O'I GAR.

MALI

Wel ... be' ti'n feddwl?

CARWYN

Pam chest ti'm yr hen fodel?

MALI

Pam 'swn i isio hen gar?

CARWYN

Ma'n nhw'n well!

MALI

Nadyn ddim. **(SAIB)**

MALI YN DECHRAU CERDDED TUAG AT Y TŶ.

CARWYN

Lle 'ti'n mynd?

MALI

Mynd i ddeud w'th mam bo' ni'n mynd am dro, 'cofn iddi boeni!

CARWYN

'Sa well i fi ddod mewn 'fyd ma' siwr fysa, i ddeud helo.

MALI A CARWYN YN CERDDED TUAG AT Y TŶ. GWELWN Y FAM YN DOD ROWND Y GORNEL, YN AMLWG WEDI BOD YN GARDDIO.

MALI

Dan ni'n mynd am dro, iawn.

MAM

Iawn ... **(SYLWI AR CARWYN)** Duw, Carwyn 'ti'n iawn? 'Dan ni'm 'di dy weld di ers tro.

Lle 'ti 'di bod yn cuddiad?

CARWYN

Heb ga'l llawer o gyfle efo ffarmio a ballu.

MAM

O duwcs. Mwynhewch ... a Mali, cym ofal plis.

MALI

Ia iawn.

CARWYN

Hwyl!

GWELWN Y DDAU YN CERDDED YN ÔL AM Y CAR.

MALI

Ddudish i bo' hi'n cwyno yn do?

CARWYN

Dwi yma 'wan dydw ... ga' i ddreifio?

MALI

No we, mi fasa dad yn ca'l hyrnia.

**MA'R DDAU YN MYND I'R CAR AC YN GYRRU YMAITH.
Ôl-fflach yn darfod.**

GOLYGFA 43.

**EXT. Gardd yn y ganolfan arbenigo.
MALI – OEDRAN 22.**

**MAE MALI YN EISTEDD AR FAINC GER AFON FACH SYDD YN YR ARDD. MAE HI’N GWENU
AC YN EDRYCH I FYNY AR YR HAUL. CLYWN SŴN YR AFON YN BYRLYMU.**

Ôl-fflach.

GOLYGFA 44.

EXT. Glan y môr . Amser: tua 9:30 y hwyr.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19.

LÔN HIR GER GLAN Y MÔR. GWELWN FINI DU MALI YN GWIBIO HEIBIO YN SYDYN.

GWELWN MAI CARWYN SYDD YN GYRRU'R CAR AC NID MALI. MAE'R CAR WEDI AROS, AC

MAE MALI A CARWYN YN CYFNEWID LLE. MAE'R CAR YN YMADAEL Â'R TRAETH.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 45.

EXT. Gardd yn yr Ysbyty.

MALI – OEDRAN 22.

MAE MALI YN DAL I EISTEDD AR Y FAINC, GER YR AFON. MAE'R WÊN YN DIFLANNU YN SYDYN, A MALI YN YSGWYD EI PHEN. MAE HI'N CODI AC YN ANELU YN ÔL TUA'R YSBYTY, YN DRIST AC YN DDIAMYNEDD.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 46.

INT. Car Mali. Amser: 9:45 yr hwyr.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19, MAM.

MAENT BRON IAWN Â CHYRRAEDD YN ÔL I DŶ MALI. MAE MALI A CARWYN YN Y CAR.

Ti'n bod yn weird.

MALI

Dwi ddim.

CARWYN

Be sy?

MALI

Dim.

CARWYN

Oes tad, duda?

MALI

Dim, 'na i ddeuthach chdi'n munud.

CARWYN

Ti isio gorffan?

MALI

Canolbwyntia ar ddreifio.

CARWYN

Duda 'wan!

MALI

'Nai ddeuthach chdi wedyn, medda fi ...

CARWYN

MALI

Pam 'ti'n cau deud 'wan?

CARWYN

Jyst dreifia Mali

MALI

Dan ni fwy neu lai adra' 'wan eniwe.

GOLYGFA 47.

EXT. TU ALLAN I DŶ MALI.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19.

MINI DU MALI YN PARCIO Y TU ALLAN I'W THŶ.

GOLYGFA 48.

INT. Yng nghar Mali. Amser: Tua 9:45 y hwyr.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19, MAM.

'Ti'n dod mewn 'ta be'?

MALI

Nadw!

CARWYN

Pam 'ti'm isio dod mewn 'wan 'to?

MALI

Achos ... achos ... achos dwi'n gorffan 'fo chdi.

CARWYN

(CHWERTHIN) Paid â bod yn wirion! 'Ti'n dod mewn 'ta be'?

MALI

Nadw.

CARWYN

'Ti'n siriys?

MALI

Yndw.

CARWYN

Pam?

MALI

Dwm'bo pam.

CARWYN

Plis paid â gneud hyn i fi eto, for god sakes 'de.

MALI

'Sgin i actually ddim rheswm pam.

CARWYN

MALI

Ti'm jst yn gorffan 'fo rywun am ddim rheswm. Ddim dyma'r tro cynta' i chdi neud hyn naci ... be' 'di point mwydro 'wan.

MALI YN DECHRAU CRIO. DAW MAM MALI I'R FFENESTR, MAE HI'N CNOCIO AR Y FFENESTR, GYDA GWÊN FAWR AR EI HWYNEB. MALI YN CEISIO SYCHU EI DAGRAU YN SYDYN.

MAM

(ARWYDDO) 'Dach chi'n iawn? 'Dach chi'n dod mewn i gal tamaid o swpar?

MALI

Fyddwn ni i mewn mewn bach, mam.

MAE'R FAM YN MYND.

MALI

Fedrwn ni'm gneud hyn tu allan i'r tŷ.

MAE'N TANIO'R CAR YN SYDYN.

GOLYGFA 49.

EXT. LON. Tu allan i dŷ Mali.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19.

MALI YN GYRRU YMAITH YN GYFLYM.

GOLYGFA 50.

INT. Car Mali.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19.

CARWYN

Lle 'ti'n mynd? 'Sa'm point ... 'dan ni 'di gorffan ... a 'sa'm byd 'ti'n ddeud tro'ma am newid y peth.

MALI

Ti'n 'neud hyn bob tro 'di mynd, hwn 'di'r chwechad tro ... chwechad! Be' dwi 'di 'neud yn rong tro 'ma?

MALI YN BEICHIO CRIO WRTH YRRU.

CARWYN

'Ti'm 'di gneud dim byd o'i le. Dwi jyst ddim isio bod efo chdi 'im mwy.

MAE MALI YN STOPIO'R CAR YN SYDYN.

MALI

Dydy pobl ddim yn gorffan efo'i gilydd am ddim rheswm Carwyn. So be' ydy'r rheswm? 'Ti 'di bo' 'fo rhywun arall?

CARWYN

Naddo siŵr, 'swn 'im yn 'neud hynna!

MALI

'Ti'm yn ffansio fi 'im mwy ne' 'wbath? Tisho mynd 'fo rhywun arall?

CARWYN

Wel ... dwm'bo ... dwi jyst.

MALI YN AILDANIO'R CAR AC YN GYRRU YN ÔL AT EI THŶ.

GOLYGFA 51.

EXT. LÔN.

MALI – OEDRAN 19, CARWYN – OEDRAN 19.

MAE HI'N STOPIO'R CAR AR BEN Y LÔN, FEL NAD YDY HI'N GORFOD MYND ADREF.

MALI

Dos ... ffwcia o 'ma ... dos allan ... 'wan ...

MAE MALI YN GWTHIO CARWYN O'R CAR. MAE CARWYN YN AGOR Y DRWS AC YN CAMU O'R CAR AC YN CAU'R DRWS. MAE MALI YN AGOR Y FFENEST, AC YN TORRI CADWYN SYDD GANDDI O AMGYLCH EI GWDDF.

MALI

(WRTH LUCHIO'R GADWYN DRWY'R FFENEST) 'Sa'm point i fi gadw'r shit yna, nagoes.

SAIF CARWYN YN STOND, A CHAR MALI YN GYRRU YN WYLLT O'R PENTREF.

GOLYGFA 52.

INT. Tu mewn i gar Mali.

MALI – OEDRAN 19.

**GWELWN WYNEB MALI YN Y CAR YN BEICHIO CRIO. GWELWN MALI YN CEISIO FFONIO
SIONED.**

MALI

Atab dy ffôn Sioned, for god sakes 'de...

SIOT O MALI YN CEISIO FFONIO LLINOS

MALI

Llinos... ma' 'di 'neud o eto ... go iawn tro 'ma.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 53.

EXT. Twrnamaint Tennis, Cwrt yn yr awyr agored. Dechrau gwyliau'r Haf. Amser: 10 o'r gloch y bore.

MALI – OEDRAN 15, GWRTHWYNEBWRAIG – OEDRAN 15.

MAE MALI YN RHEDEG AR DRAWS Y CWRT I DARO PÊL. MAE'R WRTHWYNEBWRAIG YN TARO'R BÊL I'R GORNEL ARALL. RHED MALI I'R OCHR ARALL, LLITHRA AR Y LLAWR CLAI WRTH IDDI GEISIO TARO'R BÊL. GWELWN FOD OCHR MALI WEDI BRIFO, YN LLAWN CRAFIADAU. CWYD MALI ODDI AR Y LLAWR, A THACLUSO EI HUN. MAE EI DILLAD GWYN YN GYMYSGEDD O LWCH LLWYD A GWAED. SIOT AGOS O WYNEB MALI.

GOLYGFA 54.

INT. Ystafell Dr. Williams.

MALI – OEDRAN 22, DR. WILLIAMS.

MALI YN EISTEDD GYFERBYN Â'R DOCTOR.

DR. WILLIAMS

Wnes di ac Alaw frifo yn y gwrych?

MALI

Naddo, dwi 'di hen arfer disgyn ar gyrtiau tennis dros y blynyddoedd.

DR. WILLIAMS

Digon gwir. Be fuoch chi'n 'i wneud weddill y noson?

MALI

Mi gyrhaeddod ni'r Faenol a mynd at yr hogia'. Dwi'n mynd efo Huw, sy'n frawd i Alaw, ma' Alaw yn mynd efo Gareth, sy'n un o 6, sy'n frawd i gariadon Katy a Zoe. O'n i'n ych gweld chi'n edrych arna' i 'di drysu gynna'. Pen Llŷn 'dyn nhw 'dach chi'n gweld. Ma' pawb yn perthyn neu yn gariadon yna, heblaw amdana'i wrth gwrs, dwi'n outcast fach. Eniwe, fuon ni'n ista am oes, dim byd diddorol rili. Mi o'n i'n ca'l row gan bawb, am 'mod i 'di meddwi'n wirion, a bo' Alaw 'di meddwi. Row hwyl dwi'n feddwl, dim byd siriys, ac yn syth bin mi o'dd y llunia allan gan Katzo. Pawb yn cael hwyl, yn yfad shots ... dybyls a mwydro.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 55.

INT. Tafarn y Faenol. Amser: 11:30 yr hwyr.

MALI – OEDRAN 21, KATY – OEDRAN 25, HUW – OEDRAN 22, DEWI – OEDRAN 26, ALAW – OEDRAN 26, FFRINDIAU.

GWELWN RYW UGAIN O FFRINDIAU WEDI CYMRYD CORNEL FAWR GYFAN YN Y DAFARN.

MAE MALI A KATY YN CAEL SGWRS.

MALI

Si naw Katy, aim going tw tîch iw, haw to spîc propyr Welsh, oce?

KATY

Dwi'n mynd i gwersi Cymraeg. I have to, I've been living here for four years now.

MALI

Ies, dwi'n gw'bod hynna. Wot aim seing us, ddat aim going to teach iw how to spîc it propyr, laic mi. Bicôs iw don't want to sawnd laic symwon ffrom hiyr, cys ddei sawnd hen ffashiwn, iw no wot ai mîn?

KATY

What do you mean? I get nervous in front of the boys, you know.

MALI

Rait lisyn naw, wen ai spîc, ia, ai sei 'ia' afftyr efri-thing nirli, ia?

KATY

Yeah, I've noticed that actually. Why do you do tha'?

MALI

I dynno rili, I jst dw, ut's a habit ai thinc. Rait, rypit afftyr mi ... naaaaaa, ia.

KATY

Na, iaaaaaa

MALI

Jaman.

KATY

What does jaman mean?

MALI

Deffynishyn of jaman us, wen symthing embarysing has hapynd tw iw, or tw symwon els. Ffôr egsampyl, mi and Alaw ffoling yrlier, ddat us symthing iw call ei 'jaman'. Ai wyd sei, ow mai god, gesh i masuf jaman gynna ia, or, owwww maai god jaaman 'ta be'. Rait, ynyddyr wyrd us, 'ishcri'. Deffynishyn: isio crio, icwyls ai want tw crai, o em gi ishcri 'ta be'.

KATY

You're mental you are. Dawi!

DEWI

What?

KATY

Listen to this, Jaman, naaaa, ia. Do you think I sound like Mali?

DEWI

You don't want to sound like Mali, Katy

PAWB YN CHWERTHIN

KATY

Why?

DEWI

'Cause she can't speak proper Welsh.

MALI

Hei, ma' gin i radd yn y Gymraeg diolch yn fowr iawn.

DEWI

(CHWERTHIN) A 'di dal methu siarad yn iawn.

KATY

I like how you talk Mali.

MALI

Ut's ddy besd wei of spicing ut, obvs.

KATY

When are you training next?

MALI

Iw no wat, ddo ... ai thinc ai mait cwit iw no. Ut's ynoing, uts bin ynoing sins ddy dei ai wanted tw go shopping widd mai ffrends. Byt of côrs, ai wasynt ylawd tw cwit bai mai dad. But aim addicded tw ut ddo, ai cîp sayin aim going tw cwit, byt ai nefyr dw.

SIOT O HUW YN DOD O'R BAR

HUW

Dybyl Malibu a coke oddach chdi isio, ia?!

MALI

Ia diolch. 'Di bod yn dysgu Katy sud i siarad yn iawn.

HUW

Mam yn deud gynna' bo' chdi'm yn aros i ga'l te flwyddyn newydd 'fo ni nos fory.

MALI

Dwi methu 'nadw

HUW

Pam tro 'ma? 'Nes di addo 'sach chdi'n gneud.

MALI

Ia ond fedra' i ddim naf'draf. Ma' mam yn neu' cinio dydd Sul yn tÿ ni 'fyd 'ndi. Fydda' i'n teimlo'n ddrwg os na a'i. Ma' Osian a Cadi i fyny 'fyd. 'Sa fo'n rŵd os 'swn i ddim 'sa.

HUW

Duda 'di.

MALI

Ar llw 'wan Huw.

HUW

O'n i jst yn meddwl 'sach chdi'n cal un yn lle ni am chenj.

MALI

'Na i flwyddyn nesa, gaddo.

HUW

la Mali poen...

MALI

Ei tyd 10, 9 ...

GWELWN PAWB YN CYFRI'R DEG EILIAD OLAF. SIOT YN TREMIO O AMGYLCH YR YSTAFELL. MAE PAWB AR EU TRAED YN GWEIDDI AC YN CYFRI, RHAI YN Y GYMRAEG, ERAILL YN Y SAESNEG. SIOT CYFLYMDRA ARAF O BAWB YN GWEIDDI 2,1. CYMYSGEDD O 'BLWYDDYN NEWYDD DDA' A 'HAPPY NEW YEAR'. MAE HUW A MALI YN CUSANU AC YN GWENU AR EI GILYDD.

MALI

Dwi'n mynd i ffonio rownd iawn!

MAE MALI YN SYMUD DRWY GRIW O BOBL, YN COFLEIDIO A CHUSANAU EI FFRINDIAU WRTH BASIO HEIBIO IDDYNT.

GOLYGFA 56.

EXT. Y tu allan i dafarn y Faenol.

MALI – OEDRAN 21.

MALI YN EISTEDD AR FAINC Y TU ALLAN I'R DAFARN, YN FFONIO PAWB.

MALI

Haia mam ... blwyddyn newydd dda ... yndw diolch, amsar da iawn ... wela' i chi rywben fory ia ... ella gawn ni weld sud fydda' i fory. Taaaaaa.

MALI YN DEIALU RHIF NEWYDD.

MALI

Blwyddyn newydd dda Bethan, 'di Llinos yna? Blwyddyn newydd ddaaaaaa ... lle dach chi? O ia ... dipyn bach ia ... ooooooooo blwyddyn newydd dda, 'di Meirion yna? Duda bo' fi'n deud blwyddyn newydd dda, a duda wrth Alaw a Sam bach bo' anti Mali yn deud blwyddyn newydd ddaaaaa ... ca'l uffar o laff 'ma 'de... oce, wela' i chi fory ella, taaaaaa.

MAE MALI YN DEIALU RHIF ARALL. NID YW'R PERSON YN ATEB Y FFÔN. GYRRA MALI DECSD. MAE'R TECSD YN CAEL EI YRRU AT SIONED ' BLWYDDYN NEWYDD DDA BOOBS!!'

MAE MALI YN GWENU WRTHI'I HUN, YN EISTEDD AM EILIAD, AC YNA YN MYND YN ÔL I'R DAFARN. GWELWN MALI DRWY'R FFENESTR YN CHWERTHIN GYDA PHAWB, AC YN YFED.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 57.

INT. Ystafell fyw yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22, NYRS.

MAE MALI YN EISTEDD AR GADAIR ESMWYTH YN DARLLEN LLYFR. HI YW'R UNIG UN YN YR YSTAFELL. MAE'R NYRS YN CERDDED I'R YSTAFELL AC YN MYND I EISTEDD WRTH OCHR MALI.

NYRS

Mali?

CWYD MALI EI PHEN O'R LLYFR AC EDRYCH AR Y NYRS.

NYRS

Ma'n nhw 'di cyrraedd i dy weld di; dy fam, dy dad, Catrin, Osian a Huw.

MAE MALI YN SYLLU ARNI AM YCHYDIG EILIADAU, AC YNA YN TROI EI GOLYGON YN ÔL AT Y LLYFR.

GOLYGFA 58.

INT. Tŷ Mali.

ALAW – OEDRAN 27, HUW – OEDRAN 23, MAM, TAD.

GWELWN BAWB YN YR YSTAFELL FYW. MAE HUW AC ALAW YN EISTEDD AR Y SOFFA, Y TAD YN SEFYLL GER Y DRWS, A'R FAM YN SEFYLL GER Y FFENESTR. MAE'R FAM YN EDRYCH YN DRIST, AC YN AMLWG WEDI BOD YN CRIO.

ALAW

Ma'n rhaid inni 'neud 'wbath, 'does.

HUW

Fi sy'n ei gweld hi'n iawn. 'Di hi ddim yn iach o bell ffordd, dwi'n gallu gweld bob dim.

Y FAM YN SYLLU DRWY'R FFENESTR.

MAM

Ni sy' ar fai. Y chdi a fi.

TAD

Naci

MAM

Ia tad ... tasat ti heb ... 'i gwthio hi.

TAD

Chdi oedd yn gadael iddi 'neud fel mynno hi.

MAM

Titha 'di'i magu hi 'fyd.

TAD

Ti'n fam iddi, ti fod i sylwi ar y petha' 'ma.

MAM

A titha'n dad iddi ... pan ti'n codi dy drwyn o dy waith. Gwaith, gwaith, gwaith, dyna sy'n bwysig i chdi, dim dy deulu.

HUW

Dydy beio ych gilydd, ddim yn mynd i 'neud unrhyw wahaniaeth. Help, dyna be' ma' hi'i angan.

ALAW

Ddylwn i 'di deud 'wbath wrthi, fel ffrind? Ma'n anodd deud r'wbath wrth rywun sy'n diodda'; dim ond cadw llygad arni oeddan ni'n gallu. 'Sa hi'n gwylltio tasa 'na rywun yn trio deud r'wbath. Ma' hi'n glyfar.

MAM

Ddyliaich chi 'di deud wrthon ni.

HUW

Dyliau. Ond ma' raid inni'i helpu hi rwan. Dim ots gin i os fydd hi byth isio 'ngweld fi eto, dwi isio iddi hi fod yn iawn.

MAM

Ond be' fedrwn ni 'neud? Eith hi'm i nunlla ohoni'i hun.

TAD

Fydd ganddi ddim dewis.

MAE'R TAD YN MYND O'R YSTAFELL.

ALAW

Ma' raid ichi 'i neud o, cyn iddi ddod i wybod.

HUW

Mi fydd rhaid ichi fynd yn breifat, os 'dach chi isio fo ddigwydd yn sydyn.

GOLYGFA 59.

DELWEDDAU

INT. Ystafell fyw yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 23.

**SIOT LYDAN O MALI YN EISTEDD AR Y GADAIR ESMWYTH YN YR YSTAFELL FYW, MAE HI’N
DARLLEN LLYFR.**

YMDODDI: INT. Ystafell therapi.

MAM, TAD, CATRIN – OEDRAN 11, OSIAN – OEDRAN 27, HUW – OEDRAN 24.

**MAE’R TEULU A HUW YN EISTEDD YN DISGWYL YN DAWEL, O AMGYLCH Y BWRDD CRWN
SYDD YN YR YSTAFELL.**

GOLYGFA 60.

INT. Twrnamaint Tennis. Amser: 3 o'r gloch brynhawn Sadwrn.

MALI – OEDRAN 18, STEPHANIE – OEDRAN 18.

MAE MALI YN TARO'R BÊL. SIOT AGOS O'R BÊL YN GLANIO AR OCHR FEWNOL Y LLINELL.

STEPHANIE

Out!

MALI

Ddat wos in!

STEPHANIE

No it wasn't!

MALI

les it wos, cym on, don't lai ... iw'f bîn laing ôl thrw ddy gêm.

EDRYCH MALI AR EI THAD, MAE EI THAD YN CODI EI YSGWYDDAU YN DDIAMYNEDD. MAE MALI YN CERDDED NÔL AT LINELL GEFN Y CWRT. SIOT AGOS O WYNEB MALI, MAE DEIGRYN YN SYRTHIO AR HYD EI BOCH.

GOLYGFA 61.

INT. Ystafell y meddyg yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 23, DR. WILLIAMS

MAE MALI YN EISTEDD AR GADAIR GYFERBYN Â'R MEDDYG.

MALI

Ac wedi hynny mi aethon ni adra tua 3 o'r gloch y bora. Rhannu tacsî efo Gareth ac Alaw oedd yn mynd nôl i'r Sharabang. Mi o'n i a Huw yn mynd nôl i dŷ mam a dad Huw ac Alaw. Wedyn aethon ni i gysgu ... wel k.o, rili, yn syth bin.

DR. WILLIAMS

Ac wedyn adre' i dy gartef di y d'wrnod canlynol?

MALI

Canol dydd.

DR. WILLIAMS

Be?

MALI

Dyna pryd es i adra!

DR. WILLIAMS

Pam hynny?

MALI YN EDRYCH AR Y MEDDYG.

DR. WILLIAMS

Ddaw petha'n haws, os gwnei di siarad am y peth Mali.

MALI

Ond be' os dwi'm isio?

MAE'R DDAU YN EDRYCH AR EI GILYDD.

MALI

Gesh i decst t'a naw yn y bora gan Bethan.

DR. WILLIAMS

Yn deud be'?

MALI

Yn deud bo' 'na ddamwain fawr 'di bod yn y pentra, tu allan i dŷ 'i hanti hi. Ond gymerish i fawr o sylw o'r newyddion ... achos mai Bethan 'di Bethan 'de, hel clecs a gwbod bob dim am bawb yn y pentre 'di'i phetha hi. Ma'n normal i ga'l y sgandals ganddi hi. Felly gymerish i fawr o sylw o'r tecsd, lluchio y ffôn lôn nôl ar y bedsaid teibyl, ac wedyn nôl i gysgu â fi tan ...

Ôl-fflach.

GOLYGFA 62.

INT. Ystafell Huw/ Croesdorri gyda chartref Mali. Amser – 10’or gloch y bore.

MALI – OEDRAN 21, HUW – OEDRAN 22.

MALI A HUW YN CYSGU YN Y GWELY. MAE FFÔN MALI YN CANU, GWELWN MAI EI MAM SYDD YN CEISIO EI F FONIO.

MALI

Be’ ’ma hon isio ’wan ’to?

MAE HUW YN TROI YMAITH.

MALI

Hei, iawn?

GWELWN Y FAM GARTREF AR Y FFÔN EFO MALI. MAE GOLWNG BOENUS AR WYNEB Y FAM. MAE’R OLYGFA YN MYND YN ÔL A BLAEN RHWNG Y DDWY YN YSTOD Y SGWRS.

MAM

Haia, gwranda ’wan iawn? Ma ’na ddamwain ’di bod.

MALI

Oes dwi’n gw’bod, tecstiodd Bethan gynna’ yn deu’. Pam be’ sy’ ’di digwydd?

MAM

Ma’ ’na ddwy ’di ’u lladd Mali ... **(MAE LLAIS Y FAM YN DECHRAU MYND YN DDAGREUOL)**

Kim, cymhorthydd ni ’di un.

MAE MALI YN EISTEDD AR EI FYNY YN Y GWELY.

MALI

Shiiiiiiit, naci ... Ow mai god, ti’n iawn?

MAM

Ia dwi’n gw’bod ... Ac o’n i’n meddwl ’sa’n well s’wn i’n deu pwy ’di’r llall ... ma’n nhw’n deud ... wel ma’na sôn mai ... Sioned ’di’r llall.

MALI HEB FEDDWL YN IAWN PWY YW SIONED

Sioned pwy? **MALI**

Sioned ... Sioned chi! **MAM**

MALI
(MEWN SIOC, YN DDAGREUOL) O naa.

**MAE MALI YN GOLLWNG Y FFÔN AC YN DECHRAU BEICHIO CRIO, MAE HUW YN CODI AC
YN GAFAEL YN DYNN AMDANI.**

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 63.

DELWEDDAU

INT. Ystafell Therapi yn y ganolfan arbenigo.

MAM, TAD, CATRIN – OEDRAN 11, OSIAN – OEDRAN 26, HUW – OEDRAN 24, Dr Williams.

MAE'R PUMP YN EISTEDD O AMGYLCH Y BWRDD CRWN.

MAE'R MEDDYG YN DOD I'R YSTAFELL, A PHAWB YN TROI AC YN SYLLU ARNO.

TORRI: INT. Ystafell wely Mali yn y ganolfan arbenigo.

MALI- OEDRAN 23.

MAE MALI YN GORWEDD AR EI CHEFN AR Y GWELY, YN SYLLU AR Y NENFWD. MAE HI'N TROI AR EI HOCHR AC YN SYLLU AT Y WAL. MAE HI'N CODI EI CHOESAU TUAG AT EI BOL, AC YN GAFAEL YN DYNN AMDANI HI EI HUN.

TORRI : INT. Ystafell therapi yn y ganolfan arbenigo.

MAM, TAD,CATRIN – OEDRAN 11, OSIAN – OEDRAN 26, HUW – OEDRAN 24.

MAE'R PUMP OHONYNT YN CODI O'U CADEIRIAU. MAE'R FAM YN CRIO, HUW AC OSIAN YN YSGWYD EU PENNAU.

GOLYGFA 64.

INT. Twrnamaint tennis. Amser: gwyliau hanner tymor 4 o’r gloch brynhawn Mawrth .

MALI – OEDRAN 10, GWRTHWYNEBWRAIG – OEDRAN 11, TAD.

MAE MALI A’I GWRTHWYNEBWRAIG AR GANOL GÊM. GWELWN YR WRTHWYNEBWRAIG YN TARO PÊL FER I OCHR MALI O’R CWRT. MAE MALI YN RHEDEG AT Y RHWYD AC YN TARO’R BEL YN EI HÔL. MAE’R WRTHWYNEBWRAIG YN CYMRYD SIOT GREF, Â’R BÊL TUAG AT MALI. MAE MALI YN EDRYCH AR Y BÊL YN DOD TUAG ATI. SIOT AGOS O’R BÊL YN TARO MALI YN EI BOL. SIOT AGOS O WYNEB POENUS MALI WRTH IDDI GAEL “WINDAR”. MAE RACED DENNIS MALI YN DISGYN O’I LLAW I’R LLAWR, A MALI YN GAFAEL YN EI BOL. GWELIR Y TAD YN CODI AR EI DRAED O’I SEDD AC YN EDRYCH AR MALI MEWN POEN. MAE GWÊN ENFAWR AR WYNEB YR WRTHWYNEBWRAIG. MAE MALI YN CODI EI RACED O’R LLAWR, AC YN CERDDED YN ÔL AT GEFN Y CWRT YN ARAF. MAE HI’N RHWBIO EI BOL GYDAG UN LLAW GAN GEISIO EI HATAL EI HUN RHAG CRIO.

MAE’R TAD YN EISTEDD ETO AC YN YSGWYD EI BEN AR MALI. SIOT AGOS O’R BOEN SYDD AR WYNEB MALI.

GOLYGFA 65.

INT. Ystafell Mali Gartref.

CATRIN – OEDRAN 10, MAM.

GWELWN CATRIN YN CERDDED I LOFFT MALI. MAE HI'N AMLWG YN CHWILIO AM RYWBETH YN Y LLOFFT. MAE HI'N AGOR CWPWRDD DILLAD MALI, AC YN TYRCHU DRWY'R DILLAD, YN MYND I WAELOD Y CWPWRDD DILLAD. POV CATRIN, MAE HI'N GWELD PÂR O SODLAU UCHEL SYDD GAN MALI YNG NGWAELOD Y CWPWRDD. MAE HI'N GAFAEL YNDDYN NHW, AC WEDI EU TYNNU O'R CWPWRDD, YN EU GWISGO AM EI THRAED.

MAE HI'N EDRYCH ARNI HI EI HUN YN Y DRYCH, YN GWISGO'R SODLAU.

CATRIN

(GWENU) Waw ... (EDRYCH ARNI HI EI HUN YN FANWL YN Y DRYCH) Smât!

MAE CATRIN YN MYND YN EI HÔL I CHWILIO AM RYWBETH ARALL YN YR YSTAFELL. MAE'N PARHAU I WISGO SODLAU MALI WRTH CHWILIO. GWELWN HI'N SYLLU AR LUNIAU SYDD GAN MALI AR HYD Y WAL UWCHBEN EI DESG. MAE CATRIN YN GWENU. MAE HI'N MYND I EISTEDD AR WELY MALI, AC YN EDRYCH YN DDRYSLYD.

EDRYCH CATRIN AR Y CLOC, 6:10 YW'R AMSER. MAE HI'N GWYBOD Y BYDD MALI GARTEF MEWN YCHYDIG. CWYD CATRIN YN SYDYN ODDI AR Y GWELY. MAE HI'N GWENU, AC YN EDRYCH O DAN Y GWELY. MAE HI'N ESTYN BLWCH PLASTIG SYDD O DAN Y GWELY, AC YN EI AGOR. GWELWN LAWER O FWYD YNDDO. MAE RHAI PETHAU WEDI LLWYDO, MAE LLAWER O FLYCHAU GWAG CARTHYDDION YN Y BLYCHAU HEFYD. MAE CATRIN YN CODI MEWN SIOC.

CATRIN

(GWEIDDI) MAM! MAAAAAAAAAAM ...

CLYWN Y FAM YN DRINGO'R GRISIAU.

MAM

Lle wyt ti?

CATRIN

Yn 'stafall Mali.

DAW'R FAM I SEFYLL YN Y DRWS. NID YW HI'N GALLU GWELD Y BLWCH O'R FAN Y MAE HI'N SEFYLL.

MAM

Be' 'ti'n 'neud yn fama? Ti'n gw'bod yr eith hi'n flin efo chdi, os ffeindith hi chdi yma.

CATRIN

Ma' gin Mali focs plastig yn llawn bwyd.

MAM

Am be' wyt 'ti'n rwdlan 'wan 'to?

CATRIN

(DWEUD YN ARAF) Ma' ganddi hi focs plastig, yn llawn bwyd, ac ma'n drewi.

MAE'R FAM YN YSGWYD EI PHEN, AC YN DECHRAU TROI I FYND O'R YSTAFELL.

MAM

Ma' raid i hyn sdopio. Ti'n dalld?

GOLYGFA 66.

INT. Pen y grisiau tu allan i loft Mali.

MAM, CATRIN – OEDRAN 10.

CATRIN YN CODI AC YN RHEDEG AR ÔL EI MAM.

CATRIN

Go iawn 'wan, mam.

CATRIN YN GAFAEL YM MRAICH Y FAM AC YN EI THYWYS YN ÔL I YSTAFELL MALI.

GOLYGFA 67.

**INT. Ystafell Mali adref.
MAM, CATRIN - OEDRAN 10.**

**MAE CATRIN YN DANGOS Y BLWCH I'R FAM. GWELWN WYNEB Y FAM PAN FO HI'N SYLWI
AR Y BLWCH. MAE'R FAM YN EDRYCH O DAN Y GWELY AC YN TYNNU BLWCH AR ÔL
BLWCH YN WYLLT ODDI YNO, MAE'N EU HAGOR. MAENT I GYD YN LLAWN BWYD.**

GOLYGFA 68.

EXT. Y tu allan i gartref Mali.

MALI- OEDRAN 22.

GWELWN FINI MALI YN CYRRAEDD Y TU ALLAN I'R TŶ.

GOLYGFA 69.

INT. Ystafell Mali.

MAM, CATRIN – OEDRAN 10.

**NID YW'R FAM WEDI SYLWI FOD MALI WEDI CYRRAEDD ADREF. MAE'R FAM YN MYND
DRWY BOPETH YN WYLLT YN LLOFFT MALI.**

GOLYGFA 70.

INT. Drws ffrynt cartref Mali.

MALI – OEDRAN 22.

SIOT O MALI YN DOD DRWY'R DRWS FFRYNT.

MALI

Hey!

GOLYGFA 71.

INT. Ystafell Mali.

MALI – OEDRAN 22, CATRIN – OEDRAN 10, MAM.

NID YW'R FAM YN SYLWI AR GYFARCHIAD MALI. MAE CATRIN YN CEISIO ATAL Y FAM, WERTH I MALI GERDDED I'W LLOFFT YN GWISGO DILLAD TENNIS. MAE MALI YN GWELD EI MAM YN MYND DRWY AMRYW O'I PHETHAU, AC YN GOLLWNG EI BAG TENNIS AR Y LLAWR CYN BRYDIO AT EI MAM. MAE'N EI THYNNU I FFWRDD O'I PHETHAU.

MALI

Be 'da chi'n 'neud?

MAM

Be *ti'n* 'neud, ti'n feddwl.

MALI

Eh?

MAE'R FAM YN PWYNTIO TUAG AT Y BLYCHAU.

MAM

Ers pryd?

MAE WYNEB MALI YN BANIG I GYD. MAE'N RHUTHRO AR LAWR, AC YN CAU'R BLYCHAU.

MAE CATRIN YN SEFYLL YN ERBYN Y WAL, YN AMLWG YN POENI AC YN OFNI.

MALI

(SGRECHIAN GWEIDDI) 'Sgynnoch chi'm hawl mynd drw' 'mhetha' i.

MAM

Dwi'n fam ichdi, ma' gin i berffaith hawl Mali.

MALI

Nagoes tad. Mi 'dach chi bob tro yn trio rheoli 'mywyd i, efo bob dim. Dim hogan fach ydw i.

Dwi'n ddau ddeg dau, for god sakes.

MAM

Paid ti â meiddio. Ti 'di ca'l bob dim gynnon ni.

MALI

Bob dim oeddach chi isio, ti'n feddwl ia? Pwsho fi ac Osian i chwarae tennis. Doedd gin i'm dewis; gorfod mynd i Wrecsam ar benwythnos am wers. Mi o'n i isio mynd i siopa. Ti'n gw'bod, gwneud y pethau ma' pobl ifanc yn licio'u 'neud efo'u ffrindia. A'r munud 'nath Osian roi gora' iddi, fi o'dd yn gorfod cym'yd y shit, gan dad. Fi, yn ddeunaw, yn dal yn gorfod gneud be oeddach chi'n ddeu'. Heb sôn am drio gwneud fy ngwaith ysgol, telyn, côr, actio a bob shiting dim arall. Byw ych bywyd chi, drw' 'mywyd i, achos bod ych un chi mor shit.

MAM

Wel yr hen gnawes fach. 'Nes di'm chwarae llawer pan oeddach chdi'n coleg beth bynnag. Mi oeddach chdi'n rhy brysur, yn mwynhau dy hun. Gwneud sioe ohonoch chdi dy hun. Yr unig beth sy'n bwysig i chdi ydi hogia, a'r sylw ti'n 'i gael gynnon nhw, a dy ffrindia.

MALI

Dwi 'di fockin colli un! **(SIOT O CATRIN YN DECHRAU CRIO YN Y GORNEL. SIOT O MALI YN DECHRAU CERDDED O'I HYSTAFELL. MAE HI'N TROI I EDRYCH AR CATRIN.)** Tynna' sgidia fi 'wan. Chdi sy' 'di cychwyn hyn i gyd, 'de? Bai chdi 'di bob dim.

MAM

Mi fyddan ni 'di colli merch ar yr rât yma 'fyd.

SIOT O MALI YN DECHRA CERDDED I LAWR Y GRISIAU.

MALI

Cau dy geg.

MAE'R FAM YN DILYN MALI I LAWR Y GRISIAU AC YN GWEIDDI ARNI.

MAM

'Ti i fod i ddangos esiempl. 'Ti'n mynd i fod yn athrawes, mewn llai na hanner blwyddyn. Ers pryd 'ti 'di bod wrthi? **(SAIB)** Dyna pam ti 'di bod yn chwarae cymaint o dennis de, i gael ecsyrseisho.

MALI

Chi, sy' 'di rhoi tennis arna i. Fysa fiw imi stopio. Er, dach chi a fi'n gw'bod 'nai byth gyrradd Wimbledon, neu 'swn i yna wan.

MAE'R FAM YN DECHRAU CRIO.

MAM

Disgwylia 'di nes bo' dy dad yn ca'l clwad am hyn.

MALI

Dudwch wrtho fo, mots gin i. Ma'n hen bryd iddo fo ga'l gw'bod. Os cymeith o ddiddordeb yn be' 'sgynnoch chi i ddeud. 'Chos i fod yn onasd, 'di o prin yn siarad efo chi eniwe, nadi mam.

GOLYGFA 72.

EXT. Y tu allan i gartref Mali.

MALI – OEDRAN 22, MAM.

MALI YN MYND ALLAN DRWY'R DRWS FFRYNT, AC YN CERDDED TUAG AT EI CHAR.

MAM

'Ti 'di bod wrthi ers coleg, yndo? Ers i'r hogyn gwirion 'na orffen efo chdi. Yn'do Mali? 'Ti'n cadw bob dim i chdi dy hun 'di mynd, ers i....

MALI YN GWEIDDI YN WYNEB EI MAM.

MALI

Peidiwch â meiddio deud 'i henw hi

MAE MALI YN MYND I'R CAR AC YN EI DANIO.

MAM

(TARO FFENEST Y CAR) Lle 'ti'n mynd?

SIOT O GAR MALI YN GYRRU O'R LLE AR WIB.

MAM

(SIOT AGOS O WYNEB Y FAM) 'Ti angan help Mali.

GOLYGFA 73.

INT. Cartref Mali. Amser: 7 o'r gloch nos Iau.

MALI – OEDRAN 9, TAD.

MAE MALI A'I THAD YN EISTEDD GARTREF AR Y SOFFA. MAENT YN GWYLIO MALI YN YMARFER SYRFIO AR Y TELEDU ER MWYN GWELD LLE Y GALL HI WELLA. GWELWN Y TAD YN ATAL Y SGRIN A'I RHEDEG NÔL A.Y.Y.B. MAE MALI YN EISTEDD AR Y SOFFA YN CHWIFIO'I CHOESAU YN ÔL A BLAEN YN EDRYCH YN DDIFLAS.

GOLYGFA 74.

INT. Ystafell y meddyg yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 24, DR. WILLIAMS.

MALI YN EISTEDD GYFERBYN Â'R DOCTOR.

DR.WILLIAMS

Felly, alli 'di ddisgrifio neu ailadrodd un o'r adegau lle'r oeddach chdi'n teimlo fel tase ti'n rheoli? Ar wahân i'r blychau!

MALI

Be ar wahân i'r blychau?

Dr. Williams

Ia Mali, meddyliwch am eiliad.

MALI

(SIOT AGOS OHONI YN MEDDWL) Ma' 'na un adeg lle'r o'n i'n teimlo'n wych, y fi'n rheoli a be' o'n i'n ddeud oedd yn bwysig!

Ôl-fflach.

GOLYGFA 75.

INT. Llyfrgell. Ionawr.

MALI – OEDRAN 20, CARWYN – OEDRAN 20.

GWELWN MALI WRTHI’N GWNEUD EI GWAITH YN Y LLYFRGELL. MAE HI’N GWRANDO AR GERDDORIAETH AR EI I-POD, MAE POTEL O DDŴR O’I BLAEN. YNA, MAE HI’N EDRYCH DRAW AC YN SYLWI BOD EI CHYN-GARIAD CARWYN YN EISTEDD O’I BLAEN. MAE’N EISTEDD YN Y SEDD GYFERBYN Â HI, YN SYLLU ARNI. MAE MALI YN RHOI NAID FACH WRTH IDDI GAEL SIOC O’I WELD. MAE HI’N TYNNU EI CHLUSTFFONAU O’I CHLUSTIAU.

MALI

(SIBRWD) Ow mai god! Be’ ’ti’n ’neud ’ma?

CARWYN

(SIBRWD) Be ’ti’n ’neud ’ma?

MALI

Adolygu at yr arholiadau ’sgin i ddiwadd mis.

CARWYN

Welish i chdi dwrnod o’r blaen, o bell ... ges di’ m ’nhecsd i, wel y ddau decsd?

MALI

Sud oddach chdi’n gw’bod ’mod i yma heddiw, ’ta?

CARWYN

Do’n i ddim.**(GWENU YN SLEI)**

MALI

’Ti’n siriys?

CARWYN

’Dan ni angan siarad.

MALI

Allwn ni’ m ’neud yn fama... **(EDRYCH O’I CHWMPAS)** Dwi angan awyr iach a brêc eniwe.

**MAE MALI A CARWYN YN CODI O’U SEDDI, AC YN CERDDED OCHR YN OCHR AR HYD Y
CORIDOR DRWY DDRWS Y LLYFRGELL AC ALLAN.**

GOLYGFA 76.

EXT. Y tu allan i'r llyfrgell.

MALI – OEDRAN 20, CARWYN – OEDRAN 20.

MALI

'Ti'n iawn?

CARWYN

Yndw sdi. Ti'n edrach yn dda fyd, chwara' teg. Pam oddach chdi'm yn edrach fel hyn, pan o'n i'n mynd 'fo chdi. **(GWÊN DDIREIDUS AR EI WYNEB, A CHWERTHINIAD SBEITLYD)**

MALI

Dwi'n iawn 'fyd, diolch am ofyn. Sgiwsmi, do'n i ddim mor fowr a hynna pan o'ni'n mynd efo chdi chwaith, y twat.

CARWYN

Ddim i ddechra'. Ond c'mon, mi es 'di'n fwy 'ndo?

MALI

Be' 'ti'n trio ddeu'?

CARWYN

Dim, jyst..

MALI

Oddach chdi wrth dy fodd yn fatgoffa i o'r ffaith, 'mod i wedi 'fyd, 'n doddachd.

CARWYN

Nago'n ...

MALI

A do'n i ddim yn mental chwaith, diolch yn fawr.

CARWYN

Nôl sôn, ma' gin ti broblam yfad, oes?

MALI

Paid â malu. Be'

CARWYN

(TORRI AR EI THRAWS) A ma' gin ti broblam buta fyd? Be wyt ti Anorecsic?

MALI

Un, 'di o ddim busnes i chdi be dwi'n neud 'fo fi'n hun. Dau, 'sgin i ddim problem yfad, dwi jyst yn mynd allan a mwynhau fy hun achos 'sgin i mo chdi i orfod gwatchad ar ei ôl ddim mwy. A tri, dwi ddim yn anarecsic, diolch yn fawr iawn i chdi. Well 'ti siarad efo pwy bynnag sy'n cychwyn y clwydda 'ma, a deud y gwir wrthyn nhw.

CARWYN

Wel ... ma' 'na lot o bobl yn deud hyn 'de.

MALI

Un gair i dy ddisgrifio 'di Carwyn ... dickhead (**SAIB LETCHWITH**)

CARWYN

Ti'n gwbod ... be ddigwyddodd yn freshers 'de?

MALI

O'dd hynna'n amlwg yn fisdec doedd. Ti a fi yn gw'bod hynna 'wan.

CARWYN

Na ... achos dwi'n gw'bod bo' fi isio bod efo chdi 'wan.

MALI

O'n i'n gwbod. O'n i'n blydi gwbod mai fel hyn fysa chdi. 'Di ca'l dy laff, 'di ca'l neu' be' bynnag oeddach chdi isio. Ond helo, 'chydig o fisoedd, a ma' Mali'n ddigon da 'wan, dydi?

CARWYN

O'n i'n hollol gytud. Munud welish i bo' chdi efo Huw, o'n i ...

MALI

Ddim digon gytud, yn amlwg.

CARWYN

Mi o'n i 'di colli'n ffôn, do'dd gin i'm dy rif 'di, wedyn mi geshi o, ac o'n i am decstio chdi a ...

MALI

A be'?

CARWYN

O'n i'n ormod o fabi, o'n i ofn.

MALI

Tri mis yn rhy hwyr, i fod yn onasd efo chdi. Dwi 'fo Huw wan, a ma'n uffar o foi iawn, clên, lyfli a 'sa fo'n gneud 'wbath i fi.

CARWYN

Ia, dwi'n gw'bod bo' Huw yn foi iawn a bob dim 'de. Ond no we bod o'n licio chdi gymaint ag o'n i'n ... naci... gymaint â dwi'n licio chdi.

MALI

Carwyn, doeddach chdi'm yn deud wrtha i faint o'n i'n 'i feddwl i chdi pan oddan ni'n mynd efo'n gilydd, so 'sgin ti'm hawl deud hyn 'wan.

CARWYN

Ia, ond o'n i ddo ...

MALI

Ia, wel, mi o'dd gin ti ffor' ryfedd iawn o ddangos o. Chwydu yn bob man ar hyd 'nhÿ i, ia. Cyrra'dd 'nhÿ fi'n hwyr, ia, neu oria' mân y bora. Fflyrtio efo genod eri'll o mlaen i, ia, a heb anghofio dy hoff beth 'di, gorffan efo fi t'a chwe gwaith. Ar ddiwadd y dydd ia, oeddach chdi'n shit.

CARWYN

'Sa'm point na?

MALI

Be'?

CARWYN

Ni. Chdi a fi?

MALI

Chdi a fi, 'dan ni ddim am fod efo'n gilydd, pwyr wÿr yn y dyfodol be' ddigwyddith. Ond ar hyn o bryd, na 'di'r ateb, sori.

CARWYN

Dwi 'rioed 'di difaru 'im byd gymaint â hyn, hollol gytud.

MALI

O tyd yn dy flaen. Ti'n siŵr o ga'l rhywun, a rhywun sy' lot delach, a gwell na fi 'fyd.

CARWYN

Dwi'n meddwl 'sa'n well i fi fynd wan ... wela' i di'n fuan Mali Ellis.

CARWYN YN TROI A CHERDDED ODDI WRTHI.

MAE CARWYN YN CODI EI LAW I'R AWYR, OND NID YW'N TROI I EDRYCH AR MALI. MAE MALI YN CERDDED ROWND Y GORNEL YN SYDYN. MAE HI'N ESTYN EI FFÔN, AC YN DEIALU RHIF HUW.

MALI

Shit..... Huw, Ow. Mai. God. 'Nei 'di byth geshio, be' sy' newydd ddigwydd i fi.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 77.

DELWEDDAU

INT. Car Huw.

HUW – OEDRAN 24.

HUW YN GYRRU'R CAR.

YMDODDI: INT. Cartref Mali.

GWELWN DDAU GERDYN GRADDIO TENNIS OCHR YN OCHR Â'I GILYDD AR Y BWRDD.

YMDODDI: INT. Mini du Mali.

Mali – Oedran 24.

MALI YN GYRRU CAR, GWELWN WÊN LYDAN MALI YN NRYCH Y CAR.

GOLYGFA 78.

INT. Twrnamaint Tennis. Amser: 2 o'r gloch brynhawn Sadwrn.

MALI – OEDRAN 7, ALEXANDRA – OEDRAN 7.

**SAIF MALI AC ALEXANDRA OCHR YN OCHR Â'I GILYDD. MAENT YN CERDDED TUAG AT Y
CWRT TENNIS. MAE'R DDWY YN CAEL SGWRS. SIOT YN MYND YN ÔL AC YMLAEN O'R
DDWY, FEL GÊM DENNIS.**

MALI

Wots ior neim?

ALEXANDRA

Alexandra, what's yours?

MALI

Mali Ellis. Wer iw ffrom?

ALEXANDRA

Cheshire, you?

MALI

Pantefail.

ALEXANDRA

Where?

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 79.

INT. Ystafell therapi celf yn y ganolfan arbenigo.

FFLUR – OEDRAN 27, MALI - OEDRAN 22, TIWTOR.

**MAE MALI YN EDRYCH O AMGYLCH YR YSTAFELL, MAE MERCH ARALL YN EISTEDD
GYFERBYN Â HI. MAE MALI YN EDRYCH AC YN SYLLU AR Y CANFAS GWYN SYDD O'I BLAEN,
AC YNA YN CODI EI PHEN I EDRYCH AR Y FERCH. MAE'R FERCH YN DAL EI LLYGAID.**

(GWENU) Paid â phoeni. **FFLUR**

Dydw' i ddim. **MALI**

Ocê... **(SAIB)** Fflur dwi, bai ddy we... **FFLUR**

Mali. **MALI**

Newydd? **FFLUR**

MALI YN NODIO EI PHEN
(MEWN PANIG) Dwi methu 'neud llunia'. **MALI**

FFLUR
Do' ddwn i ddim chwaith, ond dwi fatha Picasso erbyn 'wan.

MAE'R DDWY YN CHWERTHIN.

'Ti yma ers amser? **MALI**

Nôl a mlaen. **FFLUR**

Ooo reit **(SAIB)** Pam 'ti yma? **MALI**

FFLUR

Iselder, fama' yn helpu lot. Be' sy' 'fo chdi?

MALI

Dim.

FFLUR

(SAIB) Lle ma'r ddynas 'ma?

SAIB ANGHYFFYRDDUS RHWNG Y DDWY AM GYFNOD. MAE MALI YN EDRYCH AR Y FERCH.

MALI

Ma' pawb yn meddwl bo' gin i broblam 'fo bwyd, ond ... och, dwm'bo'.

FFLUR

Paid â bod cywilydd o'r peth. Ma' gin bawb 'u problema'. Weithia, ma' rhei pobl angan mwy o help nag eraill, a man bwysig bo' nhw'n sylwi'u bod nhw wirioneddol angan yr help.

MAE'R DDWY YN EDRYCH AR EI GILYDD, AC YN GWENU. GWELWN Y TIWTOR THERAPI CELF YN RHUTHRO I'R YSTAFELL.

TIWTOR

Sori genod. Reit 'ta, heddiw dwi isio ichi ddarlunio, a dangos eich teimladau chi, am ryw ddiwrnod neu ddigwyddiad sydd wedi aros yn eich cof chi, iawn? Gall fod yn rh'wbath.

SIOT AGOS O MALI YN NODIO. MAE HI'N CAU EI LLYGAID AC YN ANADLU'N DDWFN.

POV MALI, GWELIR BRWSH PAENT, YNA BLÂT PAENT, O'I BLAEN. MAE EI LLAW YN SYMUD TUAG AT Y BRWSH YN ARAF, AC YN EI GODI, YN EI ROI YN Y PAENT PIWS, AC YN DECHRAU DARLUNIO PILI PALA.

GOLYGFA 80.

INT. Clwb nos.

MALI – OEDRAN 20, BECA - OEDRAN 20, ALIS – OEDRAN 20, ELIN – OEDRAN 20, 20 ARALL
O GRIW CRÔL PÊL-RWYD.

MAE'R GENETHOD SYDD AR GRÔL PÊL-RWYD CYMDEITHAS GYMRAEG Y BRIFYSGOL,
MEWN CLWB NOS. MAE POB UN OHONYN NHW WEDI GWISGO DILLAD LLACHAR. PAWB
YN GWISGO CRYST GWYN, GYDAG YSGRIFEN PIN FFELT ARNO YM MHOB MAN, CEIR
ENWAU GWIRION, LLUNIAU AR RAI, A NEGESEUON AR RAI ERAILL. GWELWN MALI YN
DAWNSIO GYDA BECA AC ALIS. MAE MALI WEDI EI GWISGO YN WIRION, MAE GANDDI
DEITS LLACHAR PIWS, SODLAU UCHEL IAWN, SIORTS CWTA DU, CRYST GWYN, BAND
GWALLT GLAS LLACHAR AR DOP EI THALCEN, DOTIAU U.V. AR EI HWYNEB GYDA PHAENT
ARBENNIG, *FAKE EYE LASHES* ANFERTH PIWS, A PHATRYMAU MEWN PAENT U.V. LAWR
UN FRAICH.

MALI

Dwi'n mynd i weld lle ma' Elin, iawn?

MAE ALIS A BECA YN RHOI NÔD I MALI, YNA YN MYND YN EI HOLAU I DDAWNSIO.
CERDDA MALI DRWY'R DORF YN FEDDW. POV MALI YN GWELD ELIN YN SIARAD GYDA
CHRIW O FECHGYN. MAE MALI YN ADNABOD Y BECHGYN. MAEN NHW FLWYDDYN YN
HÛN NA HI YN Y BRIFYSGOL. NID YW HI YN EU HADNABOD YN DDIGON DA I SIARAD GYDA
NHW OND GAN EI BOD HI WEDI MEDDWI, MAE HI'N CERDDED TUAG AT Y CRIW AC AT
ELIN YN HYDERUS.

MALI

Duw, fama 'ti.

ELIN

la...

MAE ELIN YN TROI YN EI HÔL AT Y BECHGYN AC YN TROI EI CHEFN AT MALI. MAE ELIN AR GANOL CHWISTRELLU GWALLT UN O'R BECHGYN Â LLIW COCH. MAE MALI YN CHWERTHIN WRTHI EI HUN WRTH IDDI EDRYCH AR ELIN YN EI DANGOS EI HUN. MAE MALI YN GAFAEL MEWN PIN FFELT DU.

MALI

O duuuuuuwcs.

MAE MALI YN DECHRAU YSGRIFENNU MALI ELLIS, FY ENW I YW MALI ELLIS, MALI ELLIS 4EVA AR FREICHIAU'R HOGIAU I GYD. GWÊL ELIN HYN, CYMER Y BIN FFELT ODDI AR MALI, CYN DECHRAU YSGRIFENNU EI HENW HI AR FREICHIAU UN O'R BECHGYN, SEF YR UN MWYAF GOLYGUS, HUW.

MALI

'Ti'n dod aton ni, ta be?

ELIN

Mi fydda'i yna, mewn bach... **(TROI YN EI HÔL I SIARAD GYDA HUW)**

MALI

'Ti'n gw'bod lle 'dan ni? 'Dan ni wrth ymyl y...

ELIN

Mi fydda' i yna yn munud, iawn ... dwi wrthi'n siarad efo Huw. **(RHO ARWYDD I DDWEUD WRTH MALI AM FYND)**

MAE MALI YN TROI EI LLYGAID AR ELIN. MAE HUW YN EI GWELD, AC YN DAL LLYGAID MALI, CYN GWENU AR MALI. MAE MALI YN GWENU YN ÔL ARNO YN BRYFOCLYD AC YN MYND ODDI YNO. MAE MALI YN CERDDED YN EI HÔL TUAG AT ALIS A BECA. MAE GWÊN SBEITLYD AR DRAWS EI HWYNEB

MALI

Ffyc secs 'de. Dwi'm yn gw'bod pwy ma'i'n feddwl ydi.

BECA

Am bwy yt ti'n siarad Mal?

MALI

Shiting Elin.

ALIS

Ma'i'n meddwl, mai'n gorj eto 'ndi. Ma'i gneu' mhen i mewn.

MALI

Dwi'n gw'bod bo' hi'n ffrind i ni, a bo' ni'n byw 'fo hi a bob dim de. Ond blydi hel ddim jyst hi sy'n singyl yn lle 'ma... Helo, Mali Ellis heb fod 'fo neb ers 2 fis, actual singyl. Ma'i 'di bod efo hanner hogia' Cymric, a 'fo'r hogia' del i gyd, sy'n gadel dim ar ôl i ni... Wel, 'di hi ddim yn ca'l hwn 'fyd 'de, noooooooooo blydi we.

BECA

Paid beco, Elin yw hi. Ma' pawb yn gw'bod shwt un yw hi.

MALI

Annoying, 'di'r unig air i'w disgrifio hi, end of.

ALIS

Ar ddiwedd y dydd 'de ... 'dan ni'n gw'bod hyn i gyd yn barod ... so 'gna 'wbath defnyddiol, ac yfa, dawnsia, megis dawnsio drygi.

GWELWN Y TAIR YN CHWERTHIN, YN TARO'U GWYDRAU YN ERBYN EI GILYDD, AC YN MYND YN ÔL I DDAWNSIO. SYRTH WYNEB MALI PAN WÊL ELIN YN CERDDED TUAG ATYNT, GYDA'R BECHGYN.

MALI

Ych.

ELIN YN DOD I DDAWNSIO GYDA'R GENOD, A'R BECHGYN YN EISTEDD ONI BAI AM HUW, SYDD YN YMUNO GYDA NHW. MAE GWÊN FAWR AR WYNEB ELIN.

ELIN

lawn?

MAE MALI YN RHOI GWÊN ANFERTH FFALS YN ÔL IDDI, AC YNA YN DANGOS WYNEB BLIN I ALIS A BECA. MAE ELIN YN CEISIO DAWNSIO GYDA HUW, OND MAE HUW YN DAWNSIO YN EI FYD BACH EI HUN. SIOT AGOS O WYNEB MALI WRTH IDDI WELD ELIN YN CEISIO DAWNSIO GYDA HUW. MAE MALI YN TROI EI LLYGAID, CYN CERDDED O'R FAN YN FRYSIOG.

GOLYGFA 81.

INT. Toiled merched y clwb nos.

MALI – OEDRAN 20.

MALI YN CERDDED DRWY DDRWS Y TOILED YN FLIN. MAE HI’N MYND AT Y SINC AC YN LLUCHIO EI BAG. MAE HI’N AMLWG WEDI MEDDWI. MAE HI’N ESTYN MASCARA O’I BAG AC YNA YN EDRYCH YN Y DRYCH. MAE HI’N SYLWI NAD YDYW HI ANGEN GWISGO MASCARA, GAN FOD GANDDI “FAKE EYELASHES” ANFERTH PORFFOR. GWELWN ADLEWYRCHIAD OHONI YN Y DRYCH GYDA GWÊN ANFERTH AR EI HWYNEB. MAE HI’N CHWERTHIN AC YN RHUTHRO O’R TOILED.

GOLYGFA 82.

INT. Clwb nos.

**MAE MALI YN CERDDED O'R TOILED AC YMUNO GYDA'R GENOD AC YN DECHRAU
DAWSIO. MAE HUW YN YMUNO GYDA HI. HUW A MALI YN EDRCH AR EI GILYDD AC YN
DECHRAU DAWNSIO YN WIRION. MAE'R DDAU YN CHWERTHIN.**

GOLYGFA 83.

INT. Ystafell therapi celf yn y ganolfan arbenigo.

MALI- OEDRAN 22, FFLUR – OEDRAN 27, TIWTOR.

MAE MALI WRTHI’N GORFFEN Y LLUN.

MAE PILI PALA ARNO YM MHOB MAN. MAE SGWÂR AUR ARNO, LLUN O FERCH YN EDRYCH YN UNIG OND YNG NGHANOL TORF FAWR O BOBL. GWELIR LLAWER O DDUWCH YN Y LLUN. MAE MALI A FFLUR YN GORFFEN DARLUNIO.

TIWTOR

Gei di fynd gynta’ Mali...

MALI YN CYMRYD ANADL DDOFN.

MALI

Ym, diwrnod dryslyd, yn llawn emosiynau gwahanol...

Ôl-fflach.

GOLYGFA 84.

INT. Eglwys.

MALI – OEDRAN 21, MEIRION – OEDRAN 21, LLINOS – OEDRAN 21, ANGHARAD – OEDRAN 21, BETHAN – OEDRAN 21.

MALI, LLINOS A MEIRION YN EISTEDD MEWN RHES. BETHAN AC ANGHARAD YN EISTEDD YN Y RHES O’U BLAENAU. POV MALI YN SYLLU AR YR ARCH SYDD O’I BLAEN, YNA YN TROI I EDRYCH AR YR HOLL BOBL SYDD YN YR EGLWYS, A’R HOLL BOBL IFANC SYDD YNO.

MAE CERDDORIAETH YN DECHRAU CHWARAE YN Y CEFNDIR, SEF ‘WONDERWALL’ GAN OASIS. MAE PAWB YN SEFYLL AR EU TRAED.

MALI

(SIBRWD) Oes ’na lot tu allan?

MAE MEIRION YN EDRYCH DRWY’R FFENESTR AC YN NODIO. GWELWN WYNEB Y PUMP. MAE RHAI YN CAU EI LLYGAID, AC YN CYMRYD ANADL DDOFN WRTH I DEULU SIONED GERDDED DRWY’R EGLWYS. POV MALI YN EDRYCH AR LUN SIONED SYDD AR BEN YR ARCH, AC YNA YN CAU EI LLYGAID.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 85.

INT. Ystafell gelf.

MALI – OEDRAN 22, FFLUR – OEDRAN 27, TIWTOR.

**MAE'R TIWTOR A FFLUR YN EDRYCH AR MALI YN DWEUD EI STORI. NID OES LLAWER O
EMOSIWN AR WYNEB MALI WRTH IDDI ADRODD YR HANES.**

MALI

Ma'r tri nodyn cerddorol yma yn dangos y tair cân a gafodd ei chwarae. O'n i'n meddwl bo'
nhw wedi anghofio hynna tan...

Ôl-fflach.

GOLYGFA 86.

INT. Eglwys.

GWEINIDOG.

GWEINIDOG

A 'wan, mi fyddwn ni'n gwrando ar dair cân y gwnaeth Sioned eu dewis, yn rhyfedd iawn rhyw dair wythnos yn ôl. Ar ôl y gân olaf, mi fyddwn ni'n codi ac yn gadael yr Eglwys.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 87.

INT. Ystafell therapi Celf.

MALI – OEDRAN 22, FFLUR – OEDRAN 27, TIWTOR.

MALI

Munud glywisch i'r gân gynta' 'na, o'n i'n gone, hollol gone. 'Dach chi'n gwbod pan 'dach chi'n trio nadu'ch hun rhag grio, a 'dach chi jyst yn crynu. Dwi'n meddwl mai'r ffaith, mai hi oedd 'di dewis y caneuon oedd y peth gwaetha'. Dwi 'rioed 'di teimlo ofn fel'na,

Ôl-fflach.

GOLYGFA 88.

EXT. Tu allan i'r Eglwys / Mynwent.

MALI – OEDRAN 21, LLINOS – OEDRAN 21, ANGHARAD – OEDRAN 21, MEIRION– OEDRAN 21, BETHAN – OEDRAN 21, MAM MALI, CRIW ENFAWR O BOBL.

MAE MALI YN DOD I'R DRWS AC YN EDRYCH I FYNY. MAE MEWN SIOC, AC YN AMLWG MEWN OFN WRTH IDDI SEFYLL YNO. MAE EI FFRINDIAU YN CERDDED HEIBIO IDDI, AC YN PARHAU I FYND DRAW TUA'R FYNWENT. POV MALI YN EDRYCH DRAW AT LWYBR HIR A'R GIÂT. MAE HI'N EDRYCH I'R DDE, MAE CANNOEDD O BOBL YN SEFYLL YNO MEWN DILLAD DU. MAE HI'N EDRYCH I'R CHWITH, AC MAE MWY O BOBL YN SEFYLL YNO MEWN LLINELL DDU. POV MALI YN DECHRAU CERDDED AC YN EDRYCH AT Y LLAWR. MAE'N CODI EI PHEN, BOB HYN A HYN. POV MALI YN GWELD EI MAM. MAE DAGRAU YN DISGYN HYD RUDD EI MAM WRTH IDDI SEFYLL YNG NGHANOL Y DORF. MAE MALI YN PARHAU I FYND HEIBIO GYDA'I FFRINDIAU. MAE MWY O BOBL YN SEFYLL Y TU ALLAN I'R GIATIAU, AC MAE PLISMYN YN SEFYLL YNG NGHANOL Y LÔN. GWELWN Y CRIW YN CERDDED TUAG AT GIÂT Y FYNWENT, AC YN MYND TRWYDDI. POV O MALI YN EDRYCH YN EI HÔL. MAE MÔR O DDÛWCH YN WYNEBU MALI.

POV MALI YN EDRYCH I'R TWLL YN Y DDAEAR.

SIOT AGOS O ROSYN COCH YN NWWYLO MALI.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 89.

INT. Ystafell therapi celf.

MALI – OEDRAN 22, FFLUR – OEDRAN 27, TIWTOR.

MAE FFLUR YN SYCHU DEIGRYN BACH O'I GRUDD.

MALI

Fi 'di hon. O'n i'n teimlo fatha bo' pawb yn syllu arna' i y d'wrnod yna, Paranoid o'n i dwi'n meddwl.

Ôl-fflach.

GOLYGFA 90.

EXT. Y tu allan i'r eglwys.

MALI – OEDRAN 21, CRIW O FFRINDIAU MALI – OEDRAN 21, HEN FFRIND 1 A 2- OEDRAN 21, MAM.

MAE'R DDWY FERCH YN SIARAD YNG NGHANOL Y STRYD Y TU ALLAN I'R EGLWYS. HEN FFRINDIAU YSGOL MALI YDYN NHW. DYDYN NHW HEB WELD EI GILYDD ERS BLYNYDDOEDD. MAE MALI YN SEFYLL WRTH OCHR EI CHRIW FFRINDIAU.

HEN FFRIND 1

Ti 'di gweld Mali?

HEN FFRIND 2

Naddo! Pam, lle ma' hi?

HEN FFRIND 1

Paid â'i 'neud o yn rhy ofiys, ond ma' hi'n fan'cw.

HEN FFRIND 2

Arglwydd mawr, hi fydd mewn bocs nesa, os na watchith hi.

MAE'R DDWY YN SYLLU AR MALI. WRTH IDDYN NHW SYLLU MAE MALI YN DAL EU LLYGAID, AC YN RHOI GWÊN FACH IDDYN NHW.

HEN FFRIND 2

(CODI EI LLAW, SIBRWD WRTH Y FFRIND ARALL WRTH WENU.) Graduras, well inni fynd i ddeud 'wbath.

HEN FFRIND 1

(SIBRWD) Mmm.

MAE'R DDWY FERCH YN CERDDED AR DRAWS Y FFORDD AT MALI. SIOT O FFRIND 1 YN COFLEIDIO MALI. GWELWN Y FERCH YN RHOI UN FRAICH O AMGYLCH MALI, A SYLWI PA MOR DENAU YDYW MALI. MAE HI'N GWNEUD YSTUMIAU AR HEN FFRIND 2.

HEN FFRIND 2

Sud w't ti?

MALI

Gweddol, ar dd'wrnod fel heddiw.

HEN FFRIND 1

Ma'r peth yn ofnadwy dydi.

MALI

(DIFYNADD) Sori, 'dach chi'n meindio os dwi'n mynd i chwilio am mam.

MALI YN GADAEI Y DDWY.

HEN FFRIND 1

Blydi hel ma'i'n dena'.

MAE'R DDWY YN GWNEUD YSTUMIAU AR EI GILYDD.

MAE MALI YN SEFYLL GYDA'I MAM. SIOT O SYMUDIAD ARAF O HANDBAG WEDI EI WNEUD O FLODAU GWYN, GYDA SASH PIWS YN DWEUD 'SIONS', RHOSYS COCH AR HYD Y CANOL A PHILI PALA PIWS AR EI HYD YN CAEL EI GARIO HEIBIO TUAG AT Y FYNWENT. MAE MALI YN EDRYCH AR Y BLODAU A CHEIR SIOT O FFRINDIAU MALI YN EDRYCH ARNYN NHW.

Ôl-fflach yn darfod.

GOLYGFA 91.

EXT. Y stryd ble mae tŷ Mali yn y Brifysgol, Caerdydd.

MALI – OEDRAN 20, BECA – OEDRAN 20, ALIS – OEDRAN 20, ELIN – OEDRAN 20.

MAE'R PEDAIR YN CERDDED YN FLÊR YNG NGHANOL Y STRYD. MAE GAN BECA, ALIS AC ELIN BACED O SGLODION YN EU DWYLO, DOES GAN MALI DDIM BYD. MAE'R PEDAIR YN CANU YN UCHEL AC YN SLYRIO EU GEIRIAU.

MALI, BECA, ALIS AC ELIN

Ti yw harbwr dioooogel, yng nghaaanol y stooooooooorm.'

ALIS

Ti yw'n breichiau caaadarn, im caaaaaaadww rhag ofn'

BECA

'WOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOOO'

MALI

I'm cadw i rhag. Oooooooooooooooooooooooooofn'

MAE ELIN YN DAL I FWYTA EI SGLODION

ALIS

Da 'di'r gân 'na fyd, ia, o'n i byth yn meddwl 'swn i'n deud hynna.

BECA

Fi byth yn gryndo ar bethach fela ... well 'da fi John Barrowman

PAWB YN EDRYCH AR EI GILYDD AC YN CHWERTHIN.

BECA

'Yt ti'n siwr nag 'yt ti moyn chipen fach.

MALI

Dwi'n iawn diolch.

ALIS

'Ti 'di newid ia, 'ti'n starfian fel arfar ddo.

ELIN

Oeddach chdi'n agos iawn at Huw heno!

MALI

'Ti'n agos iawn at rywun bob tro 'ti allan.

ALIS

Ti'n dalld na Huw hot, 'di o, wt?

MALI

Fo 'di Huw Hot?

BECA

Yffach, le ti 'di bod gwed?

ALIS

O'dd o mor amlwg bo' fo'n licio chdi ia. Ti teip fo dwi'n meddwl.

MALI

Be' ti'n feddwl, teip fo?

ALIS

Ti'm yn slag, na, a ti byth yn ca'l k.o yn nunlla, fatha o'dd 'i ex o.

GWELWN Y PEDAIR YN SEFYLL Y TU ALLAN I'W TŶ, AC ELIN YN RHOI GORIAD YN Y DRWS.

MALI

Rhaid inni fod ddistaw 'wan, ma' Llinos ac Elen yn cysgu.

ALIS

'Ti'n gweld. **(GWEIDDI)** Ma' 'na rywbeth amdanat ti ... na fedra' i 'i egluro.'

MAE PAWB YN CHWERTHIN A'R DRWS FFRYNT YN CAU AR EU HOLAU.

GOLYGFA 92.

INT. Ystafell yn y ganolfan arbenigo.

MALI- OEDRAN 23.

**MALI YN DEIALU RHIF AR Y FFÔN. SYLWN AR WYNEB MALI WRTH IDDI DDISGWYL I HUW
ATEB Y PEN ARALL.**

MALI

Alli di ddod yma plis?

GOLYGFA 93.

INT. Ystafell aros twrnamaint tennis. Amser: Tua 11 o'r gloch fore Sadwrn.

MALI – OEDRAN 11, MAM, TAD, OSIAN – OEDRAN 15.

POV MALI YN EDRYCH DRWY FFENESTR Y CWT AROS AR Y CYRTIAU GWLYB. MAE HI'N TYWALLT Y GLAW. SYLWN AR WYNEB MALI YN SYLLU DRWY'R FFENESTR, HEB UNRHYW EMOSIWN AR EI HWYNEB. GWELWN WÊN SYDYN YN DOD AR WYNEB MALI. MAE HI'N MYND O'R FFENEST YN SYDYN, AC YN MYND I EISTEDD AR Y SEDD GER Y BWRDD GYDA'I RHIENI A'I BRAWD. GWELWN MALI DRWY DDAGRAU'R FFENESTR YN ESTYN "GAME BOY" O'I BAG AC YN DECHRAU EI CHWARAE GYDA GWÊN ENFAWR AR EI HWYNEB. MAE EI THAD YN EDRYCH YN FLIN.

GOLYGFA 94.

INT. Ystafell y meddyg yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22, DR. WILLIAMS.

MAE MALI YN NODIO EI PHEN, AC YN DECHRAU SIARAD YN HAMDDENOL

MALI

Dwi'n gw'bod fod 'na rhywbeth yn bod 'fo fi. Ond dwi'n weld o'n anodd. Mae o i gyd fyny'n fan hyn, y llais 'na, a 'di o cau mynd ... a dim jyst hyn chwaith, ma' 'na lot mwy. Dwi methu stopio meddwl amdany'n nhw, a'r unig beth sy' gin i dan reolaeth ydy bwyd a tennis.

DR. WILLIAMS

Beth sy'n dy boeni di?

MALI

Mae o'n 'nychryn fi... marwolaeth. Ond y jôc ydi, os dwi'n parhau fel ydw'i, mi fydda i 'di mynd cyn diwedd y flwyddyn, dwi'n gw'bod hynna. Ond ma'r holl beth, fel bod 'na rywun yna ... yn sibrawd, ac wedyn yn gweiddi ... a dwi'n teimlo'n euog.

DR. WILLIAMS

Ers marwolaeth Sioned wt ti 'di bod yn teimlo fel hyn?

MALI

Mae o yna erioed. O'n i'n meddwl am farwolaeth bob tro ro'n i ar y ffordd o dŷ Taid a Nain, wrth imi gysgu ar lin mam. Wedyn, pan farwodd Taid, nes i'm meddwl dim ohono fo rili. Achos, mi o'dd o'n hen, mi o'dd o 'di cal byw am 70 mlynedd dda. Mi o'dd o mewn cymaint o boen erbyn y diwedd, mi o'dd o'n well 'i weld o'n mynd. Doedd o'm yn deg arno fo. Ond ers.... **(DECHRAU CRIO)**

DR. WILLIAMS

Cymera dy amser!

MALI YN CYMRYD ANADL DDOFN.

MALI

Dwi'm yn meddwl bo' fi'n cowpio'n dda iawn ... mi o'n i'n meddwl mod i ... ond ... dwi'n teimlo'n euog.

DR. WILLIAMS

Pam?

MALI

'Nes i'm gweld llawer ohoni hi... Sioned, yn yr hanner blwyddyn ddiwethaf. Wythnos cyn i'r holl beth ddigwydd, o'dd y tro cynta' imi 'i gweld hi'n iawn ers oes. Cha' i'm 'i gweld hi o gwbl 'wan. Dwi mor... falch ... 'mod i 'di 'i gweld hi. Mod i 'di cael gafael yn ei llaw hi, clywed hi'n chwerthin. Pa hawl sy' gin i, i ypsetio am y peth? 'Sgin i ddim.

DR. WILLIAMS

Ma' gin ti berffaith hawl. Ma' angen i chdi feddwl amdanach chdi dy hun, mewn sefyllfaoedd fel hyn.

MALI

Dwi'n berson caled. 'Sa neb yn meddwl 'mod i, ond dwi yn. Dwi'm yn licio dangos i neb 'mod i'n crio. Dwi'n licio ymdopi efo petha' ar 'mhen yn hun bach, efo'r petha' sy'n gwneud i fi deimlo'n well. 'Dach chi byth yn meddwl, yn ddau ddeg un, ych bo' chi am gladdu un o'ch ffrindia'. 'Di petha' fel'a ddim fod i ddigwydd. Dwi'm fod i fynd â bloda' ar fedd ffrind 'wan.

DR. WILLIAMS

Ma'r pethau 'ma'n digwydd ... damwain.

Mali

Pam? Fydd hynna'n gwestiwn fydda i'n 'i gario efo fi am byth ... a' gwir 'di, cheith o byth mo'i ateb. Mi o'dd o'n 'nychryn fi ar y dechra', sefyll uwchben bedd, yn gw'bod 'i bod hi actually o dan y ddaear. Bod hi yn y bocs chwe' troedfedd, o'dana'i. 'Dach chi'm yn meddwl

am y petha' 'ma'n iawn ar y pryd, tan wedyn. Mwya' sydyn, ma' bob dim yn mynd yn ormod i rywun.

SAIB

MALI

Dwi'n cofio cerdded allan o siop ddillad ar St Mary Street yng Nghaerdydd ... O'n i ar y ffordd allan o'r siop a'r munud rhois i fy nhroed drwy'r drws, mi oedd o'n chwarae'r gân 'na. Y gân ddewisodd hi ar gyfer yr angladd. Ches i'm ateb i'r tecsd flwyddyn newydd chwaith. Ond pam fyswn i'n cael un ... nes i'm gyrru un yn ôl iddi hi, ddiwrnod 'dolig, naddo.

DR. Williams

'Ti'n meddwl dy fo' ti 'di mynd yn waeth wedi'r ddamwain?

MALI YN NODIO.

DR. WILLIAMS

Wt ti isio gwella?

MALI

Yndw. Dwi'n lladd fy hun yn ara' bach. Ma' 'na deuluoedd yn colli tylwyth yn sydyn, heb unrhyw fath o help. Dwi angen helpu'n hun i allu gneud hyn.

GOLYGFA 95.

EXT. Twrnamaint Tennis. Amser: 12 o'r gloch ddydd Sadwrn.

MALI – OEDRAN 14, OSIAN – OEDRAN 18, TAD.

**AR GWRT MAE MALI A'I BRAWD YN CHWARAE GÊM GYFERBYN Â'I GILYDD. MAE OSIAN
YN GWEIDDI AC YN TAFLU EI RACED DENNIS AR Y LLAWR. EDRYCH MALI ARNO, YNA TRY I
EDRYCH AR EI THAD AC YSGWYD EI PHEN.**

GOLYGFA 96.

INT. Ystafell therapi yn y ganolfan arbenigo.

MALI – OEDRAN 22, HUW – OEDRAN 23.

GWELWN FOD MALI YN EISTEDD WRTH Y BWRDD. MAE HI’N SYLLU AR Y BWRDD, AC YN CHWARAE GYDA’I DWYLO YN NERFUS. MAE’R DRWS YN AGOR A CHWYD MALI EI PHEN. GWELWN HUW YN CERDDED I’R YSTAFELL. MAE MALI YN CODI O’I SEDD, AC YN RHEDEG TUAG ATO. MAE HI’N RHOI EI BREICHIAU AMDANO. MAE HUW YN GAFAEL YN DYNN AMDANI.

MALI

Dwi mor, mor sori.

MAE HUW YN GAFAEL YN DYNNACH AMDANI. MAE’R DDAU YN DECHRAU CRIO.

GOLYGFA 97.

EXT. Ar lôn wrth deithio ar y ffordd i lan y môr ger cartref Huw.

MALI – OEDRAN 24, HUW – OEDRAN 25.

MAE'R HAUL YN DISGLEIRIO. PANIO AR MALI A HUW AR GEFN BEICIAU. MAE'R DDAU YN GWENU AC YN CHWERTHIN. MAE GAN MALI LOND BASGIAD O BETHAU I'W GWNEUD BARBICIW A BLANCED, MAE GAN HUW LOND BAG AR EI GEFN. MAE HUW YN CYFLYMU O'I BLAEN. MAE MALI YN YSGWYD EI PHEN AC YN GWENU. YNA MAE MALI YN CYFLYMU. SIOT AGOS O'R HAUL YN DISGLEIRIO.

GOLYGFA 98.

EXT. Glan y môr.

MALI – OEDRAN 24, HUW – OEDRAN 25.

MAE MALI YN EISTEDD AR FLANCED. MAE CANHWYLLAU O'I HAMGYLCH A THÂN WEDI EI GYNNAU O'I BLAEN. MAE GWÊN ANFERTH AR WYNEB MALI. MAE HI'N CYMRYD SWIG O'I PHOTEL *KOPENBERG*, YN TROI AC YN EDRYCH AR HUW. GWELWN FOD HUW YN PWYSO DROS DDWY GARREG ANFERTH. RHWNG Y DDWY GARREG YN CYSGODI MAE BARBICIW RHAD METEL, MAE'R CIG ARNO WRTHI'N CAEL EI GOGINIO.

MALI

Faint eto sy' 'na?

HUW

Dwm'bo' ... Be' ti'n feddwl?

MAE HUW YN CODI SELSIGEN I'R AWYR GYDA'I FFORC, AC YNA MAE MALI YN TROI EI LLYGAID. CWYD MALI A CHAMU O'R FLANCED. MAE HI'N ESTYN DAU BLÂT PLASTIG O FAG HUW, AC YN EISTEDD AR UN O'R CERRIG. MAE HI'N CYMRYD Y FFORC A'R SELSIGEN O DDWYLO HUW AC YN EI GOSOD AR EI PHLÂT. MAE HI'N AGOR CYLLELL BOCED SYDD GAN HUW AC YN TORRI'R SELSIGEN YN EI HANNER. MAE HI'N ASTUDIO'R SELSIGEN YN FANWL, YN EI THORRI YN DDARNAU MAN PERFFAITH.

MALI

(EDRYCH AR HUW) Yndi ... barod.

MAE DAU BLÂT AR Y GARREG. MAE HUW YN GOSOD Y CIG AR Y PLATIAU AC YN GOSOD BYNSEN YR UN ARNYNT. MAE MALI YN CODI EI PHLÂT, YN RHOI CUSAN I HUW AC YN MYND I EISTEDD AR Y FLANCED. MAE HUW YN EI DILYN. GWELWN Y DDAU YN EISTEDD AR

Y FLANCED, GYDA'R CANHWYLLAU O'U HAMGYLCH A'R TÂN YN Y CANOL. MAE'R DDAU YN GWENU WRTH IDDYN NHW FWYTA. MAE MALI YN CODI BYNSEN I'W CHEG, OND YN EI OSOD NÔL AR Y PLÂT. HUW YN SYLLU ARNI. MALI YN TYNNU Y SELSIGEN O'R BYNSES. GWELWN HUW YN YSGWYD EI BEN, MALI YN SYLWI ARNO, YN RHOI GWEN FFALS AC YN ARAF YN BWYTA TAMAID BACH O'R SELSIGEN. MALI YN SYLLU AR HUW.

Be' sy'?

MALI

Dim, pam?

HUW

Ti'n ddistaw iawn?

MALI

Byta dwi 'de.

HUW

Hmmm

MALI

MAE HUW YN RHOI CUSAN I MALI.

HUW
Ma' hi'n braf yndi. Dos i fan'cw, i fi ga'l tynnu llun!

MALI
Ond, dwi'n byta.

HUW
Dos i fan'cw, cyn iddi dwllu wir.

MALI YN TROI EI LLYGAID AC YN CODI, MAE HI'N MYND I SEFYLL GER Y TÂN.

MAE HI'N GWENU.

MALI

lawn?

HUW

Gei di dynnu llun ohona' i 'wan!

MAE'R DDAU YN CYFNEWID LLE. MAE HUW YN GOLLWNG RHYWBETH AR Y LLAWR.

MAE MALI YN TYNNU EI LUN AC YN RHOI'R CAMERA YN ÔL I HUW. MAE HI'N MYND I

EISTEDD AR Y FLANCED. MAE HUW YN MYND DRWY'R LLUNIAU.

HUW

O shit... Chesh i'm llun chdi.

MALI

Ti'n siriys?

HUW

Ar llw. Dos nôl i fi ga'l tynnu un arall...

MALI

Ooooo Huw! **(MAE MALI YN CODI AR EI THRAED AC YN MYND YN EI HÔL I'R FAN YR OEDD**

HI YN GYNHARACH) Ti mor annoying weithia' 'de.

HUW

1... 2... disgwl funud, ma' 'na r'wbath wrth dy draed di.

POV MALI: MAE HI'N EDRYCH AR Y LLAWR AC YN GWELD CARREG, MAE RHYWBETH

WEDI'I YSGRIFENNU ARNO. MAE HI'N CODI'R GARREG A GWELD, WEDI EI YSGRIFENNU

MEWN INC COCH, Y GEIRIAU 'WNEI DI FY MHRIODI I?'

GOLYGFA 99.

INT. Cartref Mali. Amser: 6 o'r gloch nos iau.

MALI – OEDRAN 7, TAD.

**MAE'R DDAU YN EISTEDD GYFERBYN Â'I GILYDD DROS Y BWRDD BWYD. SIOT YN SYMUD
NÔL A BLAEN PAN FO'R DDAU YN ATEB EI GILYDD, YN UNION FEL PE BAI RHYWUN YN
GWYLIO GÊM DENNIS.**

Syrf gynta'?	TAD
First serve.	MALI
Ail syrf?	TAD
Second serve.	MALI
Methu y ddwy syrf?	TAD
Double fault.	MALI
Pêl yn taro top y rhwyd, wrth syrffio?	TAD
Let.	MALI
Y sgôr?	TAD
Fifteen love, thirty love, forty love, fifteen-thirty, thirty all, thirty-forty, duce, advantage, Game.	MALI

GOLYGFA 100.

INT. Ystafell Dr. Williams yn yr Ysbyty.

MALI – OEDRAN 26, DR. WILLIAMS.

**MAE DR. WILLIAMS YN EISTEDD Y TU ÔL I'W DDESG A'I BEN YN EI WAITH. CLYWN GNOC
AR Y DRWS.**

DR. WILLIAMS

Dewch i mewn.

MAE'R DRWS YN AGOR, GWELWN WÊN AR WYNEB DR. WILLIAMS.

DR. WILLIAMS

Mali. 'Stedda!

**GWELWN MALI YN CERDDED I'R YSTAFELL, MAE HI'N EDRYCH YN IACH. MAE HI'N MYND I
EISTEDD AR Y GADAIR GYFERBYN Â'R DOCTOR. MAE GWÊN AR EI HWYNEB.**

DR. WILLIAMS

Sud wyt ti?

MALI

lawn, diolch.

DR. WILLIAMS

Sud ma' petha' adre'?

MALI

Ma' petha' 'di gwella'n arw, ond fel dwi 'di bod yn ddeud wrth mam a dad, cama bach.

DR. WILLIAMS

A ma'n nhw'n dealld?

MALI

Yndyn, ma'n nhw'n iawn ... wel, 'dyn nhw'm yn licio siarad am y peth, beio 'u hunan dwi'n meddwl. Ond Catrin, dwi'n poeni amdani. Mae hi' 'di mynd yn od efo fi ers ... ers pan o'n i'n anarecsic.

DR. WILLIAMS

Siarada' efo hi.

MALI

'Dach chi'n meddwl 'neith huna wella petha'.

DR. WILLIAMS

'Ti'n gw'bod, a dwi'n gw'bod fod siarad a rhannu petha yn gwneud i rywun deimlo lot gwell yn y pen draw.

GOLYGFA 101.

INT. Ystafell wely Catrin.

CATRIN – OEDRAN 14, MALI – OEDRAN 26.

YSTAFELL CATRIN. MAE CÊS YN LLYDAN AGORED AR Y LLAWR, AC MAE CATRIN YN STRAFFAGLU DRWY EI CHWPWRDD DILLAD. MAE MALI YN SEFYLL YN Y DRWS, AC YN RHOI CNOC YSGAFN. NID YW CATRIN YN CODI EI PHEN O'I CHWPWRDD DILLAD.

MALI

Iw hwww, o's 'na bobl?

MAE MALI YN CERDDED I'R YSTAFELL. NID YW CATRIN YN CYMRYD SYLW OHONI AC FELLY YN PARHAU I DYRCHU DRWY EI CHWPWRDD DILLAD

MALI

Be' 'ti'n 'neud?

CATRIN

Chwilio am betha' i fynd i wersyll y glanna'.

MALI

Pryd 'ti'n mynd?

CATRIN

Fory!

MALI

Wel mi fasa'n well i mi dy helpu di lly, os 'ti angan bod yn barod erbyn fory.

MAE MALI YN MYND I EISTEDD GYDA CATRIN AR Y LLAWR. MAE SAIB ANGHYFFORDDUS RHWNG Y DDWY.

CATRIN

Pa fath o betha' oeddach chdi'n mynd efo chdi?

MALI

Wel... ti angan digon o ddillad blêr, trowsus 'marfar corff, treinyrs, digonadd o hoodies achos mi fyddi di yn wlyb rhan fwya' o'r amser, a digon o ddillad isa'. Ti'm isio rhedeg allan o'r rheini nagoes, a gorfod menthyg rhai dy ffrindia'.

MAE'R DDWY YN GWENU, MAE GWÊN CATRIN YN DIFLANNU YN SYDYN. MAE HI'N CODI AC YN MYND I EISTEDD AR EI GWELY.

MALI

Hei, be' sy'?

CATRIN

Dim.

MALI

Oes tad, duda

CWYD MALI A MYND I EISTEDD AR Y GWELY GYDA CATRIN.

CATRIN

Pam 'ti'n bod yn neis efo fi 'wan?

MALI

Be ti'n feddwl "wan"? Dwi'n neis efo chdi bob tro y rwdlan ... wel heblaw pan 'ti'n dwyn 'nillad i!

MALI YN CHWERTHIN, OND NID YW CATRIN YN CHWERTHIN

CATRIN

Udisd 'di'mai bai fi oedd bob dim.

MALI

Pryd ddudish i hynna?

CATRIN

Y noson 'na lle o'n i'n chwilio am sgarff ... pan gesd di y ffrae fawr 'na efo mam! Udisd di ma' fi odd 'di cychwyn hyn i gyd, ac ma' 'mai fi odd bob dim.

MALI

Reit, Catrin, gwranda 'wan. Mi o'n i'n sâl radag yna 'do'n, do'dd dim byd o'r petha udish i yn wir, do'n i'm yn meddwl dim byd.

CATRIN

Ond 'mai fi o'dd o... taswn i heb fysnesu...

MALI

Bach oeddach chdi ... dyna oeddach chdi i fod i 'neud, bysnesu. Dyna be ma' chwirydd bach i fod i 'neud.

CATRIN

Ia, ond 'mai fi o'dd o de, ffrae efo mam, chdi yn mynd ...

MALI

Os ma' bai chdi odd o de, wel bai chdi o'dd o felly mod i 'di gwella.

CATRIN

Dwi'm yn dalld!

MALI

Tasat ti heb fod yn chwaer fach fysneslyd y noson yna, duw a wŷyr pryd fydda rhywun wedi dod o hyd i'r petha, ac ella' 'swn i'm yma heddiw.

MAE CATRIN YN EDRYCH AC YN GWRANDO YN ASTUD AR MALI.

MALI

Mi o'n i'n sâl iawn ar un adag. Do'n i'm yn byta dim byd, dim ond byw ar aer, a fydda' hynna heb gadw fi fynd am byth. Heblaw amdanach chdi 'sa mam a dad 'im callach, a 'swn i heb

ga'l yr help gesh i. Felly does 'na ddim bai arna' chdi. Dwi'n diolch i chdi am fod yn chwaer fach ynoing.

MAE CATRIN YN GWENU, AC MAE'R DDWY YN CHWERTHIN. MAE CATRIN YN RHOI COFLAID I'W CHWAER.

CATRIN

Dwi'n falch bo' chdi'n well.

MALI

(CRYNDOD YN EI LLAIS) Dwi'n falch 'mod i'n well.

MAE MALI YN EDRYCH AR CATRIN.

MALI

Hei, y peth pwysica' am wersyll y glanna' ydy'r Midnight feast... 'sgin ti stwff?

CATRIN

Nagoes, o'dd mam yn rhy brysur i fynd â fi i siop.

MALI

Wel wir, chei di'm mynd heb gael sgrwtsh, felly 'sgidia mlaen ac awe, dwi'n mynd â chdi i siop.

MAE'R DDWY YN CODI BAWD AR EI GILYDD, YNA MAE CATRIN YN RHUTHRO'N ÔL I'R CWPWRDD DILLAD AC YN RHOI EI HESGIDIAU AM EI THRAED.

GOLYGFA 102.

INT. Cartref Mali. Amser 12 o'r gloch brynhawn Gwener.

MALI – OEDRAN 20.

POV MALI YN EDRYCH AR GERDYN HIRSGWAR LLIW GWYRDD, GYDA'R LLYTHRENNAU 'L.T.A TENNIS RATING' AR EI BEN. MAE'R RHIF 7.2 AR Y GWAELOD AC ENW MISS MALI ELLIS (SEF CERDYN TENNIS CYNTAF MALI A OEDD YN GALLUOGI IDDI GYSTADLU MEWN UNRHYW DWRNAMAIN). MAE HI'N CODI AC EDRYCH AR EI CHERDYN NEWYDD SYDD YN EDRYCH YN UNION YR UN FATH Â'R UN CYNTAF, OND EI FOD YN LLIW GLAS A GYDA'R RHIF 2.2 ARNO. MAE HI'N LLUCHIO'R CERDYN NEWYDD YN ÔL AR Y BWRDD AC YN CERDDED DRWY'R DRWS FFRYNT.

GOLYGFA 103.

INT. Car Mali. Amser 4 o'r gloch y prynhawn.

MALI – OEDRAN 26.

MAE MALI YN GWENU WRTHI'I HUN YN Y DRYCH. MAE CÂN YMLAEN YN Y CEFNDIR YN DDISTAW. Y GÂN YW 'ANGEL' GAN SARAH MCLACHLAN.

MAE FFÔN SYMUDOL MALI YN CANU, HUW EI DYWEDDI SYDD YNO.

MALI

Helo, 'ti'n iawn? Dwi'n dreifio, sori ... Os 'ti'm yn 'nghlwad i'n iawn, dwi ar loud speaker, iawn?

CLYWN HUW DRWY SEINYDD Y FFÔN.

HUW

O duwcs ... dim ond holi pryd fyddi di adra? Ffansi sinemas heno neu awn ni am fwyd?

MALI

Um ia ... ia ... un o'r ddau, dewisia di! Fydda' i adra' mewn bach eniwe, ar y ffordd i weld Sioned (**MALI YN NEWID GER Y CAR**) ... 'fo bloda' iddi 'li ... ei ...

HUW

Be'?

MALI

Dwi 'di dewis cân *first dance* ni ... hold on ... Mae o 'mlaen gin i 'wan ... disgw'l funud, ifi ga'l roid o'n ôl i'r dechra ... i chdi ga'l 'i glwad o'n iawn 'li.

HUW

Sydyn 'wan ta Mali.

**SIOT O MALI YN GOSOD EI FFÔN AR Y SEDD GYFERBYN. MAE HI'N AILDDECHRAU'R GÂN,
AC YN EI CHWARAE YN UWCH. GWELWN MALI YN TROI EI PHEN ODDI WRTH Y LÔN, AC YN
EDRYCH AR Y FFÔN. YNA EDRYCH BOB YN AIL.**

MALI

Wel ... Be' 'ti'n feddwl?

HUW

Duw iawn 'ndi ... good banter.

MALI

Good banter, wir. Pa fath o ateb 'di hynna ... 'Ti'n licio'i 'ta be'?

HUW

Yndw duwcs ... blydi lyfli.

**SIOT O WÊN AR WYNEB MALI. MAE HI'N CODI EI PHEN ER MWYN EDRYCH AR Y LÔN.
GWÊL FOTOBEC WRTHI'N GODDIWEDDYD CAR SYDD AR OCHR ARALL Y LÔN. MAE MALI
YN BRECIO YN SYDYN AC YN GOSOD Y FFÔN AR Y SEDD ARALL.**

HUW

MALI? ... MALI!

MAE MALI YN ANADLU YN DDWFN AC YN ESTYN Y FFÔN.

HUW

Mali? 'Ti yna?

MALI

Yndw sori, motobeic o'dd yn dod i 'nghwfr i.

HUW

For god sakes 'de Mali, dos off y ffôn 'wan. Ga'i glwad y gân yn munud.

MALI

lawn oce... caru chdi!

HUW

Caru chdi 'fyd, yr idiot.

MAE MALI YN DIFFODD EI FFÔN AC YN GWENU.

GOLYGFA 104.

EXT. Lôn.

CAR MALI YN GWIBIO HEIBIO I'R MAN LLE LLADDWYD EI FFRIND SIONED. YNO MAE

BLODAU A LLUNIAU OHONI.

FADE OUT GYDA'R GÂN 'ANGEL' YN Y CEFNDIR.